



Cyfarfod

**PWYLLGOR PENSIYNAU**

Dyddiad ac Amser

**2.30 y.h., DYDD LLUN, 27AIN MEHEFIN, 2022**

Lleoliad

**Cyfarfod Rhithiol**

Pwynt Cyswllt

**Lowri Haf Evans**

**01286 679878**

**lowrihafevans@gwynedd.llyw.cymru**

(Dosbarthwyd 20 Mehefin 2022)

## **PWYLLGOR PENSIYNAU**

### **AELODAETH (7)**

#### **Plaid Cymru (4)**

Y Cynghorwyr

Iwan Huws  
Ioan Thomas

Medwyn Hughes

Elin Hywel

#### **Annibynnol (2)**

Y Cynghorwyr

John Pughe Roberts

John Brynmor Hughes

#### **Aelod Unigol (1)**

Y Cyngorydd Stephen Churchman

### **Aelodau Cyfetholedig**

Cyngorydd Robin Wyn Williams  
Cyngorydd Goronwy Owen Edwards

Cyngor Sir Ynys Môn  
Cyngor Bwrdeistrefol Sirol Conwy

### **Aelodau Ex-officio**

Cadeirydd ac Is-Gadeirydd y Cyngor

# R H A G L E N

## 1. ETHOL CADEIRYDD

I ethol Cadeirydd ar gyfer 2022 - 2023

## 2. ETHOL IS-GADEIRYDD

I ethol Is-gadeirydd ar gyfer 2022 - 2023

## 3. YMDDIHEURIADAU

I dderbyn unrhyw ymddiheuriadau am absenoldeb

## 4. DATGAN BUDDIANT PERSONOL

I dderbyn unrhyw ddatganiad o fuddiant personol

## 5. MATERION BRYD

Nodi unrhyw eitemau sy'n fater bryd ym marn y cadeirydd fel y gellir eu hystyried.

## 6. COFNODION

5 - 10

Bydd y Cadeirydd yn cynnig y dylid llofnodi cofnodion cyfarfod o'r pwyllgor hwn a gynhaliwyd 17 Mawrth 2022 fel rhai cywir

## 7. CYNLLUN ARCHWILIO CRONFA BENSIWN GWYNEDD 2022

11 - 21

I ystyried yr adroddiad

## 8. CYFRIFON DRAFFT CRONFA BENSIWN GWYNEDD AM Y 22 - 66 FLWYDDYN A DDAETH I BEN 31 MAWRTH 2022

Cyflwyno a nodi'r Datganiad o'r Cyfrifon Drafft

## 9. CYNLLUN BUSNES PARTNERIAETH PENSIWN CYMRU

67 - 83

I ystyried a chymeradwyo'r Cynllun Busnes

## 10. RHEOLAETH TRYSORLYS 2021/22

84 - 88

I ystyried a derbyn yr adroddiad er gwybodaeth

## 11. POLISI CYNRYCHIOLAETH

89 - 95

I ystyried yr adroddiad a chymeradwyo'r polisi newydd

## 12. STRATEGAETH GWEINYDDU PENSIYNAU

96 - 116

I ystyried yr adroddiad a chymeradwyo'r Strategaeth Gweinyddu Pensiynau

**13. ADRODDIAD ADRAN 13**

117 - 133

I ystyried yr adroddiad, nodi a chynnig sylwadau ar yr ymarfer Adran 13 a'r papur a gynhyrchwyd gan Hymans Robertson.

---

## PWYLLGOR PENSIYNAU 17-03-22

---

### Presenoldeb:

**Cynghorwyr:** Stephen Churchman, John Brynmor Hughes, Peredur Jenkins (Cadeirydd), John Pughe Roberts ac Ioan Thomas

### Swyddogion:

Dafydd Edwards (Cyfarwyddwr y Gronfa), Delyth Jones-Thomas (Rheolwr Buddsoddi), Meirion Jones (Rheolwr Pensiynau) a Lowri Haf Evans (Swyddog Gwasanaethau Democratiaeth)

### Eraill a wahoddwyd:

Osian Richards (Aelod Bwrdd Pensiwn – arsylwi)

#### 1. YMDDIHEURIADAU

Derbyniwyd ymddiheuriadau gan y Cynghorwyr Aled Wyn Jones, Goronwy Edwards (Cyngor Sir Bwrdeistrefol Conwy) a Robin Williams (Cyngor Sir Ynys Môn)

#### 2. DATGAN BUDDIANT PERSONOL

Dim i'w nodi

#### 3. MATERION BRYS

Llongyfarchwyd Osian Richards (Cynrychiolydd Aelodau, Bwrdd Pensiwn Cronfa Bensiwn Gwynedd) ar gael ei enwebu yn gynrychiolydd aelodau ar Gydbwyllgor Llywodraethu Partneriaeth Pensiwn Cymru. Bydd y trefniant yn cael ei gadarnhau yn ffurfiol yng nghyfarfod nesaf y Cydbwyllgor ar y 24ain o Fawrth 2022.

#### 4. COFNODION

Bu i'r Cadeirydd dderbyn cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 17 Ionawr 2022 fel rhai cywir.

#### 5. DATGANIAD STRATEGAETH RHEOLAETH TRYSORLYS AR GYFER 2022/23

Cyflwynwyd adroddiad gan y Rheolwr Buddsoddi yn nodi yn unol â Chyfarwyddyd Statudol Llywodraeth Cynulliad Cymru ar Fuddsoddiadau Llywodraeth Leol, mae'n ofynnol i'r Cyngor, fel rhan o'i swyddogaeth wrth reoli'r trysorlys, baratoi Strategaeth Fuddsoddi Flynyddol. Fel ymarfer da, ystyriwyd y dylai Cronfa Bensiwn Gwynedd (y "Gronfa") fabwysiadu Datganiad Strategaeth Rheoli'r Trysorlys (DSRhT) Cyngor Gwynedd am 2022/23, fel ei addaswyd i bwrpas y Gronfa Bensiwn. Cafodd DSRhT Cyngor Gwynedd am 2022/23 ei gymeradwyo gan y Cyngor llawn ar 3 Mawrth 2022.

Eglurwyd, ar hyn o bryd, bod yr holl arian sydd dros ben yn y Gronfa yn cael ei gronni gyda balansau ariannol Cyngor Gwynedd ac yn cael ei fuddsoddi gyda gwrthbartion yn unol â Strategaeth Rheolaeth Trysorlys Cyngor Gwynedd. Ar ddiwedd y flwyddyn ariannol, bydd Cyngor Gwynedd yn talu llog i'r Gronfa Bensiwn ar sail balansau dyddiol

y Gronfa dros y flwyddyn. Nodwyd, yn unol â chyngor cyfreithiol, mai buddiol yw cymeradwyo'r ymarfer yn flynyddol gan geisio dychweliadau o fewn ffiniau diogel a lleihau risgiau wrth uno'r arian gyda chronfeydd y Cyngor.

Amlygwyd bod cod ymarfer CIPFA a chanllawiau Llywodraeth Cymru yn ei gwneud yn ofynnol i'r Cyngor fuddsoddi ei arian yn ddarbodus gan ystyried diogelwch a hylifedd cyn ceisio am enillion neu'r cynnyrch uchaf. Ategwyd bod pob ymdrech yn cael ei wneud i daro cydbwysedd gyda'r ffactorau hyn a bod mesurau gwirfoddol i amlygu sensitifrwydd i'r risgiau diogelu credyd a hylifedd wedi eu mabwysiadu - bydd diweddariad ar y dangosyddion rheolaeth yn cael eu cyflwyno i'r Pwyllgor pob hanner blwyddyn. Tynnwyd sylw at y gwrthbartion hynny sydd wedi eu cymeradwyo ar gyfer buddsoddi ynddynt (llywodraeth leol, awdurdodiad lleol, banciau, cronfeydd marchnad arian a chronfeydd cyfun) ynghyd a'r terfynau amser a'r cyfyngiadau buddsoddi.

Prif fanteision yr ymarfer yw denu llog uwch, isafu costau banc ac osgoi dyblygu gwaith o fewn y Cyngor. Cadarnhawyd mai cadw'r Gronfa yn ddiogel a gwarchod yr arian yw'r flaenoriaeth ac nid cymryd risg.

Cynigiwyd ac eiliwyd i dderbyn yr argymhellion

#### **PENDERFYNWYD:**

- **Derbyn a nodi'r wybodaeth**
- **Mabwysiadu'r Datganiad Strategaeth Rheolaeth Trysorlys am 2022/23, fel ei addaswyd i bwrpas y Gronfa Bensiwn**
- **Gwneud cais i'r Cyngor (er nad yw'n gorff ar wahân) i ganiatáu i arian dros ben y Gronfa Bensiwn barhau i gael ei gronni gyda llif-arian cyffredinol y Cyngor o 1 Ebrill 2022 ymlaen.**

## **6. POLISI BUDDSODDI CYFRIFOL**

Cyflwynwyd adroddiad gan y Rheolwr Buddsoddi yn gofyn i'r Pwyllgor gymeradwyo Polisi Buddsoddi Cyfrifol ar gyfer Cronfa Bensiwn Gwynedd. Adroddwyd bod Buddsoddi Cyfrifol wedi datblygu yn bwnc trafod pwysig a phoblogaidd dros y blynyddoedd diwethaf a bod Cronfa Bensiwn Gwynedd wedi cymryd camau cadarnhaol yn y maes, yn gynnwys rhyddhau datganiadau buddsoddi cyfrifol yn Ebrill a Gorffennaf 2021 sydd bellach wedi eu ffurfioli o fewn y polisi.

Nodwyd bod y polisi yn amlinellu mai nod y Gronfa yw sicrhau enillion buddsoddi cryf dros y tymor hir gan ddiogelu buddiannau rhanddeiliad, er yn cydnabod y gall materion llywodraethu, amgylcheddol a chymdeithasol gynrychioli risg ariannol sylweddol i'r rhanddeiliaid a dylanwadu ar elw ac enw da'r Gronfa. Ategwyd bod y polisi hefyd yn cynnwys gwybodaeth am ganllawiau cyfreithiol, credoau buddsoddi, ymgysylltu a datgelu ac adrodd gan ddisgrifio'r egwyddorion a'r gweithdrefnau hynny y mae'r gronfa yn ei ddilyn yn y maes buddsoddi cyfrifol.

Cyfeiriwyd at ymrwymiad net sero'r Gronfa gan amlygu ystyriaeth o ymrwymo i darged net erbyn 2050, ond asesu'r posibilrwydd yn barhaus o gyrraedd 5,10, neu 15 mlynedd ynghynt. Amlygwyd nad oedd dymuniad gosod targed heb gynllun o sut i'w gyrraedd, ond nodwyd bod y targed o 2050 yn cyd fynd gyda tharged Russell Investments Darparwr Atebion Rheoli Buddsoddiadau Partneriaeth Pensiwn Cymru. Tynnwyd sylw at y fframwaith a ddatblygwyd i gefnogi'r uchelgais sydd yn cwmpasu cyfleoedd, ymgysylltu, monitro a metrigau.

Ategodd Cyfarwyddwr y Gronfa, er nad oedd targed wedi ei osod yn flaenorol bod ymrwymiad i fod yn sero net a chamau rhesymol wedi eu cyflawni at gyrraedd hyn wedi eu gweithredu, ond bod disgwyliad bellach i osod targed a ffurfioli'r sefyllfa.

Cyflwynwyd y polisi i'r Bwrdd Pensiwn am sylwadau Mawrth 7fed 2022. Nodwyd bod eu cynigion wedi eu hymgorffori yn y polisi

Diolchwyd am yr adroddiad

Rhoddyd cyfle i'r Aelodau ofyn cwestiynau.

Mewn ymateb i gwestiwn ynglŷn â goblygiadau'r Mesur Sancsiynau gan Lywodraeth San Steffan yn dilyn ymosodiad Rwsia ar Wcráin, ymddengys bod Llywodraeth San Steffan eisiau cyfyngu cronfeydd o weithredu yn Wleidyddol. Er i rai penderfyniadau gael eu herio yn y gorffennol ymddengys bod bwriad gan y Llywodraeth i osod polisi, ond ystyriwyd y gall hyn amrywio yn ddibynnol ar y llywodraeth sydd mewn grym ar y pryd. Amlygodd bod y 'dyletswydd ymddiriedol' yn rheoli'r cyfyngiadau ar hyn o bryd ac yn unol ag awgrym y Bwrdd Pensiwn bod cyfeiriad at hyn wedi ei gynnwys yn y Polisi.

Yng nghyd-destun Rwsia a Wcráin amlygwyd bod gan y Pwyllgor yr un farn, y grym a'r hyder i ddylanwadu ar y portffolio drwy rannu pryder am y sefyllfa gydag aelodau'r Cynllun gan ryddhau datganiad a thrwy nodi nad oedd risg o niwed ariannol sylweddol i'r Gronfa o fuddsoddi a Rwsia (llai na 1%). Gyda materion eraill megis arfau, nid oes un farn gyffredin ymysg mwyafrif aelodau'r Gronfa, ac mae'n heriol i adnabod maint y buddsoddiadau. Derbyniwyd fod hyn yn anodd, a rhaid bod yn gyfforddus o'r sefyllfa cyn symud ymlaen, gan fod y dyletswydd ymddiriedol yn berthnasol yma.

Mewn ymateb i sylwadau am osod targed sero net ac o'r posibilrwydd o gyrraedd y targed cyn 2050, amlygodd y Cadeirydd bod Llywodraeth Cymru wedi gwneud datganiad dylai sector cyhoeddus Cymru fod yn garbon niwtral erbyn 2030. Yng nghyfarfod Cabinet Cyngor Gwynedd Mawrth 3ydd 2022, cymeradwywyd mabwysiadu a gweithredu Cynllun Argyfwng Hinsawdd a Natur 2022-2030. Bydd y cynllun yma yn amlinellu'r camau gweithredu y bydd y Cyngor yn eu cymryd er mwyn cyrraedd y nod o fod yn Gyngor carbon sero-net erbyn 2030. Er mwyn cysoni'r uchelgais yma gyda'r Polisi Buddsoddi Cyfrifol, awgrymwyd addasu'r amserlen fel bod uchelgais i gyrraedd y nod o fod yn sero net erbyn 2030.

Amlygodd y Rheolwr Buddsoddi bod Partneriaeth Pensiwn Cymru wedi comisiynu cwmni Robeco i ymgysylltu gyda rheolwyr asedau'r gronfa mewn perthynas â gweithgarwch pleidleisio ar faterion sydd yn ymwneud â'r hinsawdd, ac i ymgysylltu gyda'r cwmnïau mae cronfeydd PPC yn buddsoddi ynddynt, i ddylanwadu a gwella eu gweithgareddau ac ymddygiad ar faterion yn ymwneud â hinsawdd. Ategwyd bod mesurau pellach i'w mabwysiadu ynghyd â gofynion 'TCFD' (Tasglu ar Ddatgeliadau Ariannol sy'n gysylltiedig â'r Hinsawdd). Cyfeiriwyd at yr atodiad i'r polisi – 'Monitro Rheolwyr Asedau Cronfa Bensiwn Gwynedd', sydd yn ddogfen fyw fydd yn cadw cofnod o'r datblygiadau yn y maes buddsoddi cyfrifol mae'r holl reolwr asedau wedi eu cyflawni.

Cynigiwyd ac eiliwyd cymeradwyo'r Polisi yn ddarostyngedig i addasu'r amserlen fel bod uchelgais i gyrraedd y nod o fod yn sero net erbyn 2030, os yn bosib.

## **PENDERFYNWYD**

- **Derbyn a nodi'r wybodaeth**
- **Cymeradwyo Polisi Buddsoddi Cyfrifol yn ddarostyngedig i addasu cymal o dan y pennawd 'Lleihau Allyriadau Carbon y Gronfa ac Amcanion y Dyfodol'**

**"... mae'r Pwyllgor wedi ymrwymo i osod nod i'r Gronfa fod yn sero net erbyn 2050, wedi'i gefnogi gan ymrwymiad i asesu dichonoldeb y Gronfa i gyrraedd sero net 5,10 neu 15 mlynedd ynghynt..."**

**“... mae'r Pwyllgor wedi ymrwymo i osod nod i'r Gronfa fod yn sero net erbyn 2050, wedi'i gefnogi gan ymrwymiad i asesu dichonoldeb y Gronfa i gyrraedd sero net 5,10 neu 20 mlynedd ynghynt...”**

Nododd y Cadeirydd bod cwestiynnau gan y cyhoedd wedi eu cyflwyno i'r Pwyllgor a rhoddwyd ymatebion i'r cwestiynnau hynny gan Gyfarwyddwr y Gronfa:

1. Gan gofio natur ansicr buddsoddiadau tanwydd ffosil yng ngoleuni rhyfel Rwsia; adroddiad diweddar yr IPCC, a barn arbenigwyr bod ymgysylltu â chyfranddalwyr yn arwain at siarad yn hytrach na gweithredu, a wnaiff y pwyllgor ymrwymo yn awr i wyro oddi wrth yr holl asedau sy'n ymwneud â thanwydd ffosil yn yr amser byrraf posibl? Rwy'n galw am ddatfuddsoddi o fewn 2 flynedd.

*Nodwyd bod Polisi Buddsoddi Cyfrifol uchelgeisiol bellach wedi ei fabwysiadau a bod tystiolaeth sylweddol o'r camau y mae'r Gronfa eisoes wedi ei gymryd i weithredu. Gan fod asedau'r Gronfa'n cael eu buddsoddi'n fyd-eang, ac ar draws llawer o sectorau, bydd lleihau allyriadau carbon y Gronfa yn fwy heriol nag y byddai i sefydliad unigol. Felly, ni fydd modd ymrwymo i ymateb yn gynt oherwydd y dyletswydd ymddiriedol.*

2. O ystyried y swm sylweddol o dystiolaeth sy'n dangos nad yw ymgysylltu yn arf effeithiol i sicrhau bod cwmnïau'n tynnu'n ôl o danwydd ffosil yn enwedig o fewn yr amserlen sydd ei hangen, a fydd Cronfa Bensiwn Gwynedd yn hytrach yn canolbwyntio ei ymdrechion ar ddatfuddsoddi?

*Tanlinellwyd drwy gyfeirio at esiamplau yn yr atodiad i'r Polisi Buddsoddi Cyfrifol sy'n monitro cynnydd rheolwyr asedau Cronfa Bensiwn Gwynedd bod ddatfuddsoddi eisoes yn cael ei weithredu, lle'n bosibl, gyda pharch dyledus i'r dyletswydd ymddiriedol ac amodau cyfreithiol eraill.*

*Cadarnhawyd barn y Pwyllgor a'r swyddogion fod ymgysylltu yn arf hanfodol, ac ymhelaethwyd fod Partneriaeth Pensiwn Cymru wedi comisiynu cwmni Robeco i ymgysylltu gyda rheolwyr â'r cwmnïau rydym yn buddsoddi ynddynt i ddylanwadu a gwella eu gweithgareddau ac ymddygiad ar faterion yn ymwneud â hinsawdd, ynghyd a cheisio dylanwadu'r cwmnïau hynny gan eu hannog i symud o danwydd ffosil i ynni adnewyddol.*

3. A ellir darparu diweddariad ar: (a) faint o arian y mae Cronfa Bensiwn Gwynedd wedi'i fuddsoddi ar hyn o bryd mewn asedau sy'n ymwneud â thanwydd ffosil a (b) datblygiad polisi buddsoddi cyfrifol y gronfa?

*(a) Cadarnhawyd bydd gofynion adrodd penodol 'TCFD' ar gyfer cronfeydd CPLIL yn cael eu cyflwyno yn y flwyddyn nesaf, ac yn y cyfamser, nid oes dull cydnabyddedig o adrodd yn gyson.*

*(b) Ymhelaethwyd fod y Polisi Buddsoddi Cyfrifol uchelgeisiol bellach wedi ei fabwysiadau.*

4. A yw'r Pwyllgor yn cydnabod bod y rhyfel yn Wcráin, yr ansicrwydd ynghylch cyflenwad olew a nwy a'r ymgyrch o'r newydd i ddatblygu ynni adnewyddadwy yn tynnu sylw at natur ansicr buddsoddiadau tanwydd ffosil?

*Nodwyd nad y rhyfel yn unig sydd wedi amlygu'r ansicrwydd yma, bod y Pwyllgor eisoes wedi ystyried natur ansicr buddsoddiadau tanwydd ffosil, a bod camau perthnasol eisoes wedi'u cymryd, fel y'i amlinellwyd yn y Polisi Buddsoddi Cyfrifol ai'r atodiad sy'n monitro cynnydd.*



5. A fyddech chi'n ystyried strategaeth o restru'r cwmnïau mwyaf llygredig o'ch portffolio buddsoddi ac ymuno â'r NZAOA (Cynulliad y Cenhedloedd Unedig - Net Zero Asset Owner Alliance)

*Bod Cronfa Gwynedd yn derbyn cyngor ac yn gweithredu yn unol â'r cyngor hynny. Nodwyd nad oedd bwriad ymuno gyda NZAOA ar hyn o bryd, ond fod parodrwydd i ymchwilio i'w rhinweddau ac i rannu gwybodaeth gyda Phartneriaeth Pensiwn Cymru, pe bai'n fuddiol.*

Gwerthfawrogwyd diddordeb y cyhoedd yn y pwnc ac anogwyd hwy i gyflwyno eu cwestiynnau yn gynt fel bod modd i'r swyddogion a'r aelodau gael cyfle i baratoi ymatebion llawn.

## **7. POLISI SGILIAU A GWYBODAETH A CHYNLLUN HYFFORDDIANT 2022/23**

Cyflwynwyd adroddiad gan y Rheolwr Buddsoddi yn ymateb i argymhellion Adolygiad Llywodraethu Da i awdurdodau sicrhau bod gan swyddogion y Gronfa, yn ogystal ag aelodau Pwyllgor Pensiwnau lefel digonol o wybodaeth i allu cyflawni eu rolau priodol yn effeithiol. Nodwyd, fel rhan o baratoi'r polisi newydd, rhannwyd copi drafft o'r polisi gyda Hymans Robertson a'r Bwrdd Pensiwn er mwyn derbyn adborth.

Cyfeiriwyd at y Cynllun Hyfforddiant sydd wedi ei lunio ar gyfer 2022/23 ac at bwysigrwydd cael proses anwytho yn ei le ar gyfer newidiadau posib i aelodaeth Pwyllgor a Bwrdd Pensiwn o ganlyniad i etholiad Mai 2022. Tynnwyd sylw at y cofnod hyfforddiant gan ofyn i'r Aelodau sicrhau eu bod yn cofnodi presenoldeb i sesiynau hyfforddiant rhithiol yr oeddynt yn mynychu, gyda'r Rheolwr Buddsoddi.

Diolchwyd am yr adroddiad

Yn ystod y drafodaeth ddilynol nodwyd y sylwadau canlynol gan aelodau:

- Bod y polisi yn un i'w groesawu
- Bod hi'n hanfodol sicrhau bod yr adnoddau cywir ar gael i Aelodau wneud y gwaith
- Croesawu strwythur proffesiynol i'r hyfforddiant

Mewn ymateb i gwestiwn ynglŷn â'r angen i aelodau gwblhau cwrs hanfodion er mwyn gallu pleidleisio mewn pwyllgorau, ac os mai canllaw ynteu rheol oedd y datganiad, nodwyd bod rhaid sicrhau bod gan aelodau ddigon o wybodaeth i wneud penderfyniadau ystyrlon, er bod mandad ganddynt i gynrychioli'r Cyngor ar y Pwyllgor. Amlygwyd y disgwyliad i ddysgu'r drefn, ond na ellid gorfodi'r hyfforddiant ar unrhyw un.

## **PENDERFYNIAD**

### **Cymeradwyo'r Polisi Gwybodaeth a Sgiliau a'r Cynllun Hyfforddiant 2022/23**

## **8. DIWEDDARIAD PARTNERIAETH PENSIWN CYMRU**

Cyflwynwyd adroddiad gan y Rheolwr Buddsoddi yn rhoi diweddariad ar weithgareddau Partneriaeth Pensiwn Cymru gan nodi bod y cydweithio wedi mynd o nerth i nerth ers sefydlu yn 2017 ac erbyn hyn bod 83% o gronfa Gwynedd wedi ei bwlio - 56% drwy'r prif gronfeydd a 27% drwy'r buddsoddiadau goddefol.

Tynnwyd sylw at berfformiad y cronfeydd oedd wedi bod yn gyfnewidiol yn ddiweddar oherwydd amgylchiadau heriol iawn a nodwyd y byddai'r PPC yn monitro eu perfformiad yn fanwl. Adroddwyd bod trosglwyddo marchnadoedd datblygol o Fidelity i PPC ym mis Hydref 2021 wedi bod yn llwyddiannus iawn, gyda 6 rheolwr o fewn y gronfa, yn

cynnwys 5% wedi ei neilltuo i Bin Yan, sef arbenigwr Tsiena. Ategwyd bod 'troshaen datgarboneiddio' wedi'i gosod ar y gronfa yma sydd yn lleihau ôl troed carbon o 25%.

Adroddwyd mai'r camau nesaf yng ngwaith y Bartneriaeth yw ceisio opsiynau cyfuno asedau i'r categori marchnadoedd preifat. Nodwyd bod grŵp wedi ei sefydlu i arwain ar y gwaith fydd yn cael eu cefnogi gan Hymans Robertson. Nodwyd mai credyd preifat ac isadeiladwaith yw ffocws cyntaf y grŵp gyda phroses pwrcasu wedi cymryd lle yn ddiweddar, fydd yn argymhell rheolwyr addas i'r Cydbwyllgor apwyntio rheolwyr. Bydd y grŵp hefyd yn ceisio pwrcasu rheolwr ecwiti preifat.

Yng nghyd -destun cynrychiolydd aelodau ar y Cydbwyllgor Llywodraethu adroddwyd bod y broses apwyntio wedi digwydd gyda'r argymhelliad, fel y nodwyd eisoes, bod Osian Richards Aelod o Fwrdd Pensiynau Cronfa Bensiwn Gwynedd yn cael ei benodi'n gynrychiolydd.

Cadarnhawyd ar Fawrth 10fed 2022, bod Partneriaeth Pensiwn Cymru wedi cyrraedd y safon adrodd ddisgwyliedig yn 2021 ac o ganlyniad yn cael ei restru fel llofnodwr Cod Stiwardiaeth y DU. Ategwyd bod hyn yn gamp arwyddocaol ac yn adlewyrchu'r llywodraethu a stiwardiaeth gref o fewn y Bartneriaeth.

Diolchwyd am y diweddariad.

## **PENDERFYNWYD**

### **Derbyn a nodi'r wybodaeth**

Cymerodd y Cadeirydd, Y Cynghorydd Peredur Jenkins y cyfle i ddiolch yn fawr iawn i'r holl staff perthnasol am eu cefnogaeth ac i'w gyd-aelodau ar y Pwyllgor a'r Bwrdd Pensiwn am gydweithio a thrafod yn dda. Dymunwyd y gorau i bawb i'r dyfodol.

Diolchwyd i'r Cynghorydd Peredur Jenkins am ei waith a'i gefnogaeth i'r Pwyllgor Pensiynau dros yr 20 mlynedd ddiwethaf. Dymunwyd ymddeoliad hapus iddo.

Dechreuodd y cyfarfod am 14:00 a daeth i ben 15:00

CYFARFOD:	<b>PWYLLGOR PENSIYNAU</b>
DYDDIAD:	<b>27 MEHEFIN 2022</b>
TEITL:	<b>CYNLLUN ARCHWILIO CRONFA BENSIWN GWYNEDD 2022</b>
PWRPAS:	<b>I dderbyn y Cynllun</b>
ARGYMHELLIAD:	<b>DERBYN Y CYNLLUN</b>
AWDUR:	<b>DELYTH JONES-THOMAS, RHEOLWR BUDDSODDI</b>

---

## **1. CYFLWYNIAD**

Mae archwiliad cyfrifon Cronfa Bensiwn Gwynedd ar gyfer y flwyddyn 31 Mawrth 2022 yn cael ei gwblhau gan Archwilio Cymru. Gweler y Cynllun Archwilio yn Atodiad 1.

## **2. CYNLLUN ARCHWILIO**

Mae'r cynllun yn nodi'r gwaith y mae'r archwilwyr yn ei wneud er mwyn cyflawni ei dyletswydd statudol gan amlygu'r prif risgiau.

## **3. ARGYMHELLIAD**

Bod y Cynllun yn cael ei dderbyn.

## Cynllun Archwilio 2022 – Cronfa Bensiwn Gwynedd

Blwyddyn archwilio: 2021-22

Dyddiad cyhoeddi: Mehefin 2022

Cyfeirnod y ddogfen: 2994A2022

Paratowyd y ddogfen hon fel rhan o waith a gyflawnir yn unol â swyddogaethau statudol.

Archwilio Cymru yw'r enw torfol anstatudol ar gyfer Archwilydd Cyffredinol Cymru a Swyddfa Archwilio Cymru, sy'n endidau cyfreithiol ar wahân y mae ganddynt ill dau eu swyddogaethau cyfreithiol eu hunain. Nid yw Archwilio Cymru yn endid cyfreithiol ac nid oes ganddo ef ei hun unrhyw swyddogaethau.

Ni chymerir unrhyw gyfrifoldeb gan yr Archwilydd Cyffredinol na staff Archwilio Cymru mewn perthynas ag unrhyw aelod, cyfarwyddwr, swyddog neu gyflogai arall yn eu cymhwyster unigol, nac mewn perthynas ag unrhyw drydydd parti.

Os ceir cais am wybodaeth y gall y ddogfen hon fod yn berthnasol iddi, tynnir sylw at y Cod Ymarfer a gyhoeddwyd o dan adran 45 Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000. Mae Cod adran 45 yn nodi'r arfer o ran trin ceisiadau a ddisgwylir gan awdurdodau cyhoeddus, gan gynnwys ymgynghori â thrydydd partion perthnasol. Mewn perthynas â'r ddogfen hon, mae Archwilydd Cyffredinol Cymru, Archwilio Cymru a, lle y bo'n berthnasol, yr archwilydd sy'n gweithredu ar ran yr Archwilydd Cyffredinol yn drydydd partion perthnasol. Dylid anfon unrhyw ymholiadau ynglŷn â datgelu neu aildddefnyddio'r ddogfen hon at Archwilio Cymru yn [swyddog.gwybodaeth@archwilio.cymru](mailto:swyddog.gwybodaeth@archwilio.cymru).

Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg a Saesneg. Ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi. We welcome correspondence and telephone calls in Welsh and English. Corresponding in Welsh will not lead to delay.

Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg. This document is also available in English.

# Cynnwys

Cynllun Archwilio 2022

Crynodeb 4

Effaith COVID-19 4

Archwiliad o gyfrifon y gronfa bensiwn 4

Ffi, tîm archwilio ac amserlen 6

# Cynllun Archwilio 2022

## Crynodeb

- 1 Mae'r ddogfen hon yn nodi'r gwaith yr wyf yn bwriadu ei wneud yn ystod 2022 i gyflawni fy nghyfrifoldebau statudol fel eich archwilydd allanol ac i gyflawni fy rhwymedigaethau dan y Cod Ymarfer Archwilio i archwilio a thystio pa un a yw datganiadau cyfrifyddu Cronfa Bensiwn Gwynedd (y Gronfa Bensiwn) yn 'gywir a theg'.
- 2 Diben y cynllun hwn yw disgrifio fy ngwaith arfaethedig, pryd y bydd yn cael ei wneud, faint fydd yn ei gostio a phwy fydd yn ei wneud.
- 3 Ni osodwyd unrhyw gyfyngiadau arnaf o ran cynllunio cwrmpas yr archwiliad hwn.

## Effaith COVID-19

- 4 Mae pandemig COVID-19 wedi cael effaith ddigynsail ar y Deyrnas Unedig ac ar waith sefydliadau'r sector cyhoeddus.
- 5 Er bod Cymru ar Lefel Rhybudd 0 o ran y Coronafeirws ar hyn o bryd, bydd Archwilio Cymru'n parhau i fonitro'r sefyllfa a bydd yn trafod goblygiadau unrhyw newidiadau yn y sefyllfa gyda'ch swyddogion.

## Archwiliad o gyfrifon y gronfa bensiwn

- 6 Mae'r gwaith archwilio yr wyf yn ei wneud i gyflawni fy nghyfrifoldebau'n ymateb i'n hasesiad o risgiau. Mae'r ddealltwriaeth hon yn ein galluogi i ddatblygu dull archwilio sy'n canolbwyntio ar fynd i'r afael â risgiau penodol gan hefyd ddarparu sicrwydd ar gyfer cyfrifon y Gronfa Bensiwn yn eu cyfanrwydd.
- 7 Nid wyf yn ceisio cael sicrwydd llwyr ynghylch gwirionedd a thegwch y datganiadau ariannol a'r nodiadau cysylltiedig ond rwy'n mabwysiadu cysyniad perthnasedd. Fy nod yw adnabod camddatganiadau perthnasol, hynny yw y rhai a allai beri i'r sawl sy'n darllen y cyfrifon gael ei gamarwain. Bydd y lefelau sy'n peri i mi farnu bod camddatganiadau o'r fath yn berthnasol yn cael eu gwneud yn hysbys i'r Gronfa Bensiwn cyn cwblhau'r archwiliad.
- 8 Rwy'n barnu bod unrhyw gamddatganiadau islaw lefel fach iawn (sef lefel perthnasedd o 5%) yn rhai nad yw'n ofynnol i'r rhai sy'n gyfrifol am lywodraethu eu hystyried ac felly ni fyddaf yn adrodd arnynt.
- 9 Byddaf hefyd yn cyflwyno adroddiad drwy eithriad ar nifer o faterion a nodir mewn mwy o fanylder yn ein [Datganiad o Gyfrifoldebau](#), ynghyd â rhagor o wybodaeth am fy ngwaith.

## Risgiau i'r archwiliad ariannol

- 10 Mae'r tabl canlynol yn nodi'r risgiau arwyddocaol yr wyf wedi'u hadnabod ar gyfer yr archwiliad o gyfrifon y Gronfa Bensiwn.

## Arddangosyn 1: risgiau i'r archwiliad ariannol

Mae'r tabl hwn yn crynhoi'r risgiau allweddol i'r archwiliad ariannol a adnabuwyd adeg cynllunio'r archwiliad.

Risg archwilio	Ymateb archwilio arfaethedig
<b>Risgiau arwyddocaol</b>	
<p>Mae'r risg y gallai rheolwyr wrthwneud rheolaethau'n bresennol ym mhob endid. O ystyried y ffordd anrhagweladwy y gallai gwrthwneud o'r fath ddigwydd, tybir bod hon yn risg arwyddocaol [ISA 240.31-33].</p>	<p>Byddwn yn:</p> <ul style="list-style-type: none"><li>• profi priodoldeb cofnodion dyddlyfr ac addasiadau eraill a wnaed wrth baratoi'r datganiadau ariannol;</li><li>• adolygu amcangyfrifon cyfrifyddu ar gyfer gwyrdueddiadau; a</li><li>• gwerthuso'r sail resymegol ar gyfer unrhyw drafodion arwyddocaol y tu allan i gwrs arferol busnes.</li></ul>
<b>Meysydd eraill y rhoddir sylw iddynt wrth archwilio</b>	
<p>Risgiau sy'n gysylltiedig â'r datganiadau ariannol:</p> <ul style="list-style-type: none"><li>• fel rhan o'i phortffolio, mae gan y Gronfa Bensiwn ddaliadau sylweddol mewn buddsoddiadau heb eu dyfynnu. Rhoddir cyfrif amdanynt yn ôl gwerth teg a bennir gan brisiadau a ddarperir gan reolwyr y gronfa.</li><li>• penodir rheolwyr buddsoddiadau allanol i reoli'r portffolio buddsoddiadau. Bydd eu systemau a'u cofnodion hwy eu hunain yn cynhyrchu cofnodion cyfrifon a wneir i gyfrif a datganiad asedau net y Gronfa Bensiwn.</li><li>• Mae'r Gronfa Bensiwn wedi trosglwyddo asedau pellach i Bartneriaeth Pensiwn Cymru yn ystod 2021-22.</li><li>• mae'r Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol ar lefel y cynllun wedi ymrwymo</li></ul>	<p>Byddwn yn:</p> <ul style="list-style-type: none"><li>• asesu a yw'r wybodaeth a ddarparwyd gan reolwyr y gronfa a'u harchwilwyr yn ategu'r prisiad diwedd blwyddyn.</li><li>• cael cadarnhad uniongyrchol gan reolwyr y gronfa o falansau buddsoddi diwedd blwyddyn ac yn ystyried a yw adroddiadau rheolaeth fewnol rheolwyr buddsoddiadau'n dynodi risgiau penodol i'r balansau hyn.</li><li>• adolygu'r broses bontio i sicrhau cyflawnrwydd trosglwyddiadau. Byddwn yn cael cadarnhad uniongyrchol gan dîm archwilio Partneriaeth Pensiwn Cymru (PPC) ar gyfer y gwerthoedd a thrafodion dan sylw.</li><li>• byddwn yn adolygu'r dadfuddsoddiad cyfatebol i</li></ul>



i ddadfuddsoddi o Fuddsodiadau Rwsiaidd. O drafodaethau gyda'r Gronfa, cadarnhawyd fod gan y Gronfa fuddsodiadau fel rhan o fuddsodiadau PPC a bod PPC yn y broses o ddadfuddsoddi. Bydd prisiad ac effaith hyn yn cael eu hadlewyrchu mewn prisiadau diwedd blwyddyn. Mae'n debygol i hyn gael ei adlewyrchu mewn newidiadau yng ngwerth y farchnad pa bai'r buddsodiadau'n cael eu gwerthu am golled. Mae lefel gyffredinol y buddsodiadau mewn endidau Rwsiaidd islaw'r lefel perthnasedd.

sicrhau cyflawnrwydd trosglwyddiadau. Byddwn yn cael cadarnhad gan archwilyr PPC ar gyfer y gwerthoedd a thrafodion dan sylw.

#### Effaith COVID-19

Er bod cyfyngiadau COVID-19 wedi cael eu codi erbyn hyn, bu pwysau parhaus ar adnoddau staff ac o ran gweithio o bell a allai effeithio ar baratoi, archwilio a chyhoeddi cyfrifon. Ceir risg y gallai ansawdd y cyfrifon a'r papurau gwaith ategol, e.e. o ran amcangyfrifon a phrisiadau, gael ei beryglu gan arwain at fwy o wallau. Gallai trefniadau monitro ansawdd gael eu peryglu oherwydd materion o ran amseru a/neu argaeledd adnoddau.

Byddwn yn trafod eich proses cau cyfrifon a threfniadau monitro ansawdd gyda'r tîm paratoi cyfrifon ac yn gwneud trefniadau i fonitro'r broses paratoi cyfrifon. Byddwn yn helpu i adnabod meysydd lle gall fod bylchau mewn trefniadau.

## Swyddogaethau archwilio statudol

- 11 Yn ogystal ag archwilio'r cyfrifon, mae gennyf gyfrifoldebau statudol am gael cwestiynau ynghylch y cyfrifon a gwrthwynebiadau iddynt gan etholwyr lleol. Caiff y cyfrifoldebau hyn eu nodi yn Neddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004:
  - Adran 30 Arolygu dogfennau a chwestiynau yn ystod archwiliad; ac
  - Adran 31 Yr hawl i wneud gwrthwynebiadau yn ystod archwiliad.
- 12 Gan bod y gwaith hwn yn adweithiol, nid wyf wedi cynnwys ffi a amcangyfrifir yn **Arddangosyn 2** isod. Os byddaf yn cael cwestiynau neu wrthwynebiadau, byddaf yn trafod ffioedd archwilio posibl ar y pryd.

## Ffi, tîm archwilio ac amserlen

- 13 Mae fy ffioedd ac amserlenni arfaethedig ar gyfer cwblhau'r archwiliad yn seiliedig ar y tybiaethau canlynol:

- darperir y datganiadau ariannol yn unol ag amserlen y byddir yn cytuno arni gan ystyried effaith COVID-19, i'r ansawdd disgwylidiedig ac maent wedi bod trwy adolygiad sicrhau ansawdd cadarn;
- mae gwybodaeth a ddarperir i ategu'r datganiadau ariannol yn unol â'r ddogfen 'Dogfennaeth i'w Chyflwyno ar gyfer Archwilio' y cytunwyd arni;
- darperir cyfleusterau priodol i alluogi fy nhîm archwilio i gyflawni'r archwiliad mewn modd effeithlon;
- bydd yr holl swyddogion priodol ar gael yn ystod yr archwiliad;
- rydych wedi rhoi'r holl reolaethau a gwiriadau angenrheidiol ar waith i'w gwneud yn bosibl i'r Swyddog Cyllid Cyfrifol ddarparu pob sicrwydd y mae ei angen arnaf yn y Llythyr Sylwadau a gyfeiriwyd ataf; ac
- mae rhaglen waith arfaethedig y tîm Archwilio Mewnol wedi'i chwblhau ac mae'r rheolwyr wedi ymateb i faterion a allai fod wedi effeithio ar y datganiadau ariannol.

## Ffi

- 14 Fel a nodir yn ein Cynllun Ffioedd 2022-23, mae cyfraddau ein ffioedd ar gyfer 2022-23 wedi cynyddu 3.7% o ganlyniad i'r angen i fuddsoddi'n barhaus yn ansawdd ein gwaith archwilio ac mewn ymateb i bwysau cynyddol o ran costau.
- 15 Caiff y ffi a amcangyfrifir ar gyfer 2022 ei nodi yn **Arddangosyn 2**. Mae hyn yn gynydd o 3.8% o'i gymharu â'ch ffi wirioneddol yn 2021.

### Arddangosyn 2: ffi archwilio

Mae'r tabl hwn yn nodi'r ffi archwilio arfaethedig ar gyfer 2022, yn ôl maes o fewn gwaith archwilio, ochr yn ochr â'r ffi archwilio wirioneddol ar gyfer y llynedd.

Maes archwilio	Ffi arfaethedig (£) <sup>1</sup>	Ffi wirioneddol y llynedd (£)
Archwiliad o gyfrifon y Gronfa Bensiwn <sup>2</sup>	35,515	34,200

- 16 Bydd cynllunio'n digwydd yn barhaus, ac efallai y bydd newidiadau i'm rhaglen o waith archwilio ac felly fy ffi yn ofynnol os bydd unrhyw risgiau newydd allweddol yn dod i'r amlwg. Ni fyddaf yn gwneud unrhyw newidiadau heb eu trafod gyda Rheolwyr perthnasol y Gronfa Bensiwn yn gyntaf.
- 17 Ceir rhagor o wybodaeth am [raddfeydd fy ffioedd a phennu ffioedd](#) ar ein gwefan.

<sup>1</sup> Nodiadau: Nid yw'r ffioedd a ddangosir yn y ddogfen hon yn cynnwys TAW, nad yw'n cael ei chodi arnoch.

<sup>2</sup> Yn daladwy rhwng mis Tachwedd 2021 a mis Hydref 2022.

## Tîm archwilio

18 Caiff prif aelodau fy nhîm, ynghyd â'u manylion cyswllt, eu crynhoi yn **Arddangosyn 3**.

### Arddangosyn 3: fy nhîm archwilio

Mae'r tabl hwn yn rhestru aelodau'r tîm archwilio lleol a'u manylion cyswllt.

Enw	Rôl	Rhif cyswllt	Cyfeiriad e-bost
Matthew Edwards	Arweinydd Ymgysylltu	02920 320663	<a href="mailto:matthew.edwards@archwilio.cymru">matthew.edwards@archwilio.cymru</a>
Yvonne Thomas	Rheolwr Archwilio	02920 320500	<a href="mailto:yvonne.thomas@archwilio.cymru">yvonne.thomas@archwilio.cymru</a>
Ben Hughes	Arweinydd Archwilio	02920 829376	<a href="mailto:ben.hughes@archwilio.cymru">ben.hughes@archwilio.cymru</a>

## Amserlen

19 Caiff y cerrig milltir allweddol ar gyfer y gwaith a nodir yn y cynllun hwn eu dangos yn **Arddangosyn 4**. Fel a amlygwyd yn gynharach, efallai y bydd angen diwygio'r amserlen yng ngoleuni datblygiadau gyda COVID-19.

### Arddangosyn 4: amserlen archwilio

Allbwn arfaethedig	Gwneud y gwaith	Cwblhau'r adroddiad
Cynllun Archwilio 2022	Ebrill 2022	Mehefin 2022
<b>Archwiliad o gyfrifon y Gronfa Bensiwn:</b> <ul style="list-style-type: none"><li>Adroddiad ar yr Archwiliad o'r Datganiadau Ariannol</li><li>Barn ar y Datganiadau Ariannol</li></ul>	Hydref 2022	Tachwedd 2022

- 20 Gallwn gadarnhau bod aelodau'r tîm i gyd yn annibynnol arnoch chi a'ch swyddogion.



Archwilio Cymru  
24 Heol y Gadeirlan  
Caerdydd CF11 9LJ

Ffôn: 029 2032 0500

Ffacs: 029 2032 0600

Ffôn testun: 029 2032 0660

E-bost: [post@archwilio.cymru](mailto:post@archwilio.cymru)

Gwefan: [www.archwilio.cymru](http://www.archwilio.cymru)

We welcome correspondence and telephone calls in Welsh and English.  
Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg a Saesneg.

# Eitem 8

CYFARFOD	PWYLLGOR PENSIYNAU
DYDDIAD	27 MEHEFIN 2022
TEITL	Cyfrifon Drafft Cronfa Bensiwn Gwynedd am y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2022
PWRPAS	Cyflwyno a nodi – <ul style="list-style-type: none"><li>Datganiad o'r Cyfrifon Drafft</li></ul>
ARGYMHELLIAD	Derbyn y wybodaeth
AWDUR	Dafydd L Edwards, Cyfarwyddwr y Gronfa

---

## 1. CYFLWYNIAD

Mae'r adroddiad hwn yn cyflwyno'r Datganiad Cyfrifon statudol ar gyfer blwyddyn ariannol 2021/22, sy'n darparu manylion gweithgareddau ariannol y Gronfa Bensiwn yn ystod y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2022.

Y ddogfen yn Atodiad A yw'r Datganiadau Cyfrifon drafft yn y fformat statudol.

## 2. ARCHWILIAD GAN ARCHWILIO CYMRU

Bydd cyfrifon drafft yma yn destun archwiliad gan Archwilio Cymru. Mae'n bosibl y bydd angen rhai newidiadau cyn cyflwyno fersiwn derfynol i'w chymeradwyo.

## 3. ARGYMHELLIAD

Gofynnir i'r Pwyllgor Pensiynau dderbyn a nodi Datganiad Cyfrifon y Gronfa Bensiwn (yn amodol ar archwiliad) ar gyfer 2021/22.

# **Cronfa Bensiwn Gwynedd**

## **DATGANIAD O'R CYFRIFON 2021/22**

## **ADRODDIAD NARATIF**

### **Rhagarweiniad**

Mae cyfrifon a nodiadau Cronfa Bensiwn Gwynedd am 2021/22 wedi'u cyflwyno yma ar dudalennau 5 i 43.

Mae'r cyfrifon yn cynnwys Cyfrif a Datganiad Asedau Net Cronfa Bensiwn Gwynedd.

Cefnogir y cyfrifon hyn gan yr Adroddiad Naratif yma, y Polisiâu Cyfrifo ac amrywiol nodiadau i'r cyfrifon.

Mae cyfrifon y Gronfa Bensiwn a'r nodiadau ynghlwm yn crynhoi trafodion ariannol ac asedau net ar gyfer darparu pensiynau a buddiannau taladwy eraill ar gyfer cyn-weithwyr holl gyflogwyr y Gronfa, gan gynnwys Cynghorau Ynys Môn, Conwy a Gwynedd, Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri, Comisiynydd Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru, Cartrefi Conwy, Adra, amryw o gynghorau tref a chymuned, cyrff ar yr atodlen a chyrrff a ganiateir.

Mae Datganiad o'r Cyfrifon a gwybodaeth pellach ar gael ar wefan Cronfa Bensiwn Gwynedd sef [www.cronfabensiwnwynedd.cymru](http://www.cronfabensiwnwynedd.cymru).

Mae gan y Gronfa ddau ddatganiad pwysig sydd yn gosod allan strategaethau er mwyn sicrhau bod y pensiynau wedi cael eu cyllido nawr ac yn y dyfodol fel a ganlyn:

- Datganiad Strategaeth Gyllido – mae'r datganiad yn gosod allan strategaeth penodol i'r gronfa sydd yn adnabod sut bydd ymrwymadau pensiwn cyflogwyr yn cael eu cwrdd orau wrth symud ymlaen. Caiff ei adolygu bob tair mlynedd yn dilyn y prisiad actiwaraidd ac mae'n cynnwys cyfraddau unigol i bob cyflogwr ar gyfer y cyfnod dilynol.
- Datganiad Strategaeth Buddsoddi – mae'r datganiad yn gosod y math o fuddsoddiadau a therfynau llydan ar gyfer bob math o buddsoddiad.

Mae'r ddau ddatganiad yma ar gael ar safle we y Gronfa o dan yr adran buddsoddiadau.

Mae'n ofynnol i gael Prisiad Actiwaraidd bob tair mlynedd er mwyn sefydlu'r lefel asedau ar gael er mwyn talu pensiynau nawr ac yn y dyfodol. Y prisiad diweddaraf yw fel ar 31 Mawrth 2019 a gwnaed unrhyw newidiadau i gyfraniadau y cyflogwyr o 1 Ebrill 2020 ymlaen. Mae'r prisiad nesaf fel ar 31 Mawrth 2022 gyda unrhyw newidiadau i gyfraniadau cyflogwyr o 1 Ebrill 2023 ymlaen.



Ceir gwybodaeth bellach am y cyfrifon gan:

Delyth Jones-Thomas  
Rheolwr Buddsoddi  
01286 679128

Adran Cyllid  
Cyngor Gwynedd  
Swyddfa'r Cyngor  
Caernarfon  
Gwynedd  
LL55 1SH

Mae yn rhan o bolisi'r Gronfa i ddarparu gwybodaeth lawn am weithgareddau'r Gronfa. Yn ychwanegol, mae gan aelodau'r cyhoedd sydd yn dymuno hawl statudol i arolygu'r cyfrifon cyn cwblheir yr archwiliad. Hysbysir argaeledd y cyfrifon i'w harolygu ar wefan y Gronfa Bensiwn ar yr adeg briodol.

## DATGANIAD O GYFRIFOLDEBAU AM Y DATGANIAD O'R CYFRIFON

### CYFRIFOLDEB Y GRONFA BENSIWN

Mae'n ofynnol ar Gyngor Gwynedd fel awdurdod gweinyddu (yn effeithiol yr ymddiriedolwr) ar gyfer Cronfa Bensiwn Gwynedd i wneud trefniadau ar gyfer iawn weinyddiad o'i faterion ariannol ac i sicrhau y rhoddir cyfrifoldeb am weinyddu'r materion hynny i un o'i swyddogion. Yng Nghyngor Gwynedd, y Pennaeth Cyllid yw'r "Swyddog Adran 151" hwnnw. Cyfrifoldeb yr Awdurdod Gweinyddu hefyd yw rheoli ei weithgareddau er mwyn sicrhau defnydd effeithiol, effeithlon ac economaidd o'i adnoddau, gwarchod ei asedau, a chymeradwyo'r Datganiad o'r Cyfrifon.

27 Mehefin 2022

**Y Cyngorydd \*\*\*\*\***

**Cadeirydd Pwyllgor Pensiynau**

### CYFRIFOLDEB Y PENNAETH CYLLID

Y Pennaeth Cyllid sy'n gyfrifol am baratoi Datganiad Cyfrifon y Gronfa Bensiwn yn unol â'r ymarfer priodol fel a osodir allan yn y *Côd Ymarfer CIPFA/LASAAC ar Gyfrifo ar gyfer Awdurdodau Lleol yn y Deyrnas Unedig* (y "Côd").

Wrth baratoi'r datganiad o'r cyfrifon, mae'r Pennaeth Cyllid wedi dewis polisiau cyfrifo priodol gan eu defnyddio'n gyson; wedi ffurfio barnau a gwneud amcangyfrifon a oedd yn rhesymol a darbodus; ac yn cydymffurfio â'r Côd.

Hefyd, mae'r Pennaeth Cyllid wedi cadw cofnodion cyfrifo priodol a chyfamserol, ac wedi cymryd camau rhesymol i ddarganfod a gwarchod rhag twyll ac unrhyw anghysondebau eraill.

### TYSTYSGRIF Y SWYDDOG CYLLIDOL CYFRIFOL

Tystiaf fod y Datganiad o'r Cyfrifon wedi ei baratoi yn unol â'r trefniadau uchod. Mae'r Datganiad yn cyflwyno darlun cywir a theg o sefyllfa ariannol Cronfa Bensiwn Gwynedd ar 31 Mawrth 2022, ac incwm a gwariant y Gronfa Bensiwn am y flwyddyn a ddaeth i ben bryd hynny.



**Dewi Morgan CPFA**  
**Pennaeth Cyllid, Cyngor Gwynedd**

20 Mehefin 2022

# CYFRIFON CRONFA BENSIWN GWYNEDD

## CYFRIF Y GRONFA

31 Mawrth 2021 £'000		Nodiadau	31 Mawrth 2022 £'000
<b>Delio gydag aelodau, cyflogwyr ac eraill sydd â chysylltiad uniongyrchol â'r Gronfa</b>			
78,252	Cyfraniadau	7	82,971
4	Incwm arall	8	4
3,356	Trosglwyddiadau i mewn o gronfeydd pensiwn eraill	9	2,664
<b>81,612</b>			<b>85,639</b>
(62,378)	Buddion	10	(66,979)
(3,052)	Taliadau i ac oherwydd ymadawyr	11	(3,683)
<b>(65,430)</b>			<b>(70,662)</b>
<b>16,182</b>	<b>Ychwanegiadau/ (alldyniadau) net yn sgil ymwneud ag aelodau</b>		<b>14,977</b>
<b>(22,669)</b>	Costau Rheoli	12	<b>(16,525)</b>
<b>(6,487)</b>	<b>Ychwanegiadau/ (alldyniadau) net gan gynnwys costau rheoli'r gronfa</b>		<b>(1,548)</b>
<b>Enillion ar fuddsoddiadau</b>			
30,768	Incwm Buddsoddi	13	26,170
565,511	Elw a cholledion wrth waredu buddsoddiadau a newidiadau yng ngwerth buddsoddiadau ar y farchnad	14	223,010
<b>596,279</b>	<b>Enillion net ar fuddsoddiadau</b>		<b>249,180</b>
<b>589,792</b>	<b>Cynnydd/ (Lleihad) yn yr asedau net ar gael ar gyfer buddion yn ystod y flwyddyn</b>		<b>247,632</b>
<b>1,938,337</b>	<b>Asedau net agoriadol y gronfa</b>		<b>2,528,129</b>
<b>2,528,129</b>	<b>Asedau net terfynol y gronfa</b>		<b>2,775,761</b>

Mae'r nodiadau ar tudalennau 7 i 43 yn rhan o'r Datganiadau Cyllidol

## DATGANIAD ASED AU NET

31 Mawrth 2021 £'000		Nodiadau	31 Mawrth 2022 £'000
2,515,169	Asedau buddsoddi	14	2,761,271
146	Adneuon arian parod	14	303
(126)	Ymrwymadau buddsoddi	14	(285)
<b>2,515,189</b>	<b>Cyfanswm buddsoddiadau net</b>		<b>2,761,289</b>
16,153	Asedau cyfredol	20	17,828
(3,213)	Ymrwymadau cyfredol	21	(3,356)
<b>2,528,129</b>	<b>Asedau net y gronfa ar gael i ariannu buddion ar ddiwedd y cyfnod adrodd</b>		<b>2,775,761</b>

Nid yw'r Datganiadau Cyllidol yn cynnwys ymrwymadau'r Gronfa i dalu pensiynau a budd-daliadau eraill i holl gyfranwyr presennol y Gronfa ar ôl diwedd y flwyddyn ariannol, ond yn hytrach mae'n crynhoi trafodion ac asedau net y Gronfa. Ystyrir ymrwymadau'r Gronfa ym mhriadau cyfnodol yr actiwari o'r Gronfa (y mwyaf diweddar ar 31 Mawrth 2019) ac fe'u hadlewyrchir yn lefelau cyfraniadau'r cyflogwyr a bennir gan y prisiad hwn, fel bydd y Gronfa yn gallu cwrdd ag ymrwymadau'r dyfodol. Dangosir gwerth presennol actiwariaidd ar gyfer buddiannau a addawyd yn Nodyn 19.

# **NODIADAU AR GYFRIFON CRONFA BENSIWN GWYNEDD**

## **NODYN I – DISGRIFIAD O'R GRONFA**

Mae Cronfa Bensiwn Gwynedd ("y Gronfa") yn rhan o'r Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol (CPLIL) ac fe'i gweinyddir gan Gyngor Gwynedd.

### **a) Cyffredinol**

Deddf Pensiynau Gwasanaeth Cyhoeddus 2013 sy'n llywodraethu'r Gronfa. Gweinyddir y Gronfa yn unol â'r deddfau eilaidd a ganlyn:

- Rheoliadau Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol 2013 (fel y'i diwygiwyd);
- Rheoliadau Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol (Darpariaethau Trosiannol, Arbedion a Gwelliant) 2014 (fel y'i diwygiwyd);
- Rheoliadau Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol (Rheoli a Buddsoddi Cronfeydd) 2016.

Mae'n gynllun pensiwn budd-dal diffiniedig cyfrannol a weinyddir gan Gyngor Gwynedd i roi pensiynau a buddion eraill i weithwyr pensiynadwy Cyngor Gwynedd, dau awdurdod lleol arall a chyrrff ar yr atodlen, cyrrff a benderfynir a chyrrff eraill a ganiateir sydd o fewn cyn ardal Cyngor Sir Gwynedd. Nid yw athrawon, swyddogion yr heddlu a gweithwyr y gwasanaeth tân wedi'u cynnwys gan eu bod yn rhan o gynlluniau pensiwn cenedlaethol eraill. Mae'r Gronfa'n cael ei goruchwyllo gan y Pwyllgor Pensiynau, sef un o bwyllgorau Cyngor Gwynedd.

### **b) Aelodaeth**

Mae bod yn aelod o'r CPLIL yn rhywbeth gwirfoddol ac mae gweithwyr yn rhydd i ddewis p'un a ydynt am ymuno â'r cynllun, parhau'n aelod o'r cynllun neu wneud eu trefniadau personol y tu allan i'r cynllun. Ymysg y sefydliadau sy'n cymryd rhan yng Nghronfa Bensiwn Gwynedd mae:

- Cyrff ar yr atodlen, sy'n awdurdodau lleol a chyrrff tebyg ble mae gan eu staff hawl awtomatig i fod yn aelodau o'r Gronfa.
- Cyrff a benderfynir, sy'n gyngor dinas, tref neu gymuned. Mae ganddynt yr hawl i benderfynu os caiff eu gweithwyr ymuno â'r CPLIL ac i fabwysiadu'r penderfyniad yn unol â hynny.
- Cyrff a ganiateir, sy'n sefydliadau eraill sy'n cymryd rhan yn y Gronfa dan gyntdeb mynediad rhwng y Gronfa a'r sefydliad perthnasol. Mae'r cyrrff a ganiateir yn cynnwys cyrrff gwirfoddol, elusennol a thebyg neu gontractwyr preifat sy'n ymgymryd â swyddogaeth awdurdod lleol wedi i'r swyddogaeth gael ei allanoli i'r sector preifat.

## NODYN I – DISGRIFIAD O'R GRONFA (parhad)

Mae'r cyrff canlynol yn gyflogwyr gweithredol yn y Gronfa Bensiwn:

<b>Cyrff ar yr Atodlen</b>	
Cyngor Gwynedd	Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri
Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy	Ysgol Bryn Elan
Cyngor Sir Ynys Môn	Ysgol Emrys ap Iwan
Comisiynydd Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru	Ysgol Pen y Bryn
Grŵp Llandrillo – Menai	Ysgol Uwchradd Eirias
GwE	Asiant Cefnfyrdde Gogledd a Chanolbarth Cymru
Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru	
<b>Cyrff a Benderfynir</b>	
Cyngor Cymuned Llanllyfni	Cyngor Tref Ffestiniog
Cyngor Dinas Bangor	Cyngor Tref Llandudno
Cyngor Tref Abergele	Cyngor Tref Llangedfni
Cyngor Tref Bae Colwyn	Cyngor Tref Porthaethwy
Cyngor Tref Biwmares	Cyngor Tref Towyn a Bae Cinnel
Cyngor Tref Caergybi	Cyngor Tref Tywyn
Cyngor Tref Caernarfon	Cyngor Tref Conwy
Cyngor Tref Llanfairfechan	
<b>Cyrff a Ganiateir</b>	
Addysg Oedolion Cymru	Cymdeithas y Deillion Gogledd Cymru
Adferiad Recovery (CAIS cynt)	Cefnogaeth Gymunedol a Gwirfoddol Conwy
Cydbwyllgor Claddu Caergybi	Gyrfaoedd Cymru Gogledd Orllewin
Cwmni Cynnal	Mantell Gwynedd
Cwmni'r Frân Wen	Medrwn Môn
Menter Môn	
<b>Cyrff Cymunedol a Ganiateir</b>	
Cartrefi Conwy	Adra
Byw'n Iach	
<b>Cyrff Trosglwyddai a Ganiateir</b>	
ABM Catering	Caterlink (hyd at 31/07/21)
Kingdom Services Group	Chartwells (o 01/08/21)
A E & A T Lewis	

## NODYN I – DISGRIFIAD O'R GRONFA (parhad)

Nodir manylion aelodaeth isod:

	31 Mawrth 2021	31 Mawrth 2022
Nifer y cyflogwyr	46	46
<b>Nifer y gweithwyr yn y cynllun</b>		
Cyngor Sir	14,518	14,691
Cyflogwyr eraill	3,777	3,966
<b>Cyfanswm</b>	<b>18,295</b>	<b>18,657</b>
<b>Nifer y pensiynwyr</b>		
Cyngor Sir	8,902	9,281
Cyflogwyr eraill	1,878	2,017
<b>Cyfanswm</b>	<b>10,780</b>	<b>11,298</b>
<b>Pensiynwyr gohiriedig</b>		
Cyngor Sir	10,473	10,512
Cyflogwyr eraill	1,958	2,028
<b>Cyfanswm</b>	<b>12,431</b>	<b>12,540</b>
<b>Buddion heb eu hawlio</b>		
Cyngor Sir	1,864	2,142
Cyflogwyr eraill	230	283
<b>Cyfanswm</b>	<b>2,094</b>	<b>2,425</b>
<b>Ymadawyr heb benderfynu</b>		
Cyngor Sir	5,280	5,455
Cyflogwyr eraill	759	737
<b>Cyfanswm</b>	<b>6,039</b>	<b>6,192</b>
<b>Cyfanswm yr aelodau yn y cynllun pensiwn</b>	<b>49,639</b>	<b>51,112</b>

### c) Cyllid

Mae'r buddion yn cael eu cyllido gan gyfraniadau ac enillion ar fuddsoddiadau. Mae aelodau gweithredol y Gronfa'n talu cyfraniadau yn unol â Rheoliadau Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol 2013 ac roeddent yn amrywio o 2.75% i 12.5% o dâl pensiynadwy ar gyfer y flwyddyn ariannol a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2022. Gosodir cyfraniadau cyflogwyr yn seiliedig ar brisiadau actiwaraid a gynhelir pob tair blynedd. Roedd y prisiad olaf o'r fath ar 31 Mawrth 2019. Ar hyn o bryd, mae cyfraddau cyfraniadau cyflogwyr yn amrywio o 7.7% i 36.1% o dâl pensiynadwy.

## NODYN 1 – DISGRIFIAD O’R GRONFA (parhad)

### d) Buddion

Mae buddion pensiwn dan y CPLIL cyn 1 Ebrill 2014, yn seiliedig ar y tâl pensiynadwy terfynol a hyd y gwasanaeth pensiynadwy; gweler y crynodeb isod:

	<b>Gwasanaeth cyn 1 Ebrill 2008</b>	<b>Gwasanaeth ar ôl 31 Mawrth 2008</b>
<b>Pensiwn</b>	Mae pob blwyddyn a weithiwyd gwerth 1/80 x cyflog pensiynadwy terfynol.	Mae pob blwyddyn a weithiwyd gwerth 1/60 x cyflog pensiynadwy terfynol.
<b>Lwmp swm</b>	Lwmp swm awtomatig o 3 x cyflog. Yn ogystal, gellir cyfnewid rhan o’r pensiwn blynyddol am daliad arian parod di-dreth unwaith ac am byth. Telir lwmp swm o £12 am bob £1 o bensiwn a ildir.	Dim lwmp swm awtomatig. Gellir cyfnewid rhan o’r pensiwn blynyddol am daliad arian parod di-dreth unwaith ac am byth. Telir lwmp swm o £12 am bob £1 o bensiwn a ildir.

O 1 Ebrill 2014, daeth y Gronfa yn gynllun cyfartaledd cyflog gyrfa. Gweler y crynodeb isod:

	<b>Gwasanaeth ar ôl 31 Mawrth 2014</b>
<b>Pensiwn</b>	Mae pob blwyddyn a weithiwyd gwerth 1/49 x cyfartaledd cyflog gyrfa wedi’i adbriso (CARE)
<b>Lwmp Swm</b>	Dim lwmp swm awtomatig. Gellir cyfnewid rhan o’r pensiwn blynyddol am daliad arian parod di-dreth unwaith ac am byth. Telir lwmp swm o £12 am bob £1 o bensiwn a ildir.

Caiff pensiwn cronedig ei gynyddu'n flynyddol yn unol â'r Mynegai Prisiau Defnyddwyr.

Darperir amrediad o fuddion eraill dan y cynllun yn cynnwys ymddeoliad cynnar, pensiynauanabledd a buddion marwolaeth. Am fwy o fanylion, cyfeiriwch at lawlyfr cynllun Cronfa Bensiwn Gwynedd sydd ar gael gan Adain Pensiynau Cyngor Gwynedd.

## NODYN 2 – SAIL PARATOI

Mae'r Datganiad o'r Cyfrifon yn crynhoi trafodion y Gronfa ar gyfer blwyddyn ariannol 2021/22 a'i sefyllfa diwedd blwyddyn ar 31 Mawrth 2022. Mae'r cyfrifon wedi'u paratoi yn unol â'r Cod Ymarfer ar Gyfrifyddu mewn Awdurdodau Lleol yn y Deyrnas Unedig 2021/22 sy'n seiliedig ar y Safonau Adrodd Ariannol Rhyngwladol (SAARh), fel y'u diwygiwyd ar gyfer sector cyhoeddus y DU. Paratowyd y cyfrifon ar sail busnes gweithredol.

Mae paragraff 3.3.1.2 o'r Cod yn gofyn i unrhyw safonau cyfrifyddu sydd wedi'u cyhoeddi ond heb eu mabwysiadau eto gael ei ddatgan. Nid oes safonau cyfrifyddu o'r fath wedi'u nodi ar gyfer 2021/22.

Mae'r cyfrifon yn crynhoi trafodion y Gronfa ac yn adrodd ar yr asedau net sydd ar gael i dalu buddion pensiwn. Nid yw'r cyfrifon yn rhoi ystyriaeth i rwymedigaethau i dalu pensiynau a buddion sy'n ddyledus ar ôl diwedd y flwyddyn ariannol, na gwerth actiwaraidd cyfredol y buddion ymddeol. Gweler gwerth actiwaraidd cyfredol y buddion ymddeol sydd wedi'u haddo, ble bo'u gwerth wedi'i gyfrifo'n seiliedig ar Safon Cyfrifo Genedlaethol (SCC) 19, yn Nodyn 19 y cyfrifon hyn.



## **NODYN 3 – CRYNODEB O BOLISIŌAU CYFRIFEG ARWYDDOCAOL**

### **Cyfrif y Gronfa – cydnabyddiaeth refeniw**

#### **a) Incwm o Gyfraniadau**

Cyfrifir cyfraniadau arferol ar sail groniadol fel a ganlyn:

- Mae cyfraddau cyfraniadau gweithwyr yn cael eu gosod yn unol â rheoliadau CPLIL, gan ddefnyddio cyfraddau canrannol cyffredin ar gyfer pob cynllun sy'n codi yn ôl tâl pensiynadwy.
- Mae cyfraniadau cyflogwyr yn cael eu gosod ar y gyfradd ganrannol a argymhellir gan actiwari'r gronfa yn y cyfnod y maent yn perthyn iddo.

Mae cyfraniadau cyflogwyr i ddiffygion cronfeydd yn cael eu cyfrif ar y dyddiadau y maent yn daladwy dan atodlen cyfraniadau a gosodwyd gan actwari y Gronfa, neu wrth eu derbyn os yw hynny'n digwydd cyn y dyddiad maent yn ddyledus.

Cyfrifir am gyfraniadau ychwanegol cyflogwyr a chyfraniadau straen pensiwn yn y cyfnod ble mae'r ymrwymadau dan sylw yn codi. Ystyrir bod unrhyw swm sy'n ddyledus yn ystod y flwyddyn, ond nad ydyw wedi'i dalu, yn ased ariannol cyfredol. Ystyrir bod unrhyw swm nad ydyw'n ddyledus nes flynyddoedd yn y dyfodol yn ased ariannol tymor hir.

#### **b) Trosglwyddiadau o gynlluniau eraill ac i gynlluniau eraill**

Mae trosglwyddiadau i mewn ac allan yn ymwneud ag aelodau sydd wedi ymuno neu adael y gronfa.

Mae trosglwyddiadau unigol i mewn/ allan yn cael eu cyfrifo pan gânt eu derbyn neu eu talu. Cyfrifir am drosglwyddiadau i mewn gan aelodau sy'n dymuno defnyddio'r enillion o'u cyfraniadau gwirfoddol ychwanegol (gweler isod) i brynu buddion ar sail derbynion ac maent wedi'u cynnwys dan Drosglwyddiadau i Mewn (gweler Nodyn 9).

Cyfrifir am drosglwyddiadau swmp (grŵp) yn seiliedig ar groniadau yn unol â thelerau'r cytundeb trosglwyddo.

#### **c) Incwm buddsoddi**

##### **i) Incwm llog**

Cydnabyddir incwm llog yng nghyfrif y Gronfa wrth iddo gronni, gan ddefnyddio cyfradd llog effeithiol yr offeryn ariannol ar dyddiad caffael neu fan cychwyn.

##### **ii) Incwm difidend**

Cydnabyddir incwm difidend ar y dyddiad pan fo'r cyfranddaliadau'n cael eu dyfynnu fel rhai cyn-ddifidend. Cyfeirir at unrhyw swm nad ydyw wedi'i dderbyn erbyn diwedd y cyfnod adrodd yn y datganiad asedau net fel ased ariannol cyfredol.

##### **iii) Dosbarthiadau o gronfeydd wedi'u cyfuno yn cynnwys eiddo**

Cydnabyddir dosbarthiadau o gronfeydd wedi'u cyfuno ar y dyddiad pan maent yn cael eu cyflwyno. Cyfeirir at unrhyw swm nad ydyw wedi'i dderbyn erbyn diwedd y cyfnod adrodd yn y datganiad asedau net fel ased ariannol cyfredol.

##### **iv) Newid yng ngwerth net buddsoddiadau ar y farchnad**

Cydnabyddir newidiadau yng ngwerth net buddsoddiadau ar y farnach fel incwm ac maent yn yn cynnwys yr holl elw/colledion a wireddwyd ac na wireddwyd yn ystod y flwyddyn.

## **NODYN 3 – CRYNODEB O BOLISIÄU CYFRIFEG ARWYDDOCAOL (parhad)**

### **Cyfrif y Gronfa – eitemau sy'n creu costau**

#### **d) Buddion sy'n daladwy**

Mae'r buddion pensiwn a lwmp swm sy'n daladwy'n cynnwys yr holl symiau a wyddys eu bod yn daladwy ar ddiwedd y flwyddyn ariannol. Cyfeirir at unrhyw swm sy'n ddyledus ond nad ydyw wedi'i dalu yn y datganiad asedau net fel ymrwymadau cyfredol, ar yr amod bod y taliad wedi'i gymeradwyo.

#### **e) Costau rheoli**

Mae'r gronfa'n datgelu ei chost reoli yn unol â chanllawiau CIPFA, *Accounting for Local Government Pension Scheme Management Expenses (2016)*, fel y dangosir isod. Codir pob eitem o wariant ar y gronfa ar sail gronol fel a ganlyn:

#### **Costau gweinyddol**

Mae holl gostau staff y tîm gweinyddu pensiwnau'n cael eu codi'n uniongyrchol ar y Gronfa. Mae ad-daliadau'r Cyngor am gostau rheoli, llety a gorbenion eraill hefyd yn cael eu cyfrif fel costau gweinyddol y gronfa.

#### **Costau arolygu a llywodraethu**

Mae'r holl gostau sy'n gysylltiedig â goruchwyllo a llywodraethu yn cael eu nodi ar wahân, eu dosrannu i'r gweithgaredd hwn a'u codi fel costau i'r gronfa.

#### **Costau rheoli buddsoddiadau**

Codir ffioedd buddsoddi yn uniongyrchol ar y gronfa fel rhan o gostau rheoli ac ni chânt eu cynnwys yn yr enillion a adroddwyd ar fuddsoddiadau, na'u netio oddi wrthynt. Pan fydd ffioedd yn cael eu netio oddi ar enillion gan reolwyr buddsoddi, mae'r costau hyn yn cael eu grosio i fyny i gynyddu'r newid yng ngwerth buddsoddiadau.

Mae ffioedd y rheolwyr buddsoddi a'r gwarcheidwad allanol wedi'u nodi yn y mandadau perthnasol sy'n llywodraethu eu penodiadau. Yn fras, mae'r rhain yn seiliedig ar werth marchnad y buddsoddiadau sydd o dan eu rheolaeth ac felly'n cynyddu neu'n lleihau wrth i werth y buddsoddiadau hyn newid.

Mae costau trafodion yn ymwneud a prynu a gwerthu asedau'r cronfeydd ac yn cael eu egluro yn y nodiadau i'r cyfrifon.

#### **f) Treth**

Mae'r Gronfa'n gynllun gwasanaeth cyhoeddus cofrestredig dan adran 1(1) Atodlen 36 Deddf Cyllid 2004 ac o ganlyniad mae'r llog a dderbynnir yn eithriedig rhag treth incwm y DU a rhag treth ar enillion cyfalaf ar yr enillion a geir o'r buddsoddiadau a werthir. Mae treth atal yn daladwy ar incwm a geir o fuddsoddiadau tramor yn y wlad ble maent yn tarddu, oni bai bod eithriad wedi'i ganiatáu. Cyfrifir am dreth anadferadwy fel cost i'r Gronfa fel mae'n codi.

## **NODYN 3 – CRYNODEB O BOLISIAU CYFRIFEG ARWYDDOCAOL (parhad)**

### **Datganiad asedau net**

#### **g) Asedau ariannol**

Mae'r holl asedau buddsoddi wedi'u cynnwys yn y datganiad asedau net yn seiliedig ar eu gwerth teg ar y dyddiad adrodd. Cydnabyddir ased ariannol yn y datganiad asedau net ar y dyddiad y caiff y Gronfa gytundeb ei fod yn cael yr ased. Cydnabyddir unrhyw enillion neu gollodion ar werthiannau buddsoddi sy'n deillio o newidiadau yng ngwerth teg yr ased yng nghyfrif y gronfa.

Mae gwerth y buddsoddiadau fel sy'n ymddangos yn y datganiad asedau net wedi'u pennu ar werth teg yn unol â gofyniad y Cod ac SAARh 13 (gweler nodyn 14). Ar gyfer ddibenion datgelu lefelau hierarchaeth gwerth teg, mae'r gronfa wedi mabwysiadu'r canllawiau dosbarthu a argymhellir yn y Canllawiau Ymarferol ar Ddatgeliadau Buddsoddi (PRAG/ Investment Association, 2016).

#### **h) Trafodion arian tramor**

Mae difidendau, llog a phryniannau a gwerthiannau buddsoddiadau mewn arian tramor wedi'u cyfrifo'n seiliedig ar y cyfraddau cyfredol ar y farchnad ar ddyddiad y trafodion. Defnyddir cyfraddau cyfnewid cyfredol ar y farchnad ar ddiwedd y flwyddyn i gyfrifo gwerth balansau arian parod a ddelir mewn cyfrifon banc arian tramor, gwerth buddsoddiadau tramor ar y farchnad a gwerthiannau sy'n aros ar ddiwedd y cyfnod adrodd.

#### **i) Arian a chywerthoedd arian**

Mae arian parod yn cynnwys arian parod sydd ar gael ac adneuo'n ar alw ac mae'n cynnwys symiau a ddelir gan reolwyr allanol y gronfa. Mae'r holl falanasau arian parod yn fuddsoddiadau byrdymor, hylifol iawn y gallir eu trosglwyddo'n arian parod yn rhwydd, ac nad oes llawer o risg y bydd eu gwerth yn newid.

#### **j) Ymrwymadau ariannol**

Cydnabyddir ymrwymiad ariannol yn y datganiad ased net ar y dyddiad y daw'r gronfa yn gyfreithiol gyfrifol am yr ymrwymiad hwnnw. Mae'r gronfa'n cydnabod ymrwymadau ariannol sy'n ymwneud â masnachu buddsoddiadau ar werth teg ac mae unrhyw enillion a cholledion sy'n deillio o newidiadau yng ngwerth teg yr ymrwymiad rhwng dyddiad y contract, dyddiad diwedd y flwyddyn a'r dyddiad setliad yny pen draw yn cael eu cydnabod yng nghyfrif y gronfa fel rhan o'r newid yng ngwerth buddsoddiadau.

Mae ymrwymadau ariannol eraill sy'n cael eu dosbarthu fel cost wedi'i amorteiddio yn cael eu cario yn y datganiad asedau net ar werth y brifswm sy'n ddyledus ar 31 Mawrth bob flwyddyn. Mae unrhyw log sy'n ddyledus ond heb ei dalu eto yn cael ei gyfrif ar sail cronadau ac mae'n cael ei gynnwys mewn costau gweinyddol.

#### **k) Gwerth actiwaraidd cyfredol y buddion ymddeol sydd wedi'u haddo**

Asesir gwerth actiwaraidd cyfredol y buddion ymddeol sydd wedi'u haddo teirblynyddol gan actiwari'r Gronfa yn unol â gofynion SCCI9 a'r safonau actiwaraidd perthnasol.

Fel y caniateir o dan y Cod, mae'r Gronfa wedi dewis datgelu gwerth actiwaraidd cyfredol y buddion ymddeol sydd wedi'u haddo drwy gynnwys hysbysiad yn y datganiad asedau net (Nodyn 19).

## **NODYN 3 – CRYNODEB O BOLISIŌAU CYFRIFEG ARWYDDOCAOL (parhad)**

### **l) Cyfraniadau gwirfoddol ychwanegol**

Mae Cronfa Bensiwn Gwynedd yn darparu cynllun cyfraniadau gwirfoddol ychwanegol (AVC) ar gyfer ei aelodau ac mae asedau'r cynllun hwnnw'n cael eu buddsoddi ar wahân i asedau'r Gronfa Bensiwn. Mae tair cronfa AVC. Delir y cronfeydd hyn gyda Clerical Medical, Utmost Life a Standard Life. Mae'r darparwyr AVC yn diogelu buddion ychwanegol ar sail prynu arian ar gyfer yr aelodau hynny sy'n dewis talu cyfraniadau ychwanegol gwirfoddol. Mae pob aelod sy'n cymryd rhan yn y trefniadau hyn yn derbyn datganiad blynyddol hyd at 31 Mawrth yn cadarnhau'r symiau a ddelir yn eu cyfrif a'r newidiadau yn ystod y flwyddyn.

Nid yw AVCs yn cael eu cynnwys yn y cyfrifon, yn unol ag Adran 4(1)(b) o Reoliadau Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol (Rheoli a Buddsoddi Cronfeydd) 2016 ond fe'u datgelir er gwybodaeth yn unig yn Nodyn 22.

### **m) Asedau dibynnol ac ymrwymadau dibynnol**

Mae ased dibynnol yn codi pan fydd digwyddiad wedi digwydd gan arwain at ased posibl y bydd ei fodolaeth yn cael ei gadarnhau neu fel arall gan ddigwyddiadau yn y dyfodol. Mae ymrwymiad dibynnol yncodi pan fydd digwyddiad cyn diwedd y flwyddyn wedi creu rhwymedigaeth ariannol bosibl y bydd ei fodolaeth yn cael ei gadarnhau neu fel arall gan ddigwyddiadau yn y dyfodol. Gall ymrwymadau dibynnol godi hefyd pan nad yw'n bosib ar y Fantolen fesur gwerth y rhwymedigaeth ariannol yn ddibynadwy.

Ni chydabyddir asedau ac ymrwymadau dibynnol yn y datganiad asedau net ond fe'u datgelir trwy naratif yn y nodiadau.

## **NODYN 4 – DYFARNIADAU ALLWEDDOL WRTH WEITHREDU POLISIŌAU CYFRIFO**

### **Buddsoddiadau ecwiti preifat ac isadeiledd heb eu dyfynnu**

Mae gwerth teg buddsoddiadau ecwiti preifat ac isadeiledd yn seiliedig yn bennaf ar amcangyfrifon a dyfarniadau sy'n edrych tua'r dyfodol sy'n cynnwys sawl ffactor. Mae rheolwyr buddsoddi'n pennu gwerth buddsoddiadau ecwiti heb eu dyfynnu ac isadeiledd gan ddefnyddio canllawiau sydd wedi'u gosod gan safon cyfrifo SAARh. Roedd gwerth y gwarantau preifat heb eu dyfynnu ar 31 Mawrth 2022 yn £226.1 miliwn (£211.6 miliwn ar 31 Mawrth 2021).

### **Ymrwymadau'r gronfa pensiwn**

Cyfrifir ymrwymadau'r gronfa pensiwn pob tair blynedd gan yr actiwari sydd wedi'i benodi, a darperir diweddariadau blynyddol yn ystod y blynyddoedd rhwng pob prisiad. Mae'r fethodoleg a ddefnyddir yn unol â chanllawiau cymeradwy ac yn unol ag SCCI9. Mae'r rhagdybiaethau sy'n tanategu'r prisiadau yn cael eu cytuno gyda'r actiwari a cheir crynodeb ohonynt yn Nodyn 18. Mae'r amcangyfrif hwn yn destun amrywiaethau arwyddocaol yn seiliedig ar newidiadau i'r rhagdybiaethau gwaelodol.

## NODYN 5 – RHAGDYBIAETHAU A WNEIR AM Y DYFODOL A FFYNONELLAU PWYSIG ERAILL SY’N RHOI ANSICRWYDD WRTH AMCANGYFRIFO

Wrth baratoi datganiadau ariannol, mae gofyn i’r rheolwyr wneud dyfarniadau, amcangyfrifon a thybiaethau sy’n effeithio ar y symiau yr adroddir arnynt. Amcangyfrifir a rhagdybiaethir drwy roi ystyriaeth i brofiad hanesyddol, tueddiadau cyfredol a disgwyliadau yn y dyfodol. Fodd bynnag, gan na ellir pennu balansau gyda sicrwydd, gallai’r gwir ganlyniadau fod yn bur wahanol i’r rhagdybiaethau a’r amcangyfrifon.

Mae’r eitemau yn y datganiad asedau net ble mae risg arwyddocaol o amrywiaethau materol yn y flwyddyn ariannol i ddod, fel a ganlyn:

Eitem	Ansicrwydd	Effaith os yw’r gwir ganlyniadau’n wahanol i’r rhagdybiaethau
Gwerth cyfredol actiwaraid y buddion ymddeol a sydd wedi’u haddo (Nodyn 19)	Mae amcangyfrif yr ymrwymiad net i dalu pensiynau’n dibynnu ar nifer o ddyfarniadau cymhleth sy’n ymwneud â’r gyfradd ddisgownt a ddefnyddir, codiadau cyflog, newidiadau mewn oedrannau ymddeol, cyfraddau marwolaeth ac enillion ar asedau’r gronfa. Cyflogir Hymans Robertson i roi cyngor arbenigol i’r gronfa am y rhagdybiaethau i’w defnyddio.	Gellir mesur effeithiau newidiadau mewn rhagdybiaethau unigol ar ymrwymadau pensiynau net. Fodd bynnag, mae’r rhagdybiaethau’n rhyngweithio mewn ffyrdd cymhleth.
Ecwiti preifat ac isadeiledd	Mae gwerth teg buddsoddiadau ecwiti preifat ac isadeiledd yn cael ei bennu’n unol âg arweiniad y <i>British Venture Capital Association</i> (Rhagfyr 2018). Nid yw’r buddsoddiadau hyn yn cael eu rhestru’n gyhoeddus ac fel y cyfryw, mae elfen o amcangyfrif yn gysylltiedig â’r prisiad.	Mae cyfanswm y buddsoddiadau ecwiti preifat ac isadeiledd yn y datganiadau ariannol yn £226.1 miliwn. Mae risg bod y buddsoddiad wedi’i nodi’n rhy isel neu’n rhy uchel yn y cyfrifon.

## NODYN 6 – DIGWYDDIADAU AR ÔL DYDDIAD ADRODD

Nid oes unrhyw ddigwyddiadau arwyddocaol ar ôl diwedd y flwyddyn i’w adrodd.

## NODYN 7 – CYFRANIADAU DERBYNIADWY

### Yn ôl categori

2020/21		2021/22
£'000		£'000
18,671	Cyfraniadau gweithwyr	19,703
	Cyfraniadau cyflogwyr :	
59,581	• Cyfraniadau arferol	63,233
0	• Cyfraniadau adfer diffyg	35
<b>59,581</b>	<b>Cyfanswm cyfraniadau cyflogwyr</b>	<b>63,268</b>
<b>78,252</b>	<b>Cyfanswm cyfraniadau derbyniadwy</b>	<b>82,971</b>

### Yn ôl math o gyflogwr

2020/21		2021/22
£'000		£'000
25,328	Cyngor Gwynedd	27,650
47,917	Cyrff eraill ar yr atodlen	50,205
1,749	Cyrff a ganiateir	1,716
2,712	Cyrff cymunedol a ganiateir	2,892
140	Cyrff trosglwyddo a ganiateir	161
352	Cyrff a benderfynir	313
54	Cronfeydd gaeedig*	34
<b>78,252</b>		<b>82,971</b>

\*Cronfeydd gaeedig - Dyma'r cyfraniadau a dderbyniwyd gan Ganolfan Cyngori Ynys Môn a Chanolfan Cyngori Conwy yn ystod y flwyddyn a oedd yn arfer bod yn gyrff a ganiateir ond bellach sydd yn gronfeydd gaeedig.

## NODYN 8 – INCWM ARALL

2020/21		2021/22
£'000		£'000
2	Llog ar gyfraniadau gohiriedig	2
2	Incwm ar gyfrifo ysgariad	2
<b>4</b>		<b>4</b>

## NODYN 9 – TROSGLWYDDIADAU I MEWN O GRONFEYDD PENSIWN ERAILL

2020/21		2021/22
£'000		£'000
3,356	Trosglwyddiadau unigol	2,664
<b>3,356</b>		<b>2,664</b>

## NODYN 10 – BUDDION A DALWYD

### Yn ôl categori

2020/21		2021/22
£'000		£'000
50,411	Pensiynau	52,087
10,807	Cymudiad a buddion ymddeol lwmp swm	13,123
1,160	Buddion marwolaeth – lwmp swm	1,769
<b>62,378</b>		<b>66,979</b>

### Yn ôl math o gyflogwr

2020/21*		2021/22
£'000		£'000
18,773	Cyngor Gwynedd	20,183
28,234	Cyrff eraill ar yr atodlen	31,868
1,506	Cyrff a ganiateir	1,651
1,133	Cyrff cymunedol a ganiateir	1,217
50	Cyrff trosglwyddo a ganiateir	104
174	Cyrff a benderfynir	109
12,508	Cronfeydd gaeedig	11,847
<b>62,378</b>		<b>66,979</b>

Mae ffigyrau 2020/21 wedi'u hailddadansoddi i gywiro'r categorïau cyflogwyr

## NODYN 11 – TALIADAU I RAI SY'N YMADAEL

2020/21		2021/22
£'000		£'000
92	Ad-daliadau i aelodau sy'n ymadael â'r gwasanaeth	138
2,960	Trosglwyddiadau unigol	3,545
<b>3,052</b>		<b>3,683</b>

## NODYN 12 – COSTAU RHEOLI

2020/21		2021/22
£'000		£'000
21,128	Costau rheoli buddsoddiadau	14,788
1,268	Costau gweinyddol	1,373
273	Costau arolygaeth a llywodraethu	364
<b>22,669</b>		<b>16,525</b>

## NODYN 12a- COSTAU RHEOLI BUDDSODDIADAU

2021/22	Ffioedd rheolwyr £'000	Costau trafodion £'000	Cyfanswm £'000
<b>Cronfeydd cyfun</b>			
Incwm sefydlog	297	0	297
Ecwiti	2,420	693	3,113
<b>Buddsoddiadau eraill</b>			
Buddsoddiadau eiddo cyfun	1,744	0	1,744
Ecwiti preifat	6,445	0	6,445
Isadeiledd	2,937	0	2,937
	13,843	693	14,536
<b>Ffioedd gwarchodaeth</b>			252
<b>Cyfanswm</b>			14,788

2020/21	Ffioedd rheolwyr £'000	Costau trafodion £'000	Cyfanswm £'000
<b>Cronfeydd cyfun</b>			
Incwm sefydlog	865	0	865
Ecwiti	2,733	442	3,175
<b>Buddsoddiadau eraill</b>			
Buddsoddiadau eiddo cyfun	1,565	0	1,565
Ecwiti preifat	12,274	0	12,274
Isadeiledd	3,044	0	3,044
	20,481	442	20,923
<b>Ffioedd gwarchodaeth</b>			205
<b>Cyfanswm</b>			21,128

Mae'r ffioedd rheoli uchod yn cynnwys yr holl ffioedd rheoli buddsoddiad a grëwyd yn uniongyrchol gan y Gronfa, yn cynnwys y ffioedd a godwyd ar gronfeydd buddsoddi wedi'u cyfuno. Ni thalwyd unrhyw ffioedd sy'n gysylltiedig â pherfformiad i'r rheolwyr buddsoddi. Yn ogystal â'r costau hyn, rhaid talu costau anuniongyrchol a ddaw yn sgil y gwasgariad bid-cynnig ar werthu a phrynu buddsoddiadau. Caiff y rhain eu hadlewyrchu yng nghostau prynu buddsoddiadau ac yn yr enillion a geir wrth werthu buddsoddiadau yn Nodyn 14a.

Mae cronfeydd PPC Global Opportunities, Multi Asset Credit, Absolute Return Bond a Emerging Markets yn fuddsoddiadau a benodir drwy ddull rheolwr o reolwyr sydd â'u ffioedd sylfaenol eu hunain. Mae'r adenillion ar gyfer y mandad hwn yn net o'r ffioedd rheolwr sylfaenol a adlewyrchir yn Nodyn 14a o fewn y 'Newid mewn Gwerth Marchnad'. Ar gyfer tryloywder, y ffioedd yn 2021/22 oedd £1,881,000 (£1,846,000 yn 2020/21).



## NODYN 12b- COSTAU GWEINYDDOL

2020/21		2021/22
£'000		£'000
576	Costau staff uniongyrchol	652
316	Costau uniongyrchol eraill	344
376	Gwasanaethau cefnogol, yn cynnwys TG	377
<b>1,268</b>		<b>1,373</b>

Mae'r costau gweinyddol yn cynnwys y symiau a godir ar y Gronfa Bensiwn gan Gyngor Gwynedd am gostau staff, gwasanaethau cefnogol a llety.

## NODYN 12c- COSTAU AROLYGU A LLYWODRAETHU

2020/21		2021/22
£'000		£'000
88	Ffioedd actiwari	117
44	Ffioedd ymgynghorwyr buddsoddi	49
13	Gwasanaeth monitro perfformiad	9
34	Ffioedd archwilwyr allanol	36
6	Pwyllgor Pensiwnau a Bwrdd Pensiwn Lleol	18
88	Partneriaeth Pensiwn Cymru	135
<b>273</b>		<b>364</b>

## NODYN 12ch- PARTNERIAETH PENSIWN CYMRU

Mae'r Costau Rheoli Buddsoddiadau yn Nodyn 12a yn cynnwys ffioedd sy'n daladwy i Link Fund Solutions (gweithredwr y PPC) ac maent yn cynnwys ffioedd rheolwyr buddsoddi (sydd hefyd yn cynnwys ffi'r gweithredwr a chostau cysylltiedig eraill), costau trafodion a ffioedd gwarchodaeth. Mae'r costau hyn yn seiliedig ar gyfran ganrannol pob cronfa o asedau cyfun PPC ac fe'u didynnir o'r NAV.

Y costau goruchwyllo a llywodraethu yn Nodyn 12c yw costau rhedeg blynyddol y pŵl sy'n cynnwys costau'r awdurdod lletya a chostau ymgynghorwyr allanol eraill. Caiff y costau hyn eu hariannu'n gyfartal gan bob un o'r wyth Cronfa Bensiwn awdurdod lleol yng Nghymru.

Mae'r ffioedd canlynol wedi'u cynnwys yn Nodyn 12 mewn perthynas â Phartneriaeth Pensiwn Cymru a ceir rhagor o wybodaeth am y PPC ar gael yn yr Adroddiad Blynyddol.

	2020/21	2021/22
	£'000	£'000
<b>Costau rheoli buddsoddiadau</b>		
Ffioedd rheolwyr	1,955	2,286
Costau trafodion	442	693
Costau gwarchodaeth	179	227
	<b>2,576</b>	<b>3,206</b>
<b>Costau arolygu a llywodraethu</b>		
Costau rhedeg	88	135
<b>Cyfanswm</b>	<b>2,664</b>	<b>3,341</b>

## NODYN 13 – INCWM BUDDSODDI

2020/21		2021/22
£'000		£'000
1,579	Incwm sefydlog	4,430
20,587	Ecwiti	12,141
1,108	Ecwiti preifat	2,090
888	Isadeiledd	280
6,507	Buddsoddiadau eiddo cyfun	7,213
99	Llog ar adneuron arian parod	16
<b>30,768</b>	<b>Cyfanswm cyn trethi</b>	<b>26,170</b>

Mae gan Gronfa Bensiwn Gwynedd ddau gyfrif banc sy'n cael eu dal fel rhan o Grŵp o Gyfrifon Banc Cyngor Gwynedd. Mae'r arian dros ben sy'n cael ei ddal yn y Grŵp o Gyfrifon Banc yn cael ei fuddsoddi yn ddyddiol. Ar ddiwedd y flwyddyn ariannol, mae Cyngor Gwynedd yn talu llog i'r Gronfa Bensiwn, sy'n seiliedig ar falansau dyddiol y Gronfa yn ystod y flwyddyn.

Mae gan y Gronfa Bensiwn gyfrif Ewro i ymdrin â derbyniadau a thaliadau mewn Ewros ac i leihau'r trafodion cyfnewid a chostau perthnasol.

## NODYN 14 – BUDDSODDIADAU

31 Mawrth		31 Mawrth
2021		2022
£'000		£'000
<b>Asedau buddsoddi</b>		
<b>Cronfeydd cyfun</b>		
484,315	Incwm sefydlog	551,777
1,624,630	Ecwiti	1,730,845
<b>Buddsoddiadau eraill</b>		
194,581	Buddsoddiadau eiddo cyfun	252,521
165,423	Ecwiti preifat	158,711
46,220	Isadeiladedd	67,417
<b>2,515,169</b>		<b>2,761,271</b>
146	Adneuron arian parod	303
<b>2,515,315</b>	<b>Cyfanswm asedau buddsoddi</b>	<b>2,761,574</b>
<b>Ymrwymadau buddsoddi</b>		
(126)	Symiau taladwy ar gyfer pryniant buddsoddiadau	(285)
<b>(126)</b>	<b>Cyfanswm ymrwymadau buddsoddi</b>	<b>(285)</b>
<b>2,515,189</b>	<b>Asedau buddsoddi net</b>	<b>2,761,289</b>

## NODYN 14a – CYSONI SYMUDIADAU MEWN BUDDSODDIADAU A DEILLIADAU

2021/22	Gwerth marchnad ar 1 Ebrill 2021  £'000	Pryniannau yn ystod y flwyddyn  £'000	Gwerthia- nnau yn ystod y flwyddyn  £'000	Newid mewn gwerth marchnad yn ystod y flwyddyn  £'000	Gwerth marchnad ar 31 Mawrth 2022  £'000
Buddsoddiadau cyfun	2,108,945	151,612	(116,647)	138,712	2,282,622
Buddsoddiadau eiddo cyfun	194,581	19,038	0	38,902	252,521
Ecwiti preifat / Isadeiledd	211,643	38,945	(56,756)	32,296	226,128
	<u>2,515,169</u>	<u>209,595</u>	<u>(173,403)</u>	<u>209,910</u>	<u>2,761,271</u>
Adneuron arian parod	146				303
Symiau taladwy ar gyfer pryniant Buddsoddiadau	(126)				(285)
Ffioedd o fewn cerbydau wedi'u cyfuno				13,100	
<b>Asedau buddsoddi net</b>	<b>2,515,189</b>			<b>223,010</b>	<b>2,761,289</b>

2020/21	Gwerth marchnad ar 1 Ebrill 2020  £'000	Pryniannau yn ystod y flwyddyn  £'000	Gwerthia- nnau yn ystod y flwyddyn  £'000	Newid mewn gwerth marchnad yn ystod y flwyddyn  £'000	Gwerth marchnad ar 31 Mawrth 2021  £'000
Buddsoddiadau cyfun	1,580,029	759,879	(727,541)	496,578	2,108,945
Buddsoddiadau eiddo cyfun	191,256	3,592	(281)	14	194,581
Ecwiti preifat / Isadeiledd	157,230	29,249	(24,283)	49,447	211,643
	<u>1,928,515</u>	<u>792,720</u>	<u>(752,105)</u>	<u>546,039</u>	<u>2,515,169</u>
Adneuron arian parod	783				146
Symiau taladwy ar gyfer pryniant buddsoddiadau	0				(126)
Ffioedd o fewn cerbydau wedi'u cyfuno				19,472	
<b>Asedau buddsoddi net</b>	<b>1,929,298</b>			<b>565,511</b>	<b>2,515,189</b>

## NODYN I4b – DADANSODDIAD O FUDDSODDIADAU

### Buddsoddiadau fesul rheolwr buddsoddi

Gwerth Marchnad ar 31 Mawrth 2021			Gwerth Marchnad ar 31 Mawrth 2022		
£'000	%		£'000	%	
1,360,124	54.1	Partneriaeth Pensiwn Cymru	1,496,425	54.2	
735,481	29.2	BlackRock	851,675	30.9	
211,643	8.4	Grŵp Partners	226,128	8.2	
47,627	1.9	UBS	75,739	2.7	
61,338	2.4	Lothbury	72,139	2.6	
31,904	1.3	Threadneedle	39,450	1.4	
20	0.0	Veritas	18	0.0	
67,178	2.7	Fidelity	0	0.0	
<b>2,515,315</b>	<b>100.0</b>		<b>2,761,574</b>	<b>100.0</b>	

Mae'r buddsoddiadau a ganlyn yn cynrychioli mwy na 5% o asedau net y Gronfa:

Gwerth Marchnad ar 31 Mawrth 2021			Gwerth Marchnad ar 31 Mawrth 2022		
£'000	%		£'000	%	
442,964	17.5	Global Opportunities Fund PPC	454,098	16.4	
432,845	17.1	Global Growth Fund PPC	430,749	15.5	
307,181	12.2	Absolute Return Bond PPC	353,857	12.7	
297,967	11.8	Black Rock ACS World Low Carbon Fund	346,072	12.5	
211,625	8.4	Black Rock Aquila Life UK Equity Index Fund	239,314	8.6	
172,052	6.8	Black Rock Aquila Life Gl. Dev Fundamental Fund	200,811	7.2	
177,134	7.0	Multi Asset Credit Fund PCC	197,920	7.1	

## NODYN I4c – BENTHYCA STOC

Mae strategaeth fuddsoddi'r Gronfa yn nodi y caniateir benthyca stoc yn amodol ar ganiatâd penodol. Yr incwm a enillodd y Gronfa trwy fenthyca stoc oedd £126,800. Ar hyn o bryd, mae gan y Gronfa gyfanswm ecwiti a ddyfynnwyd o £35.8m ar fenthyg. Mae'r ecwiti hyn yn parhau i gael ei gydnabod yn natganiadau ariannol y Gronfa. Nid oes unrhyw rwymedigaethau'n gysylltiedig â'r asedau a fenthywyd.

## **NODYN 15 – GWERTH TEG - SAIL GWERTHUSO**

Mae'r holl asedau wedi'u prasio gan ddefnyddio technegau gwerthoedd teg yn seiliedig ar nodweddion pob offeryn, gan ddefnyddio gwybodaeth sy'n seiliedig ar y farchnad lle bo hynny'n bosibl. Ni fu unrhyw newid yn y technegau prasio a ddefnyddiwyd yn ystod y flwyddyn.

Mae asedau ac ymrwymadau wedi'u dosbarthu i dair lefel, yn unol ag ansawdd a dibynadwyedd y wybodaeth a ddefnyddiwyd i bennu gwerthoedd teg.

**Lefel 1** - ble mae gwerthoedd teg wedi eu pennu drwy ddefnyddio prisiau wedi'u dyfynnu a heb eu haddasu ar farchnadoedd gweithredol am asedau neu rwymedigaethau cyfwerth, sy'n cynnwys ecwiti wedi'u dyfynnu, bondiau wedi'u dyfynnu ac ymddiriedolaethau uned.

**Lefel 2** - ble nad oes prisiau'r farchnad wedi'u dyfynnu ar gael, neu pan ddefnyddir technegau prasio i bennu gwerth teg yn seiliedig ar ddata gweladwy.

**Lefel 3** - ble nad yw o leiaf un mewnbwn a allai gael effaith sylweddol ar brisiad yr offeryn yn seiliedig ar ddata gweladwy'r farchnad.

## NODYN 15 – GWERTH TEG - SAIL GWERTHUSO (parhad)

Disgrifiad o'r Ased	Hierarchaeth brisio	Sail y prisiad	Mewnbynnau arsylladwy ac na ellir eu harsylwi	Materion o sensitifrwydd allweddol sy'n effeithio ar y Prisiadau a ddarperir
Arian a chyferthoedd arian	Lefel 1	Bernir bod gwerth i'w gario yn werth teg oherwydd natur tymor byr yr offerynnau ariannol hyn	Diangen	Diangen
Buddsoddiadau cyfun- cronfeydd ecwiti	Lefel 2	Cyfrifir y 'NAV' (net asset value) ar sail gwerth yr asedau sylfaenol ar y farchnad	Porthiant prisiau wedi'i werthuso	Diangen
Buddsoddiadau cyfun- incwm sefydlog	Lefel 2	Cyfrifir y 'NAV' ar sail gwerth marchnadol y gwarantau incwm sefydlog sylfaenol	Porthiant prisiau wedi'i werthuso	Diangen
Buddsoddiadau eiddo cyfun	Lefel 2	Pris cynnig cau pan gyhoeddir prisiau cynnig; pris sengl cau lle cyhoeddir pris sengl	Wedi'i seilio ar 'NAV' wedi'i osod ar sail blaen-brisio	Diangen
Ecwiti preifat	Lefel 3	Prisiad cymaradwy cwmnïau tebyg yn unol ag <i>International Private Equity and Venture Capital Valuation Guidelines 2018</i> ac <i>IPEV Board's Special Valuation Guidance (Mawrth 2020)</i>	<ul style="list-style-type: none"> <li>Lluosrif EBITDA</li> <li>Lluosrif refeniw</li> <li>Gostyngiad am ddiffyg marchnadwyedd</li> <li>Rheoli premiwm</li> </ul>	Gallai newidiadau i lifoedd arian disgwylidig neu wahaniaethau rhwng cyfrifon archwiledig a chyfrifon nas archwiliwyd effeithio ar brisiadau
Isadeiledd	Lefel 3	Wedi'i brisio gan ddefnyddio technegau llif arian disgowntiedig i gynhyrchu gwerth presennol net	Cyfradd ddisgownt a llif arian a ddefnyddir yn y modelau	Cyfradd chwyddiant, llog, treth a chyfnewid tramor

### Sensitifrwydd asedau a werthir ar lefel 3

Mae'r gwerthoedd a adroddir yn y prisiadau Lefel 3 yn cynrychioli'r amcan gyfrif mwyaf cywir gwerthoedd y portffolio ar 31 Mawrth 2022. Mae unrhyw oddrychedd sy'n gysylltiedig â'r gwerth buddsoddi wedi'i ymgorffori yn y prisiad a gellir gweld y dadansoddiad sensitifrwydd yn Nodyn 17.

### Trosglwyddiadau rhwng lefelau 1 a 2

Ni chafwyd unrhyw drosglwyddiadau rhwng buddsoddiadau lefelau 1 a 2 yn ystod 2021/22.

## NODYN 15a – HIERARCHAETH GWERTH TEG

Mae gwerth y buddsoddiad mewn ecwiti preifat yn seiliedig ar brisiadau a ddarparwyd gan bartneriaid cyffredinol y cronfeydd ecwiti preifat y mae Cronfa Bensiwn Gwynedd wedi buddsoddi ynddynt. Paratoir y prisiadau hyn yn unol â'r *International Private Equity and Venture Capital Valuation Guidelines*, sy'n dilyn egwyddorion prisiu'r SAARh ac US GAAP.

Mae'r tabl isod yn crynhoi gwerth cario'r asedau ariannol a'r ymrwymadau ariannol fesul lefel o 1 i 3, yn seiliedig ar y lefel â'u gwerth teg.

Gwerth ar 31 Mawrth 2022	Pris y farchnad a ddyfynnwyd	Gan ddefnyddio mewnbwn gweladwy	Heb fewnbwn gweladwy sylweddol	Cyfanswm £'000
	Lefel 1 £'000	Lefel 2 £'000	Lefel 3 £'000	
<b>Asedau ariannol wedi'u pennu fel gwerth teg drwy elw a cholled</b>				
Incwm sefydlog	0	551,777	0	551,777
Ecwiti	0	1,730,845	0	1,730,845
Buddsoddiadau eiddo cyfun	0	252,521	0	252,521
Ecwiti preifat	0	0	158,711	158,711
Isadeilaedd	0	0	67,417	67,417
Adneuon arian parod	303	0	0	303
	<b>303</b>	<b>2,535,143</b>	<b>226,128</b>	<b>2,761,574</b>
<b>Ymrwymadau ariannol wedi'u pennu fel gwerth teg drwy elw a cholled</b>				
Symiau taladwy ar gyfer pryniant buddsoddiadau	(285)	0	0	(285)
<b>Cyfanswm</b>	<b>18</b>	<b>2,535,143</b>	<b>226,128</b>	<b>2,761,289</b>

## NODYN 15a – HIERARCHAETH GWERTH TEG (parhad)

Gwerth ar 31 Mawrth 2021	Pris y	Gan ddefnyddio		Heb fewnbwn	Cyfanswm
	farchnad a	mewnbwn gweladwy		gweladwy	
	ddyfynnwyd	Lefel 1	Lefel 2	sylweddol	
	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000
<b>Asedau ariannol wedi'u pennu fel gwerth teg drwy elw a cholled</b>					
Incwm sefydlog	0	484,315	0	484,315	
Ecwiti	0	1,624,630	0	1,624,630	
Buddsoddiadau eiddo cyfun	0	194,581	0	194,581	
Ecwiti preifat	0	0	165,423	165,423	
Isadeilaedd	0	0	46,220	46,220	
Adneuron arian parod	146	0	0	146	
	<b>146</b>	<b>2,303,526</b>	<b>211,643</b>	<b>2,515,315</b>	
<b>Ymrwymadau ariannol wedi'u pennu fel gwerth teg drwy elw a cholled</b>					
Symiau taladwy ar gyfer pryniant buddsoddiadau	(126)	0	0	(126)	
<b>Cyfanswm</b>	<b>20</b>	<b>2,303,526</b>	<b>211,643</b>	<b>2,515,189</b>	

## NODYN 15b – CYSONIAD MESURIADAU GWERTH TEG O FEWN LEFEL 3

	Gwerth y Farchnad I Ebrill 2021	Trosglwyddiadau o Lefel 3	Pryniannau yn ystod y flwyddyn	Gwerthiannau yn ystod y flwyddyn	Enillion/ (colledion) na wireddwyd	(Enillion/ colledion) a wireddwyd	Gwerth y Farchnad 31 Mawrth 2022
	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000
Buddsoddiadau eiddo cyfun	0	0	0	0	0	0	0
Ecwiti preifat	165,423	0	23,050	(22,550)	23,275	(30,487)	158,711
Isadeiledd	46,220	0	15,895	(3,488)	9,021	(231)	67,417
<b>Cyfanswm Lefel 3</b>	<b>211,643</b>	<b>0</b>	<b>38,945</b>	<b>(26,038)</b>	<b>32,296</b>	<b>(30,718)</b>	<b>226,128</b>

	Gwerth y Farchnad I Ebrill 2020	Trosglwyddiadau o Lefel 3	Pryniannau yn ystod y flwyddyn	Gwerthiannau yn ystod y flwyddyn	Enillion/ (colledion) na wireddwyd	(Enillion/ colledion) a wireddwyd	Gwerth y Farchnad 31 Mawrth 2021
	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000
Buddsoddiadau eiddo cyfun	191,256	(191,256)	0	0	0	0	0
Ecwiti preifat	112,661	0	18,796	(7,115)	45,538	(4,457)	165,423
Isadeiledd	44,569	0	10,453	(7,952)	3,909	(4,759)	46,220
<b>Cyfanswm Lefel 3</b>	<b>348,486</b>	<b>(191,256)</b>	<b>29,249</b>	<b>(15,067)</b>	<b>49,447</b>	<b>(9,216)</b>	<b>211,643</b>

Y trosglwyddiad o lefel 3 yn 2020/21 yw symudiad Buddsoddiadau Eiddo Cyfun wrth i'r cymal ansicrwydd materol gael ei godi o brisiadau eiddo.



## NODYN 16 – DOSBARTHIAD OFFERYNNAU ARIANNOL

Mae polisiâu cyfrifo'n disgrifio sut mae gwahanol ddsbarthiadau o asedau offerynnau ariannol yn cael eu mesur a sut mae incwm a chostau, yn cynnwys enillion a cholledion gwerth teg, yn cael eu cydnabod. Mae'r tabl a ganlyn yn dadansoddi'r symiau cario o asedau ag ymrwymïadau ariannol fesul categori a phennawd datganiad asedau net. Ni ail-ddosbarthwyd unrhyw asedau ariannol yn ystod y cyfnod cyfrifo.

Fel ar 31 Mawrth 2021			Fel ar 31 Mawrth 2022		
Wedi'u pennu fel gwerth teg drwy elw a cholled	Asedau ar gost wedi'i amorteiddio	Cost ymrwymïadau ariannol	Wedi'u pennu fel gwerth teg drwy elw a cholled	Asedau ar gost wedi'i amorteiddio	Cost ymrwymïadau ariannol
£'000	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000
<b>Asedau ariannol</b>					
2,108,945			2,282,622		
194,581			252,521		
165,423			158,711		
46,220			67,417		
	12,282			14,481	
	4,017			3,650	
<b>2,515,169</b>	<b>16,299</b>	<b>0</b>	<b>2,761,271</b>	<b>18,131</b>	<b>0</b>
<b>Ymrwymïadau ariannol</b>					
		(3,339)			(3,641)
<b>0</b>	<b>0</b>	<b>(3,339)</b>	<b>0</b>	<b>0</b>	<b>(3,641)</b>
<b>2,515,169</b>	<b>16,299</b>	<b>(3,339)</b>	<b>2,761,271</b>	<b>18,131</b>	<b>(3,641)</b>

## NODYN 16a – ENILLION A CHOLLEDION NET AR OFFERYNNAU ARIANNOL

31 Mawrth 2021		31 Mawrth 2022
Gwerth teg		Gwerth teg
£'000		£'000
<b>Asedau ariannol</b>		
546,039	Gwerth teg drwy elw a cholled	209,909
0	Benthycïadau a derbyniadau	0
<b>546,039</b>	<b>Cyfanswm yr asedau ariannol</b>	<b>209,909</b>
<b>Ymrwymïadau ariannol</b>		
0	Gwerth teg drwy elw a cholled	0
0	Cost ymrwymïadau ariannol	0
<b>0</b>	<b>Cyfanswm yr ymrwymïadau ariannol</b>	<b>0</b>
<b>546,039</b>	<b>Asedau ariannol net</b>	<b>209,909</b>

## **NODYN 17 – NATUR A GRADDDFA'R RISGIAU SY'N CODI O OFFERYNNAU ARIANNOL**

### **Risg a rheoli risg**

Prif risg hirdymor y Gronfa yw y bydd asedau'r Gronfa'n annigonol i ymdrin â'i hymrwymiaidau (h.y. y buddion a gafodd eu haddo i aelodau sy'n daladwy). Felly, nod rheoli risg buddsoddi yw lleihau'r risg o weld gostyngiad cyffredinol yng ngwerth y Gronfa a gwneud y mwyaf o'r cyfle i wneud enillion ar draws portffolio'r Gronfa yn ei gyfanrwydd. Mae'r Gronfa'n cyflawni hyn drwy amrywio'i asedau i leihau risg y farchnad (risg pris, risg arian tramor a risg cyfradd llog) a risg credyd y mae'n agored iddo ar lefel dderbyniol. Yn ogystal, mae'r Gronfa'n rheoli ei risg o hylifedd i sicrhau bod digon o hylifedd ar gael i fodloni llif arian rhagweladwy'r Gronfa. Mae'r Cyngor yn rheoli'r risgiau buddsoddi hyn fel rhan o'i raglen gyffredinol i reoli risg y Gronfa Bensiwn.

Y Pwyllgor Pensiynau sy'n gyfrifol am strategaeth rheoli risg y Gronfa. Sefydlir polisiau rheoli risg i nodi a dadansoddi'r risgiau sy'n wynebu gweithrediadau'r Gronfa Bensiwn, yna eu hadolygu'n rheolaidd i adlewyrchu newidiadau mewn gweithgaredd ac amodau'r farchnad.

### **a) Risg y farchnad**

Risg y farchnad yw'r risg o golledion yn sgil amrywiad ym mhrisiau ecwiti a nwyddau, llog, cyfraddau cyfnewid arian tramor a gwasgariad credyd. Mae'r Gronfa'n agored i risg y farchnad yn sgil ei weithgareddau buddsoddi, yn enwedig drwy'r ecwiti mae'n eu dal. Mae lefel y risg yn dibynnu ar amgylchiadau'r farchnad, disgwyliadau o ran prisiau yn y dyfodol, newidiadau mewn enillion a'r gymysgedd o asedau.

Nod strategaeth rheoli risg y Gronfa yw adnabod a rheoli risgiau'r farchnad i'r Gronfa o fewn paramedrau derbyniol, gan sicrhau'r enillion buddsoddiad gorau posibl.

Yn gyffredinol, rheolir anweddolrwydd gormodol yn risg y farchnad drwy amrywio'r portffolio yn ddaearyddol ac o ran sectorau diwydiant a gwarantau unigol. I leihau risg y farchnad, mae'r Gronfa a'i ymgynghorwyr buddsoddi'n monitro cyflwr y farchnad a dadansoddiadau meincnod yn briodol.

Mae'r Gronfa'n rheoli'r risgiau hyn mewn dwy ffordd:

- mae pa mor agored yw'r Gronfa i risg y farchnad yn cael ei fonitro drwy ddadansoddi ffactorau risg i sicrhau bod y risg yn parhau o fewn lefelau goddefol;
- mae pa mor agored yw'r Gronfa i risgiau penodol yn cael ei gyfyngu drwy bennu risgiau penodol goddefol ar gyfer buddsoddiadau unigol.

### **Risg prisiau eraill**

Mae risg prisiau eraill yn cynrychioli'r risg y bydd gwerth offeryn ariannol yn amrywio o ganlyniad i newid ym mhris y farchnad (ac eithrio'r risgiau sy'n codi o risg cyfradd llog neu risg cyfradd cyfnewid arian tramor), boed y newidiadau'n cael eu hachosi gan ffactorau sy'n benodol i'r offeryn unigol neu'rsawl a'i cyflwynodd neu ffactorau sy'n effeithio ar bob offeryn o'r fath yn y farchnad.

Mae'r Gronfa'n agored i risg prisiau cyfranddaliadau. Mae rheolwyr buddsoddi'r Gronfa'n lliniaru'r perygl pris hwn trwy amrywio a dewis gwarantau ac offerynnau ariannol eraill sy'n cael eu monitro gan y Cyngor i sicrhau ei fod o fewn y cyfyngiadau a nodir yn strategaeth buddsoddi'r Gronfa.

## NODYN 17 – NATUR A GRADDDFA'R RISGIAU SY'N CODI O OFFERYNNAU ARIANNOL (parhad)

### Risg prisiau eraill – dadansoddiad sensitifrwydd

Yn dilyn dadansoddiad o ddata hanesyddol a'r enillion ar fuddsoddiadau a ddisgwylir yn ystod y flwyddyn ariannol, mewn ymgynghoriad ag ymgynghorwyr buddsoddi'r Gronfa, mae'r Cyngor wedi pennu bod y newidiadau a ganlyn mewn risg pris y farchnad yn rhesymol bosib ar gyfer cyfnod adrodd 2020/21 a 2021/22.

Math o ased	Symudiad posib y farchnad (+/-)	
	31 Mawrth 2021	31 Mawrth 2022
	%	%
Ecwiti DU	16.7	19.9
Ecwiti Byd-Eang	17.4	20.1
Ecwiti Marchnadoedd sy'n datblygu	22.1	27.0
Ecwiti Preifat	28.5	31.2
Bondiau Dychwelyd Absoliwt	2.1	2.8
Isadeiledd	21.0	14.6
Eiddo	14.2	15.0
Credyd Amrywiol	6.2	7.4
Arian	0.3	0.3
<b>Cronfa Gyfan</b>	<b>11.7</b>	<b>14.3</b>

Mae'r newid posibl a ddatgelir uchod yn gyson a un symudiad gwyriad safonol yn y newid yng ngwerth yr asedau dros y tair blynedd ddiweddaraf. Mae cyfanswm newid posibl y gronfa yn ystyried y berthynas disgwyliedig rhwng y gwahanol ddosbarthiadau o asedau a ddangosir, yn seiliedig ar gyfnewidioldeb sylfaenol a chydberthynas yr asedau, yn unol a theori portffolio amrywiant cymedrig.

## NODYN 17 – NATUR A GRADDDFA'R RISGIAU SY'N CODI O OFFERYNNAU ARIANNOL (parhad)

Pe byddai pris buddsoddiadau'r Gronfa ar y farchnad wedi cynyddu/gostwng yn unol â'r uchod, byddai'r newid ym mhreis y farchnad yr asedau net sydd ar gael i dalu buddion wedi bod fel a ganlyn:

<b>Math o ased</b>	<b>Gwerth fel ar 31 Mawrth 2022 £'000</b>	<b>Canran newid %</b>	<b>Gwerth ar ôl cynnydd £'000</b>	<b>Gwerth ar ôl gostyngiad £'000</b>
Ecwiti DU	239,314	19.9	286,937	191,690
Ecwiti Byd-eang	1,431,729	20.1	1,719,508	1,143,952
Ecwiti Marchnadoedd sy'n datblygu	59,802	27.0	75,948	43,655
Ecwiti Preifat*	158,711	31.2	208,228	109,193
Bondiau Dychwelyd Absoliwt	353,857	2.8	363,765	343,949
Isadeiledd*	67,417	14.6	77,260	57,574
Eiddo	252,521	15.0	290,399	214,643
Credyd Amrywiol	197,920	7.4	212,566	183,274
Arian	14,481	0.3	14,525	14,438
Dyledwyr a Chredydwyr	9	0.0	9	9
<b>Cyfanswm asedau sydd ar gael i dal buddion</b>	<b>2,775,761</b>		<b>3,249,145</b>	<b>2,302,377</b>
*Agedau lefel 3	226,128		285,488	166,767

<b>Math o ased</b>	<b>Gwerth fel ar 31 Mawrth 2021 £'000</b>	<b>Canran newid %</b>	<b>Gwerth ar ôl cynnydd £'000</b>	<b>Gwerth ar ôl gostyngiad £'000</b>
Ecwiti DU	211,625	16.7	246,966	176,283
Ecwiti Byd-eang	1,345,827	17.4	1,580,001	1,111,653
Ecwiti Marchnadoedd sy'n datblygu	67,178	22.1	82,025	52,332
Ecwiti Preifat*	165,423	28.5	212,568	118,277
Bondiau Dychwelyd Absoliwt	307,181	2.1	313,632	300,730
Isadeiledd*	46,220	21.0	55,926	36,514
Eiddo	194,581	14.2	222,211	166,950
Credyd Amrywiol	177,134	6.2	188,116	166,152
Arian	12,282	0.3	12,318	12,245
Dyledwyr a Chredydwyr	678	0.0	678	678
<b>Cyfanswm asedau sydd ar gael i dal buddion</b>	<b>2,528,129</b>		<b>2,914,441</b>	<b>2,141,814</b>
*Agedau lefel 3	211,643		268,494	154,791

### Risg cyfraddau llog

Mae'r Gronfa'n buddsoddi mewn asedau ariannol yn bennaf er mwyn cael enillion ar fuddsoddiadau. Mae'r buddsoddiadau hyn yn agored i risgiau cyfraddau llog, sy'n cynrychioli'r risg y bydd gwerth teg llif arian offeryn ariannol yn y dyfodol yn amrywio yn sgil newidiadau yng nghyfraddau llog y farchnad.

Mae cyfradd llog y Gronfa'n cael ei monitro'n gyson, yn unol â strategaeth rheoli risg y Gronfa, yn cynnwys monitro pa mor agored ydyw i'r cyfraddau llog ac asesiad o'r gwir gyfraddau llog yn erbyn y meincnodau perthnasol.

## NODYN 17 – NATUR A GRADDDFA'R RISGIAU SY'N CODI O OFFERYNNAU ARIANNOL (parhad)

Gweler pa mor agored yn uniongyrchol yw'r Gronfa i newidiadau mewn cyfraddau llog fel ar 31 Mawrth 2021 a 31 Mawrth 2022 isod. Mae'r ffigyrau isod yn cyflwyno'r gyfradd llog yn seiliedig ar werth teg yr asedau ariannol gwaelodol:

Math o ased	Fel ar 31 Mawrth 2021	Fel ar 31 Mawrth 2022
	£'000	£'000
Arian a chyfwerthoedd arian	12,136	14,178
Balansau arian parod	146	303
Cronfa Incwm Sefydlog	484,315	551,777
<b>Cyfanswm</b>	<b>496,597</b>	<b>566,258</b>

### Dadansoddiad sensitifwydd risg cyfraddau llog

Mae'r Gronfa yn cydnabod y gall cyfraddau llog amrywio ac effeithio ar incwm i'r Gronfa a gwerth yr asedau net sydd ar gael i dalu buddion. Mae newid 1% mewn cyfraddau llog yn gyson â lefel y sensitifwydd a ddefnyddiwyd fel rhan o strategaeth rheoli risg y Gronfa. Mae'r dadansoddiad isod yn rhagdybio bod pob newid yn arall, yn enwedig cyfraddau cyfnewid, yn parhau'n gyson, ac mae'n dangos yr effaith yn ystod y flwyddyn ar yr asedau net sydd ar gael i dalu buddion o newid o +/- 1% mewn cyfraddau llog:

Math o ased	Swm cario fel ar 31 Mawrth 2022	Newid yn y flwyddyn yn yr asedau net sydd ar gael i dalu buddion	
		+1%	-1%
		£'000	£'000
Arian a chyfwerthoedd arian	14,178	142	(142)
Balansau arian parod	303	3	(3)
Cronfa Incwm Sefydlog *	551,777	5,518	(5,518)
<b>Cyfanswm y newid yn yr asedau sydd ar gael</b>	<b>566,258</b>	<b>5,663</b>	<b>(5,663)</b>

\* Nid yw newid 1% ar gyfradd llog yn cael effaith uniongyrchol ar warantau llog sefydlog ond mae'n cael effaith rhannol fel y cyfrifir yn y tablau uchod.

Math o ased	Swm cario fel ar 31 Mawrth 2021	Newid yn y flwyddyn yn yr asedau net sydd ar gael i dalu buddion	
		+1%	-1%
		£'000	£'000
Arian a chyfwerthoedd arian	12,136	121	(121)
Balansau arian parod	146	1	(1)
Cronfa Incwm Sefydlog *	484,315	4,843	(4,843)
<b>Cyfanswm y newid yn yr asedau sydd ar gael</b>	<b>496,597</b>	<b>4,965</b>	<b>(4,965)</b>

\* Nid yw newid 1% ar gyfradd llog yn cael effaith uniongyrchol ar warantau llog sefydlog ond mae'n cael effaith rhannol fel y cyfrifir yn y tablau uchod.

Mae'r effaith y byddai newid o 1% mewn cyfraddau llog yn cael ar y llog a dderbyniwyd yn fach iawn gan mai 0.10% oedd cyfartaledd y gyfradd llog a dderbyniwyd ar arian yn ystod y flwyddyn, gan roi cyfanswm llog o £14,183 am y flwyddyn.

## **NODYN 17 – NATUR A GRADDDFA'R RISGIAU SY'N CODI O OFFERYNNAU ARIANNOL (parhad)**

Nid yw cynnydd 1% mewn cyfraddau llog yn effeithio'r llog a dderbynnir ar asedau llog sefydlog ond byddai'n lleihau'r gwerth teg, fel y dangosir yn y tablau uchod. Nid yw newidiadau mewn cyfraddau llog yn effeithio y gwerth arian / arian a'u cyffelyb ond byddai'n effeithio'r llog a dderbynnir ar y balansau. Mae newidiadau i werth teg yr asedau ac incwm a dderbynnir o fuddsoddiadau yn cael effaith ar yr asedau net sydd ar gael i dalu buddion ond fel y nodir uchod nid yw'n cael effaith sylweddol ar y Gronfa.

### **Risg arian tramor**

Mae risg arian tramor yn cynrychioli'r risg y bydd gwerth teg llif arian offeryn ariannol yn y dyfodol yn amrywio yn sgil newidiadau yng nghyfraddau cyfnewid arian tramor. Mae'r Gronfa'n agored i risg arian ar offerynnau ariannol sy'n cael eu cynrychioli mewn unrhyw arian ac eithrio arian swyddogaethol y Gronfa (£DU). Mae'r Gronfa'n dal asedau sy'n cael eu cynrychioli mewn arian ac eithrio £DU.

Mae gan y Gronfa ymrwymadau ecwiti preifat ac isadeiledd mewn arian tramor (€363.2 miliwn a \$88.6 miliwn). Mae'r ymrwymadau hyn yn cael eu tynnu i lawr ar gais y rheolwr buddsoddi dros nifer o flynyddoedd. Gweler yr ymrwymadau cyfredol sy'n aros yn Nodyn 24. Y risg dan sylw yw y bydd y bunt yn wan o'i chymharu â'r ddoler a'r ewro pan fydd yr ymrwymadau'n cael eu tynnu i lawr ac y bydd yn cryfhau pan fo'r Gronfa wedi'i chyllido'n llawn. Mae'r Gronfa wedi bod yn ariannu'r ymrwymadau ers 2005 felly mae'r ymrwymadau wedi'i gydbwyso dros gyfnod maith o amser.

Mae cyfradd cyfnewid arian y Gronfa'n cael ei gyfrifo ar sail anweddolrwydd yr arian tramor fyddai'n effeithio ar werth y buddsoddiadau ac unrhyw arian fyddai'n cael ei ddal yn yr arian tramor hynny.

### **Risg arian tramor – dadansoddiad sensitifrwydd**

Yn dilyn dadansoddiad o ddata hanesyddol mewn ymgynghoriad ag ymgynghorwyr buddsoddi'r Gronfa, mae'r anweddolrwydd sy'n gysylltiedig â newidiadau mewn cyfraddau cyfnewid arian tramor wedi cael eu cyfrifo wrth ddefnyddio anweddolrwydd hanesyddol yr arian tramor a'r symiau cymharol ym muddsoddiadau'r Gronfa.

Y gwyrriad safonol disgwylidig l blwyddyn ar gyfer un arian tramor unigol ar 31 Mawrth 2022 yw 9.5%. Y gyfradd gyfatebol ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2021 oedd 9.8%. Mae'r dadansoddiad hwn yn tybio bod yr holl amrywiadau eraill, yn enwedig cyfraddau llog, yn aros yn gyson.

## NODYN 17 – NATUR A GRADDDFA'R RISGIAU SY'N CODI O OFFERYNNAU ARIANNOL (parhad)

Mae'r tablau isod yn dangos dadansoddiad o ddatguddiad y Gronfa at arian tramor unigol fel ar 31 Mawrth 2022 ac ar ddiwedd y flwyddyn ariannol cynt:

Agored i newidiadau mewn arian tramor – math o ased	Swm cario fel ar 31 Mawrth 2022 £'000	Newid yn y flwyddyn yn yr asedau net sydd ar gael i dalu buddion	
		Gwerth ar gynnydd £'000	Gwerth ar leihad £'000
Ecwiti Byd-eang	1,431,729	1,567,744	1,295,716
Ecwiti Marchnadoedd sy'n datblygu	59,802	65,483	54,120
Ecwiti Preifat	158,711	173,788	143,633
Bondiau Dychwelyd Absoliwt	353,857	387,473	320,240
Isadeiledd	67,417	73,822	61,013
Credyd Amrywiol	197,920	216,722	179,118
<b>Cyfanswm y newid yn yr asedau sydd ar gael</b>	<b>2,269,436</b>	<b>2,485,032</b>	<b>2,053,840</b>

Agored i newidiadau mewn arian tramor – math o ased	Swm cario fel ar 31 Mawrth 2021 £'000	Newid yn y flwyddyn yn yr asedau net sydd ar gael i dalu buddion	
		Gwerth ar gynnydd £'000	Gwerth ar leihad £'000
Ecwiti Byd-eang	1,345,827	1,477,718	1,213,936
Ecwiti Marchnadoedd sy'n datblygu	67,178	73,762	60,595
Ecwiti Preifat	165,423	181,634	149,211
Bondiau Dychwelyd Absoliwt	307,181	337,285	277,077
Isadeiledd	46,220	50,750	41,690
Credyd Amrywiol	177,134	194,493	159,775
Eiddo	0	0	0
<b>Cyfanswm y newid yn yr asedau sydd ar gael</b>	<b>2,108,963</b>	<b>2,315,642</b>	<b>1,902,284</b>

### b) Risg credyd

Mae risg credyd yn cynrychioli'r risg y bydd gwrth barti i drafodion neu offeryn ariannol yn methu â gwireddu goblygiad ac yn creu colled ariannol i'r Gronfa o ganlyniad i hynny. Yn gyffredinol, mae gwerth buddsoddiadau ar y farchnad yn adlewyrchu asesiad o gredyd wrth eu prisio ac felly darperir ar gyfer y risg o golled yng ngwerth cario asedau ariannol ag ymrwymadau'r Gronfa.

Yn ei hanfod, mae portffolio buddsoddi cyfan y Gronfa'n agored i ryw fath o risg credyd. Fodd bynnag, mae dewis gwrth bartion, broceriaid a sefydliadau ariannol o ansawdd uchel yn isafu'r risg credyd a allai godi yn sgil methiant i setlo trafodion yn brydlon.

## **NODYN 17 – NATUR A GRADDDFA'R RISGIAU SY'N CODI O OFFERYNNAU ARIANNOL (parhad)**

Gweler isod meincnod ar gyfer y canran o'r cronfeydd a ddelir gan y rheolwyr buddsoddi:

<b>Rheolwr Buddsoddi</b>	<b>Canran o'r Portffolio</b>
BlackRock	29.5%
Emerging Markets Partneriaeth Pensiwn Cymru	2.5%
Global Growth Partneriaeth Pensiwn Cymru	14.0%
Global Opportunities Partneriaeth Pensiwn Cymru	14.0%
Multi Asset Credit Partneriaeth Pensiwn Cymru	7.5%
Absolute Return Bond Partneriaeth Pensiwn Cymru	15.0%
Property (UBS, Threadneedle, Lothbury, BlackRock)	10.0%
Partners Group	7.5%

Mae'r holl fuddsoddiadau a ddelir gan reolwyr buddsoddi'n cael eu dal yn enw'r Gronfa Bensiwn felly, os yw'r rheolwr buddsoddi'n methu, nid yw buddsoddiadau'r Gronfa yn cael eu cyfrif yn rhan o'i asedau.

Cynrychiolir risg credyd contract gan y taliad net neu'r enillion sy'n aros. Mae'r risg weddilliol yn fân yn sgil bolisiau yswiriant amrywiol a ddelir i ymdrin â gwrth bartïon sy'n diffygdlu.

Er mwyn uchafu'r dychweliadau o fuddsoddiadau tymor byr ac adneuron arian parod, mae'r Cyngor yn buddsoddi unrhyw arian gwaged dros dro yn ei gyfrifon banc gydag unrhyw arian gwaged dros ben yng nghyfrifon banc y Gronfa Bensiwn. Telir rhaniad priodol o'r llog a enillir i'r Gronfa Bensiwn a rhennir unrhyw golledion wrth fuddsoddi ar sail yr un gyfran. Oherwydd natur y trefniadau banc, nid yw unrhyw arian gwaged yng nghyfrifon banc y Gronfa Bensiwn yn cael ei drosglwyddo i gyfrifon banc y Cyngor. Am fod y buddsoddiadau tymor byr yn cael eu gwneud mewn enw Cyngor Gwynedd, maent yn dangos yn llawn ar fantolen y Cyngor. Efen y Gronfa Bensiwn o'r buddsoddiadau tymor byr a'r adnau arian ar 31 Mawrth 2022 oedd £14.3m (£12.5m ar 31 Mawrth 2021).

Ni adneuir arian mewn banciau a sefydliadau ariannol oni bai eu bod yn cael eu graddio o ran statws credyd yn annibynnol, a'u bod yn bodloni meini prawf credyd y Cyngor. Yn ogystal, mae'r Cyngor wedi gosod cyfyngiadau ar y ganran uchaf o adneuron y gellir eu gwneud mewn unrhyw ddsbarth o sefydliad ariannol penodol. Hefyd, mae'r Cyngor yn buddsoddi canran a gytunwyd o gronfeydd yn y marchnadoedd arian er mwyn cael buddsoddiadau amrywiol. Mae'r cronfeydd marchnad arian a ddewiswyd oll wedi derbyn statws credyd AAA gan asiantaeth statws credyd blaenllaw.



## **NODYN 17 – NATUR A GRADDDFA'R RISGIAU SY'N CODI O OFFERYNNAU ARIANNOL (parhad)**

Nid yw cyflogwyr y Gronfa'n cael eu hasesu ar hyn o bryd ar gyfer eu statws credyd neu ar gyfer y cyfyngiadau credyd unigol sydd wedi'u gosod. Mae risg yn bodoli na ellir casglu cyfraniadau gan gyflogwyr ble nad oes ganddynt unrhyw aelodau sy'n cyfrannu (e.e. y risg sy'n gysylltiedig â chyflogwyr gyda nifer fechan o aelodau sy'n dewis peidio â chyfrannu), felly mae'r Awdurdod Gweinyddu'n monitro newidiadau mewn aelodaeth bob blwyddyn.

Bydd angen i gyflogwyr newydd sy'n dod yn rhan o'r Gronfa gytuno i ddarparu bond neu gael gwarant i leihau'r risg o golledion ariannol i'r Gronfa yn y dyfodol pe na fyddai'r cyflogwr dan sylw'n medru bodloni ei hymrwymiaid pensiwn pe byddai'n ymadael â'r Gronfa. Fel y dangosir yn Nodyn 25 mae dau gyflogwr wedi darparu bondiau. Bydd unrhyw ymrwymiaid eraill ar y Gronfa yn y dyfodol o ganlyniad i gyflogwr yn ymadael yn cael eu cario gan y Gronfa a'u rhannu dros yr holl gyflogwyr. Gwneir hyn i sicrhau bod y cyfnodau a'r symiau adfer actiwaraid yn cael eu cadw ar lefel y gall cyflogwyr llai ymdopi â hi.

Mae'r risg wedi cynyddu yn sgil dyfarniad cyfreithiol diweddar, fydd o bosib yn pennu na ellir codi cyfraniadau ar gyflogwyr nad oes ganddynt aelodau sy'n cyfrannu dan Reoliadau Gweinyddu'r CPLIL. Fodd bynnag, nid yw'r dyfarniad hwn yn effeithio ar allu'r Gronfa i gasglu cyfraniadau yn dilyn prisiad ymadael dan Reoliad 38(2). Gellir rhoi cyfarwyddyd i'r Actiwari ystyried adolygu'r cyfraddau a'r dystysgrif Addasiadau i gynyddu cyfraniadau cyflogwr dan Reoliad 38 o Reoliadau CPLIL (Gweinyddu) 2008 rhwng y prisiad a gynhelir teirblynyddol.

### **c) Risg hylifedd**

Mae'r risg hylifedd yn cynrychioli'r risg na fydd modd i'r Gronfa fodloni ei oblygiadau ariannol wrth iddynt ddod yn ddyledus. Felly, mae'r Cyngor yn cymryd camau i sicrhau bod gan y Gronfa Bensiwn ddigon o adnoddau arian parod i fodloni ei hymrwymiaid i dalu pensiynwyr ac i fodloni ymrwymiaid buddsoddi.

Mae gan y Cyngor llif arian sy'n ceisio sicrhau bod arian parod ar gael pe bai ei angen. Yn ogystal, mae'r cyfraniadau cyfredol a dderbynnir gan gyflogwyr ac aelodau yn cyfrannu'n llawer mwy na'r hyn a delir allan mewn buddion. Buddsoddir yr arian parod dros ben ac ni ellir ei dalu'n ôl i gyflogwyr. Mae Actiwari'r Gronfa yn sefydlu'r cyfraniadau y dylid eu talu fel y gellir bodloni holl rwymedigaethau'r dyfodol.

Nid oes unrhyw gyfyngiad ar y swm y gall cyfrif banc y Gronfa Bensiwn ei ddal. Dylai'r symiau a ddelir yn y cyfrif hwn fodloni anghenion hylifedd arferol y Gronfa. Mae unrhyw arian dros ben dro yn cael ei fuddsoddi gan y Cyngor yn unol â'r Datganiad Strategaeth Rheoli'r Trysorlys er mwyn darparu incwm ychwanegol i'r Gronfa Bensiwn. Buddsoddir arian parod dros ben yn unol â'r Datganiad Egwyddorion Buddsoddi.

Yn ogystal, mae gan y Gronfa fynediad at gyfleuster gorddrafft trwy drefniadau cyfrifon banc grŵp y Cyngor. Dim ond i fodloni gwahaniaethau amseru tymor byr ar daliadau pensiwn y defnyddir y cyfleusterhwn. Gan mai benthyciadau byrdymor eu natur fyddai'r rhain, ystyrir bod pa mor agored i risg credyd yw'r Gronfa yn hyn o beth yn ddibwys.

## **NODYN 17 – NATUR A GRADDDFA'R RISGIAU SY'N CODI O OFFERYNNAU ARIANNOL (parhad)**

Mae'r Gronfa'n diffinio asedau hylifol fel asedau y gellir eu trosglwyddo'n arian parod o fewn tri mis. Asedau anhylif yw'r asedau fydd yn cymryd cyfnod mwy na thri mis i'w trosglwyddo'n arian parod. Ar 31 Mawrth 2022, roedd gwerth yr asedau anhylif yn £479m, sy'n cynrychioli 17.2% o gyfanswm asedau'r Gronfa (31 Mawrth 2021: £406m, a oedd yn cynrychioli 16.1% o gyfanswm asedau'r Gronfa).

Mae rheolwyr yn paratoi rhagolygon llif arian cyfnodol er mwyn deall a rheoli amseriad llif arian y Gronfa. Mae lefel strategol briodol y balans arian parod i'w ddal yn ffurfio rhan o strategaeth fuddsoddi'r Gronfa.

Mae'r holl rwymedigaethau ariannol ar 31 Mawrth 2022 yn ddyledus o fewn blwyddyn, yn yr un modd ag ar 31 Mawrth 2021.

### **Risg ail ariannu**

Y risg allweddol yw y bydd y Gronfa wedi'i rwymo i ailgyflenwi cyfran sylweddol o'i hofferynnau ariannol pan fo cyfraddau llog yn anffafriol. Nid oes gan y Gronfa unrhyw offerynnau ariannol sydd â risg ail ariannu'n rhan o'i strategaethau rheoli trysorlys a buddsoddi.

## **NODYN 18 – TREFNIADAU CYLLIDO**

Yn unol â Rheoliadau Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol (Gweinyddu) 2013, mae actiwari'r Gronfa yn ymgymryd â phrasiad teirblynyddol er mwyn sefydlu'r gyfradd cyfraniadau i gyflogwyr ar gyfer y tair blynedd i ddod. Cynhaliwyd y prasiad diwethaf fel ar 31 Mawrth 2019 ac mae'r prasiad nesaf yn digwydd 31 March 2022.

### **Disgrifiad o'r Polisi Cyllido**

Amlinellir y polisi cyllido yn Natganiad Strategaeth Cyllido yr Awdurdod Gweinyddu a gafodd ei adolygu fel rhan o brisiad 2019.

Mae elfennau allweddol y polisi cyllido fel a ganlyn:

- sicrhau hydaledd hirdymor y Gronfa dros y tymor hir. Bydd hyn yn sicrhau bod digon o arian ar gael i gwrdd â buddion yr holl aelodau/dibynyddion wrth iddynt ddod yn daladwy.
- sicrhau bod cyfraddau cyfraniadau cyflogwyr yn weddol sefydlog os yw'n rhesymol i wneud hynny.
- lleihau'r cyfraniadau ariannol tymor hir mae'r cyflogwyr yn talu i'r Cynllun drwy adnabod y cysylltiad rhwng asedau a rhwymedigaethau a mabwysiadu strategaeth fuddsoddi sy'n cydbwysu risg ac elw (bydd hyn hefyd yn lleihau'r costau i'w talu gan dalwyr Treth Gyngor).
- i adlewyrchu nodweddion gwahanol y gwahanol gyflogwyr i bennu cyfraddau cyfraniadau drwy gael strategaeth gyllido clir a thryloyw sy'n dangos sut y gall pob cyflogwr gyfarfod a'u rhwymedigaethau dros y blynyddoedd i ddod.
- defnyddio mesurau rhesymol i leihau'r risg i gyflogwyr eraill ac yn benodol i'r rhai sy'n talu'r Dreth Gyngor yn sgil cyflogwyr yn diffygdalu ei rwymedigaethau pensiwn.

Amlinella'r Datganiad Strategaeth Cyllido sut mae'r Awdurdod Gweinyddu yn ceisio cydbwysu'r nodau croestynnol o ddiogelu hydaledd y Gronfa a chadw cyfraniadau cyflogwyr yn sefydlog.

## NODYN 18 – TREFNIADAU CYLLIDO (parhad)

O ran cyflogwyr oedd â chyfamod digon cryf yn ôl yr Awdurdod Gweinyddu, mae cyfraniadau wedi cael eu sefydlogi i fod yn debygol iawn o gyflawni'r targed cyllido dros 17 mlynedd. Defnyddiwyd dull modelu ymrwymadau asedau sy'n dangos os caiff y cyfraddau cyfrannu hyn eu talu a bod newidiadau cyfraniadau yn y dyfodol yn cael eu cyfyngu fel y nodir yn y Datganiad Strategaeth Cyllido, fod yna siawns gwell na 70% o hyd y bydd y Gronfa yn dychwelyd i ariannu'n llawn dros y 17 mlynedd.

### Sefyllfa Gyllido ar adeg y Prisiad Cyllido Ffurfiol Diwethaf

Cynhaliwyd y prisiad actwaraidd mwyaf diweddar dan Reoliad 62 Rheoliadau (Gweinyddol) Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol 2013 ar 31 Mawrth 2019. Datgelodd y prisiad hwn fod asedau'r Gronfa, oedd wedi'u priso'n £2,081 miliwn ar 31 Mawrth 2019, yn ddigon i dalu 108% o'r ymrwymadau (h.y. gwerth cyfredol y buddion ymddeol sydd wedi'u haddo) oedd wedi'u cronni hyd at y dyddiad hwnnw. O ganlyniad, y gwaged ym mhrisiad 2019 oedd £156 miliwn.

Gosodwyd allan cyfraniad pob cyflogwr yn y prisiad, gyda'r nod o gyflawni cyllido llawn o fewn gorwel amser a thebygolrwydd a fesurwyd yn unol â'r Datganiad Strategaeth Cyllido. Cafodd cyfraniadau cyflogwyr unigol am y cyfnod 1 Ebrill 2020 i 31 Mawrth 2023 eu pennu yn unol â pholisi cyllido'r Gronfa fel y nodir yn y Datganiad Strategaeth Cyllido.

### Prif Rhagdybiaethau Actwaraidd a'r Dull a ddefnyddiwyd i Brisio'r Ymrwymadau

Disgrifir y manylion llawn am y dulliau a'r rhagdybiaethau a ddefnyddiwyd yn yr adroddiad priso 2019.

#### Dull

Aseswyd yr ymrwymadau drwy ddefnyddio dull buddion cronodig sy'n ystyried aelodaeth bensiyndwy hyd at y dyddiad priso, ac yn ystyried cynnydd disgwylidig mewn cyflog yn y dyfodol, ymddeoliad neu ddyddiad disgwylidig cynharach o adael aelodaeth bensiyndwy.

#### Rhagdybiaethau

Dilynwyd dull sy'n gysylltiedig â'r farchnad i brisio'r ymrwymadau er mwyn sicrhau cysondeb gyda phrisiad o asedau'r Gronfa yn ôl eu gwerth ar y farchnad.

Roedd y rhagdybiaethau ariannol allweddol a fabwysiadwyd ar gyfer prisiad 2019 fel a ganlyn:

Rhagdybiaethau Ariannol	31 Mawrth 2019
Cyfradd disgownt	3.9%
Cynnydd mewn cyflog	2.6%
Cynnydd mewn pensiwn	2.3%

Y rhagdybiaeth demograffig allweddol oedd yr ystyriaeth a roddwyd i hirhoedledd. Mae'r rhagdybiaethau disgwylidig oes yn seiliedig ar *VitaCurves* y Gronfa gyda gwelliannau yn unol a model CMI 2018, sy'n tybio bod y gyfradd bresennol o welliannau wedi cyrraedd y brig a bydd yn cydgyfeirio at gyfradd hirdymor o 1.25% y flwyddyn. Yn seiliedig ar y rhagdybiaethau hyn, mae'r disgwylidig oes gyfartalog yn y dyfodol i oed 65 fel a ganlyn:

## NODYN 18 – TREFNIADAU CYLLIDO (parhad)

Rhagdybiaethau marwolaeth	Gwryw Blynyddoedd	Benyw Blynyddoedd
Pensiynwyr cyfredol	21.3	23.4
Pensiynwyr y dyfodol (45 oed ym mhrisiad 2019)	22.2	25.1

Mae copïau o adroddiad Prisiad 2019 a'r Datganiad Strategaeth Cyllido ar gael ar wefan y Gronfa Bensiwn [www.cronfabensiwnngwynedd.cymru](http://www.cronfabensiwnngwynedd.cymru)

### Profiad yn ystod y Cyfnod ers 31 Mawrth 2019

Amharwyd marchnadoedd yn ddifrifol gan COVID 19 ym mis Mawrth 2020, ond yn ystod y rhan fwyaf o 2020/21 a 2021/22 fe wnaethant wella'n gryf. Fodd bynnag, oherwydd y rhyfel yn yr Wcrain, roedd marchnadoedd Mawrth 2022 yn arbennig o gyfnewidiol, sy'n effeithio ar werthoedd ar y dyddiad cyfrifo. A bod popeth arall yn gyfartal, mae lefel ariannu'r Gronfa ar 31 Mawrth 2022 yn debygol o fod yn well na'r hyn a adroddwyd yn y prisiad blaenorol ar 31 Mawrth 2019.

Mae'n bwysig nodi bod yr ymarfer prasio cyllid teirblynyddol ffurfiol ar 31 Mawrth 2022 a gallai hyn ddangos darlun gwahanol pan fydd y sefyllfa derfynol yn cael ei datgelu yn adroddiad blynyddol y flwyddyn nesaf. Yn benodol, bydd newidiadau yn aelodaeth y Gronfa, newidiadau mewn enillion buddsoddi gwirioneddol a ragwelir, a newidiadau mewn tybiaethau demograffig yn effeithio ar ganlyniadau'r prisiad. Bydd y Datganiadau Strategaeth Gyllido hefyd yn cael eu hadolygu fel rhan o'r ymarfer prasio cyllid tair blynedd.

## NODYN 19 – GWERTH CYFREDOL ACTIWARAIDD Y BUDDION YMDDEOL SYDD WEDI'U HADDO

Yn ogystal â'r prisiad cyllido teirblynyddol, mae'r actiwari hefyd yn cynnal prisiad o rwymedigaethau'r Gronfa Bensiwn, yn seiliedig ar SCC19 bob blwyddyn gan ddefnyddio'r un data sylfaenol â'r prisiad cyllido wedi'i dynnu ymlaen i'r flwyddyn ariannol gyfredol, gan ystyried y newidiadau yn niferoedd yr aelodau a diweddarau rhagdybiaethau ar gyfer y flwyddyn gyfredol. Nid yw'r gwerthusiad yn cael ei ymgymryd yn yr un modd a ddefnyddir ar gyfer gosod cyfraddau cyfrannu i'r Gronfa, ac nid yw cyfrifon y Gronfa yn ystyried rhwymedigaethau talu pensiynau na buddion eraill yn y dyfodol.

Er mwyn asesu gwerth y buddion yn seiliedig ar hyn, mae'r actiwari wedi diweddarau'r rhagdybiaethau actiwaraidd (gweler isod) o'r rhai a ddefnyddir er dibenion cyllido (gweler Nodyn 18) a hefyd mae wedi'u defnyddio i ddarparu'r adroddiadau SCC19 ac SAA102 ar gyfer cyflogwyr unigol yn y Gronfa. Yn ogystal, mae'r actiwari wedi prasio buddion salwch a marwolaeth yn unol â SCC19.

Roedd gwerth cyfredol actiwaraidd y buddion ymddeol sydd wedi'u haddo ar 31 Mawrth 2021 ac 2022, fel a ganlyn:

Rhagdybiaethau	31 Mawrth 2021 £m	31 Mawrth 2022 £m
Aelodau Gweithredol	1,939	1,929
Aelodau Gohiriedig	631	583
Pensiynwyr	882	818
<b>Cyfanswm</b>	<b>3,452</b>	<b>3,330</b>

## NODYN 19 – GWERTH CYFREDOL ACTIWARAIDD Y BUDDION YMDDEOL SYDD WEDI’U HADDO (parhad)

Fel y nodir uchod, mae’r ymrwymiadau uchod wedi’u cyfrifo’n seiliedig ar SCC19 ac felly maent yn wahanol i ganlyniadau’r prisiad cyllido teirblynyddol a gynhaliwyd yn 2019 (gweler Nodyn 18) gan fod SCC19 yn nodi cyfradd ddisgownt yn hytrach na chyfradd sy’n adlewyrchu cyfraddau’r farchnad.

### Y rhagdybiaethau a ddefnyddiwyd

Defnyddiwyd y tybiaethau ariannol sydd yn cael eu mabwysiadu ar gyfer adroddiad SCC19 yr Awdurdod Gweinyddol fel y ganlyn ac maent yn wahanol ar 31 Mawrth 2021 a 2022. Mae’r actiwari yn amcanu mai effaith y newid mewn tybiaethau i 31 Mawrth 2022 yw i leihau y gwerth presennol actiwaraidd o £281m. Amcanir mai effaith y newid mewn demograffiaeth a hirhoedledd ydi lleihau y gwerth presennol actiwaraidd o £18m.

Rhagdybiaeth	31 Mawrth 2021	31 Mawrth 2022
	%	%
Cyfradd cynnydd mewn pensiwn	2.85	3.20
Cyfradd cynnydd mewn cyflog	3.15	3.50
Cyfradd ddisgownt	2.00	2.70

Mae’r disgwyliad oes ar gyfer y dybiaeth hirhoedledd yn seiliedig ar VitaCurves y Gronfa gyda gwelliannau yn unol â model CMI 2021, gyda phwysiad 0% o ddata 2021 (a 2020), llyfnhau safonol (Sk7), addasiad cychwynnol 0.25% a chyfradd gwella tymor hir o 1.5% y flwyddyn. Yn seiliedig ar y rhagdybiaethau hyn, mae’r disgwyliad oes gyfartalog yn y dyfodol i oed 65 wedi’u crynhoi isod:

	Gwryw	Benyw
	Blynyddoedd	Blynyddoedd
Pensiynwyr cyfredol	21.3	23.7
Pensiynwyr y dyfodol (45 oed ym mhriiad 2019)	22.4	25.7

Mae’r rhagdybiaeth cymudiad yn caniatáu i bensiynwyr y dyfodol dewis cyfnewid pensiwn am arian parod di-dreth ychwanegol o hyd at 50% o gyfyngiadau Cyllid a Thollau EM am wasanaeth cyn Ebrill 2008 a 75% o gyfyngiadau Cyllid a Thollau EM am wasanaeth ar ôl Ebrill 2008.

Mae’r sensitifrwydd ynghylch y prif dybiaethau a ddefnyddiwyd i fesur rhwymedigaethau wedi’u nodi isod:

Sensitifrwydd i’r Rhagdybiaethau am y flwyddyn sy’n gorffen 31 Mawrth 2022	Amcan % y cynnydd mewn rhwymedigaethau	Amcan swm Ariannol £m
0.1% y.f. o gynnydd mewn chwyddiant pensiwn	2	63
0.1% y.f. o gynnydd mewn cyflog	0	8
0.1% y.f. o leihad yn y gyfradd ddisgownt	2	72
I mlynedd o gynnydd yn disgwyliad oes aelod	4	133

## NODYN 20 – ASEDAU CYFREDOL

31 Mawrth 2021 £'000		31 Mawrth 2022 £'000
421	Cyfraniadau sy'n ddyledus – gweithwyr	483
1,402	Cyfraniadau sy'n ddyledus – cyflogwyr	1,597
2,194	Amrywiol ddyledwyr	1,570
<b>4,017</b>	<b>Cyfanswm dyledwyr</b>	<b>3,650</b>
12,136	Arian	14,178
<b>16,153</b>	<b>Cyfanswm</b>	<b>17,828</b>

## NODYN 21 – YMRWYMIADAU CYFREDOL

31 Mawrth 2021 £'000		31 Mawrth 2022 £'000
1,671	Credydwyr amrywiol	1,697
1,542	Buddion sy'n daladwy	1,659
<b>3,213</b>	<b>Cyfanswm</b>	<b>3,356</b>

## NODYN 22 – CYFRANIADAU GWIRFODDOL YCHWANEGOL (AVC)

Mae gwerth y cronfeydd ar y farchnad wedi'i nodi isod:

	Gwerth ar y Farchnad 31 Mawrth 2021 £'000	Gwerth ar y Farchnad 31 Mawrth 2022 £'000
Clerical Medical	4,372	4,670
Utmost Life	193	182
Standard Life	5	5
<b>Cyfanswm</b>	<b>4,570</b>	<b>4,857</b>

Talwyd cyfraniadau AVC yn uniongyrchol i'r rheolwr yma fel a ganlyn:

	2020/21 £'000	2021/22 £'000
Clerical Medical	597	645
<b>Cyfanswm</b>	<b>597</b>	<b>645</b>

## NODYN 23 – TRAFODION PARTÏON CYSYLLTIEDIG

### Cyngor Gwynedd

Cyngor Gwynedd sy'n gweinyddu Cronfa Bensiwn Gwynedd. O ganlyniad, mae perthynas gryf rhwng y Cyngor a'r Gronfa Bensiwn.

Cafodd y Cyngor gostau o £1,318,514 (£1,231,146 yn 2020/21) mewn perthynas â gweinyddu'r Gronfa ac yn dilyn hynny, cafodd ad-daliad am y costau hyn gan y Gronfa. Yn ogystal, y Cyngor yw un o gyflogwyr mwyaf aelodau'r Gronfa a chyfrannodd £27.87m tuag at y Gronfa yn 2021/22 (£25.33m yn 2020/21). Ar ddiwedd y flwyddyn, £0.32m oedd dyled y Cyngor i'r Gronfa yn bennaf mewn perthynasâ llôg a dalwyd ar fuddsoddiadau'r Gronfa Bensiwn a chyfraniadau ar gyfer Mawrth 2022 a £1.31m oedd dyled y Gronfa i'r Cyngor yn bennaf mewn perthynas ag ad-daliadau i'r Cyngor am y costau gweinyddol.

Mae gan Gronfa Bensiwn Gwynedd ddau gyfrif banc a ddelir fel rhan o Grŵp o Gyfrifon Banc Cyngor Gwynedd. Mae'r arian parod dros ben a ddelir yn y Grŵp o Gyfrifon Banc yn cael ei fuddsoddi bob dydd. Ar ddiwedd y flwyddyn ariannol, mae Cyngor Gwynedd yn talu llog i'r Gronfa Bensiwn, yn seiliedig ar falansau dyddiol y Gronfa dros y flwyddyn. Yn ystod 2021/22, derbyniodd y Gronfa log o £14,183 (£88,037 yn 2020/21) gan Gyngor Gwynedd.

### Llywodraethu

Roedd dau aelod o'r Pwyllgor Pensiynau yn derbyn buddion pensiwn o Gronfa Bensiwn Gwynedd yn 2021/22 (yr aelodau pwyllgor P. Jenkins a J.B. Hughes). Yn ogystal, mae aelodau'r pwyllgor S.W. Churchman, R.W. Williams, J.B. Hughes, A.W. Jones, I. Thomas, G. Edwards a S. Glyn yn aelodau gweithredol o'r Gronfa Bensiwn.

Roedd dau aelod o'r Bwrdd Pensiwn yn derbyn buddion pensiwn o Gronfa Bensiwn Gwynedd yn 2021/22 (yr aelodau bwrdd H. E. Jones a S.Warnes). Yn ogystal, mae aelodau Bwrdd A.LI. Evans, O. Richards, H. Trainor a S. E. Parry yn aelodau gweithredol o'r Gronfa Bensiwn.

### Prif Bersonél Rheoli

Cyfarwddwr y Gronfa yw prif bersonél rheoli'r gronfa.

Mae'r cyflog sy'n daladwy i brif bersonél rheoli y gellir ei phriodoli i'r gronfa wedi'i nodi isod:

31/03/2021 £'000		31/03/2022 £'000
	8 Buddion tymor byr	7
	2 Buddion ôl-gyflogaeth	1
10		8

## NODYN 24 – YMRWYMIADAU DAN GONTRACTAU BUDDSODDI

Roedd yr ymrwymadau (buddsoddiadau) cyfalaf sy'n aros ar 31 Mawrth fel a ganlyn:

	<b>Cyfanswm ymrwymadau €'000</b>	<b>Ymrwymiad ar 31 Mawrth 2021 €'000</b>	<b>Ymrwymiad ar 31 Mawrth 2022 €'000</b>
P.G. Direct 2006	19,224	776	0
P.G. Global Value 2006	50,000	3,477	3,477
P.G. Secondary 2008	15,000	1,960	1,960
P.G. Global Value 2011	15,000	2,096	2,096
P.G. Global Infrastructure 2012	40,000	7,019	7,019
P.G. Direct 2012	12,000	1,181	1,181
P.G. Global Value 2014	12,000	1,531	1,531
P.G. Direct Equity 2016	50,000	2,826	2,826
P.G. Global Value 2017	42,000	23,120	17,870
P.G. Global Infrastructure 2018	28,000	21,516	14,379
P.G. Direct Equity 2019	48,000	30,964	18,432
PG Direct Infrastructure 2020	32,000	29,602	24,800
<b>Cyfanswm Ewro</b>	<b>363,224</b>	<b>126,068</b>	<b>95,571</b>
	<b>\$'000</b>	<b>\$'000</b>	<b>\$'000</b>
P.G. Emerging Markets 2011	7,000	1,082	1,082
P.G. Secondary 2015	38,000	17,640	15,740
P.G. Direct Infrastructure 2015	43,600	13,780	9,598
<b>Cyfanswm Doleri</b>	<b>88,600</b>	<b>32,502</b>	<b>26,420</b>

Mae 'PG' uchod yn cyfeirio at y Partners Group, y rheolwr buddsoddi sy'n buddsoddi mewn meysydd 'amgen' (ecwiti preifat ac isadeiledd) ar ran y Gronfa.

Mae'r ymrwymadau hyn yn ymwneud â thaliadau galw sy'n aros ar gronfeydd partneriaethau cyfyngedig heb eu dyfynnu a ddelir yn rhan ecwiti preifat y portffolio. Mae'r symiau a 'elwir' gan y cronfeydd hyn yn afreolaidd o ran eu maint a'u hamseriad dros nifer o flynyddoedd o ddyddiad yr ymrwymiad gwreiddiol.

## NODYN 25 - ASED AU DIBYNNOL

Mae dau o gyflogwyr sy'n gyrff a ganiateir yng Nghronfa Bensiwn Gwynedd yn dal bondiau yswiriant i'w diogelu yn erbyn y posibilrwydd o fethu â bodloni eu goblygiadau pensiwn. Llunnir y bondiau hyn o blaid y Gronfa ac ni wneir taliad ohonynt oni bai bod y cyflogwr yn methu talu.

## NODYN 26 - YMRWYMIADAU DIBYNNOL

Ni nodwyd unrhyw ymrwymadau dibynnol.



## **NODYN 27 - COLLEDION YN SGIL AMHARIADAU**

Nid oes unrhyw golledion yn sgil amhariadau.



CYFARFOD:	<b>PWYLLGOR PENSIYNAU</b>
DYDDIAD:	<b>27 MEHEFIN 2022</b>
TEITL:	<b>CYNLLUN BUSNES PARTNERIAETH PENSIWN CYMRU</b>
PWRPAS:	<b>I gymeradwyo'r Cynllun Busnes</b>
ARGYMHELLIAD:	<b>CYMERADWYO'R CYNLLUN BUSNES</b>
AWDUR:	<b>DELYTH JONES-THOMAS, RHEOLWR BUDDSODDI</b>

---

## **1. CYFLWYNIAD**

Mae Partneriaeth Pensiwn Cymru wedi diweddarau ei Gynllun Busnes ac eisiau derbyn cymeradwyaeth gan y pwyllgorau unigol o fewn y bartneriaeth.

Cafodd y Cynllun Busnes ei gyflwyno i'r Cyd- Bwyllgor Llywodraethu ar gyfer cymeradwyaeth 23ain o Fawrth 2022.

## **2. CYNLLUN BUSNES**

Mae cynllun busnes Partneriaeth Pensiwn Cymru yn manylu ar sut mae'r bartneriaeth yn mynd i gyflawni ei nodau. Mae'r cynllun busnes yn cael ei fonitro'n gyson ac yn cael ei adolygu a'i gytuno'n ffurfiol bob blwyddyn. Pwrpas y cynllun busnes yw:

- Esbonio cefndir a strwythur llywodraethu'r PPC
- Amlinellu'r blaenoriaethau a'r amcanion dros y tair blynedd nesaf
- Amlinellu'r gyllideb ariannol ar gyfer cyfnod y Cynllun Busnes
- Crynhoi Buddsoddiadau ac Amcanion Perfformiad PPC

Ceir wybodaeth o safbwynt marchnata, ariannol a gweithredol, gan amlinellu'r blaenoriaethau ar gyfer y bartneriaeth yn ystod 2022- 2025 a gan sicrhau bod adnoddau'n cael eu dyrannu i gyflawni ei amcanion.

Mae'r Cynllun Busnes ynghlwm ar gyfer eich adolygiad yn Atodiad 1.

## **3. ARGYMHELLIAD**

Bod y Cynllun Busnes yn cael ei gymeradwyo.



# Partneriaeth Pensiwn Cymru

## Cynllun Busnes

### 2022 -2025



# Cynnwys

Cyflwyniad	3
Ynglŷn â Phartneriaeth Pensiwn Cymru	3
Llywodraethu	4
Rheoli Risg	6
Amcanion	7
Credoau	8
Polisïau	9
Cynllun Gwaith	10
Cynllun Hyfforddi	12
Cyllideb	13
Buddsoddiadau a Pherfformiad	14
Manylion Cyswllt	16

# Cyflwyniad

Dyma'r cynllun busnes ar gyfer Partneriaeth Pensiwn Cymru ('y Bartneriaeth'), sy'n cynnwys manylion ynghylch blaenoriaethau'r Bartneriaeth a'r meysydd y bydd yn canolbwyntio arnynt yn 2022/23, 2023/24 a 2024/25. Caiff y cynllun busnes ei fonitro'n barhaus, ac eir ati bob blwyddyn i'w adolygu a'i gymeradwyo'n ffurfiol. Pwrpas y cynllun busnes yw:

- Egluro cefndir a strwythur llywodraethu'r Bartneriaeth
- Amlinellu blaenoriaethau ac amcanion y Bartneriaeth yn y tair blynedd nesaf
- Amlinellu'r gyllideb ariannol ar gyfer cyfnod perthnasol y Cynllun Busnes
- Crynhoi Amcanion Buddsoddi a Pherfformiad y Bartneriaeth

## Ynglŷn â Phartneriaeth Pensiwn Cymru

Sefydlwyd Partneriaeth Pensiwn Cymru yn 2017, ac mae'n drefniant cydweithredol rhwng yr wyth o gronfeydd Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol (Awdurdodau Cyfansoddol) sy'n weithredol drwy Gymru gyfan, ac mae'n un o wyth cronfa gyfun yn genedlaethol. Mae gennym hanes hir a llewyrchus o gydweithio, ac wedi bod yn gwneud hynny ers cyn i'r Llywodraeth gyhoeddi'i gynlluniau ar gyfer cyfuno gronfeydd. Rydym yn ymfalchio yn ein hunaniaeth unigryw fel Cronfa Gyfun – mae ein Hawdurdodau Cyfansoddol yn cynrychioli Cymru gyfan. Oherwydd ein hatebolrwydd democrataidd rydym yn cynnig y gorau o'r sector cyhoeddus o ran llywodraethu cryf a thryloywder.

Mae gennym ddull gweithredu sydd â'r nod o fod yn hyblyg a chyflawni gwerth am arian. Rydym wedi penodi Gweithredwr allanol i'r gronfa ac yn defnyddio ymgynghorwyr allanol er mwyn manteisio ar arbenigwyr o'r radd flaenaf i gynorthwyo wrth weinyddu'r Gronfa Gyfun, ac mae'r rhain yn cynnwys Hyman Robertson a benodwyd yn Ymgynghorydd Trosolwg ar ran y Bartneriaeth. Y Gweithredwr yw Link Fund Solutions, sy'n gweithio mewn partneriaeth â Russell Investments wrth ddarparu rheolaeth effeithiol dros fuddsoddiadau a rhoi sicrwydd o ran perfformiad ffioedd i bob un o'r Awdurdodau Cyfansoddol. Mae gennym weledigaeth gyffredin a chytundeb o ran sut fydd y weledigaeth honno'n cael ei chyflawni, a pha mor sydyn. Dyma wyth Cronfa CPLI (Awdurdodau Cyfansoddol) Partneriaeth Pensiwn Cymru:




# Llywodraethu

Mae Partneriaeth Pensiwn Cymru (PPC) yn gyfrifol am sicrhau bod ei busnes yn cael ei gynnal yn unol â'r rheoliadau a'r canllawiau. Rhaid sicrhau hefyd fod arian cyhoeddus yn cael ei ddiogelu, ei gyfrif yn briodol a'i ddefnyddio'n economaidd, yn effeithlon ac yn effeithiol i sicrhau gwerth am arian. Rydym hefyd yn ymdrechu i gael gwelliant parhaus ac i gydymffurfio gydag arfer orau'r diwydiant.

Mae'r Bartneriaeth yn manylu ar sut mae'n ymdrin â phob agwedd o Lywodraethu drwy ei Chytundeb Rhyng-awdurdod (IAA) sy'n diffinio safonau, rolau a chyfrifoldebau'r Awdurdodau Cyfansoddol, ei Haelodau, Pwyllgorau a'i Swyddogion. Mae'r Cytundeb Rhyng-awdurdod yn cynnwys Cynllun Dirprwyo sy'n amlinellu'r broses gwneud penderfyniadau sy'n ystyried y ddeddfwriaeth bresennol berthnasol. Yn unol â'i chred y dylai llywodraethu da arwain at ddeilliannau uwch i ran-ddeiliaid, mae'r Bartneriaeth wedi rhoi strwythur llywodraethu cadarn ar waith, sydd wedi cael ei ddylunio i:



Mae'r diagram a ganlyn yn dangos beth yw strategaeth llywodraethu'r Bartneriaeth:



Mae'r Awdurdodau Cyfansoddol yn gorwedd ar frig strwythur llywodraethu'r Bartneriaeth. Hwyl sy'n rheoli'r holl weithgareddau a gyflawnir gan y Bartneriaeth ac maent yn parhau yn gyfrifol am gymeradwyo'r Cynllun Busnes, sy'n amlinellu cyllideb a chynllun gwaith y Bartneriaeth, yn ogystal â'i chredoau a'i hamcanion. Mae'r Awdurdodau Cyfansoddol yn ymwneud llawer â holl agweddau strwythur llywodraethu'r Bartneriaeth, tra bod Cydbwyllgor Llywodraethu'r Bartneriaeth a'r Gweithgor Swyddogion yn cynnwys cynrychiolwyr cynghorwyr a swyddogion o'r Awdurdodau Cyfansoddol.

Mae'r Bartneriaeth yn credu y dylai fod yn agored a thryloyw yn ogystal ag ymgysylltu â'i rhan-ddeiliaid allweddol yn rheolaidd. Felly, mae'r Bartneriaeth yn sicrhau y gall y cyhoedd weld cyfarfodydd y Cydbwyllgor Llywodraethu drwy we-ddarllediad byw. Mae papurau'r cyfarfodydd ar gael i'r cyhoedd hefyd. Ar ben hynny, bydd y Byrddau Pensiynau Lleol yn cynnal diwrnodau ymgysylltu yn gyson er mwyn meithrin cyswllt â rhan-ddeiliaid. Mae'r Bartneriaeth yn cydnabod pa mor bwysig yw ei holl ran-ddeiliaid, ac felly mae wedi sefydlu Fframwaith Protocol Ymgysylltu, sy'n pennu'r dulliau ymgysylltu a ganlyn:

Dulliau ymgysylltu ac Amlder:

- |   |                     |
|---|---------------------|
| • Cyfarfod Adolygu'r Berthynas Strategol                        | Dwywaith y flwyddyn |
| • Ymgysylltiad â'r CBLI   | Chwarterol          |
| • Galwadau/Cyfarfodydd Perfformiad Rheolwyr                     | Chwarterol          |
| • Digwyddiadau Hyfforddiant                                     | Chwarterol          |
| • Ymgysylltiad â'r Gweithgor Swyddogion                         | Chwarterol          |
| • Cyfarfodydd bob yn ail Wythnos                                | Bob pythefnos       |
| • Diwrnod Blynyddol i Gyfranddalwyr                             | Blynyddol           |
| • Pwyllgorau Cronfa Bensiwn                                     | Blynyddol           |
| • Diwrnodau Ymgysylltu â Rheolwyr                               | Blynyddol           |
| • Cyfathrebu ag Aelodau   | Blynyddol           |
| • Ymgysylltu â'r Bwrdd Pensiwn                                  | Bob chwe mis        |
| • Ymgysylltu drwy'r wefan a LinkedIn                            | Parhaus             |
| • Holiadur Gofynion ac Uchelgais Blynyddol Awdurdod Cyfansoddol | Blynyddol           |



# Rheoli Risg

Mae Partneriaeth Pensiwn Cymru yn cydnabod ei bod yn wynebu nifer o risgiau, o'u gadael heb eu rheoli, all gyfyngu ar allu'r Bartneriaeth i gyflawni ei hamcanion ac i weithredu er lles gorau ei rhan-ddeiliaid a'i buddiolwyr. Fodd bynnag, mae'r Bartneriaeth hefyd yn deall na ellir lleddfu rhai risgiau'n llwyr ac yn yr achosion hyn mae angen ymdrin â'r risg wrth ei reoli'n weithredol ac yn effeithiol.


Mae rheoli risg yn elfen hanfodol o ymrwymiad y Bartneriaeth i lywodraethu da, mae'r Bartneriaeth wedi datblygu strategaeth risg gadarn, eang a strwythuredig. Bydd y strategaeth hon yn cael ei gwreiddio yn fframwaith llywodraethu'r Bartneriaeth i sicrhau gwell penderfyniadau, gwell deilliannau i ran-ddeiliaid a gwell effeithlonrwydd.

Mae strategaeth risg y Bartneriaeth yn ceisio adnabod a mesur risgiau allweddol a sicrhau bod rheolaethau priodol a gweithdrefnau llywodraethu yn eu lle i reoli'r risgiau hyn. Cred y Bartneriaeth fod natur anwadal i'r risgiau hyn ac y gall difrifoldeb a thebygolrwydd risgiau newid yn sydyn ac yn ddirybudd. I adlewyrchu'r gred hon, mae Polisi Risg y Bartneriaeth wedi cael ei ddatblygu mewn modd lle gellir rhagweld risgiau ac ymdrin â hwy mewn modd cyflym ac effeithiol i leihau colled neu niwed posib i'r Bartneriaeth a'i rhan-ddeiliaid.

I gyflawni ei hamcanion, mae angen i'r Bartneriaeth gynnal gweithgareddau neu fanteisio ar gyfleoedd sy'n ei rhoi mewn risg. Bydd y graddau y gall y Bartneriaeth gydbwyso'r risg a'r adenillion yn ddibynnol ar lwyddiant ei Bolisi Risg. Cyn gwneud penderfyniadau, mae'n hanfodol fod y Bartneriaeth yn deall y risgiau perthnasol ac yn ystyried sut ellir rheoli'r risgiau hyn.

Y risg mwyaf i weithrediad parhaus y Bartneriaeth yw ei gallu i gyflawni ei phrif amcanion. Mae Cynllun Busnes y Bartneriaeth yn fodd ychwanegol i'r Bartneriaeth roi cydnabyddiaeth arbennig i risgiau sy'n peri bygythiad materol i gyflawni ei hamcanion a'r camau sydd eu hangen i reoli'r risgiau hyn.

Yn ystod cyfnod y cynllun busnes hwn bydd y Bartneriaeth yn mynd ati i ddatblygu mecanweithiau, fframweithiau a phrosesau ar gyfer rheoli'r risgiau allweddol a ganlyn:



# Amcanion

Mae'r Bartneriaeth yn falch o gynrychioli'r wyth Awdurdod Cyfansoddol ac yn cydnabod ei dyletswydd i sicrhau bod anghenion a gofynion yr holl ran-ddeiliad yn cael eu diwallu. Mae'r Bartneriaeth, trwy ymgynghoriad â'r wyth Awdurdod Cyfansoddol wedi llunio rhestr o brif amcanion a gellir eu crynhoi fel a ganlyn:

- Darparu trefniadau cyd-fuddsoddi sy'n galluogi i gronfeydd unigol weithredu eu strategaethau buddsoddi eu hunain (pan fo hynny'n ymarferol).
- Cyflawni arbedion costau perthnasol i gronfeydd cyfranogol tra'n gwella neu'n cynnal a chadw perfformiad buddsoddi ar ôl ffioedd.
- Gweithredu trefniadau llywodraethu cadarn i gael trosolwg o weithgarwch y cyd-fuddsoddi.
- Gweithio'n agos gyda Chronfeydd Cyfun eraill i archwilio'r manteision y gall pob rhan-ddeilydd yng Nghymru elwa ohonynt wrth ddefnyddio datrysiadau cyfuno ehangach neu fuddsoddiadau uniongyrchol posib.
- Darparu fframwaith buddsoddi sy'n cyflawni'r deilliannau gorau i'w rhan-ddeiliaid allweddol; yr Awdurdodau Cyfansoddol. Bydd yr Awdurdodau Cyfansoddol yn medru defnyddio'r fframwaith hwn i ddarparu'r deilliannau gorau i Aelodau a Chyflogwyr y Cynllun.

Mae'r wyth Awdurdod Cyfansoddol yn cydnabod fod eu cryfder yn deillio o'r credoau sy'n gyffredin rhyngddynt a'u gallu i gydwethio i gyflawni eu hamcanion cyffredin er lles holl ran-ddeiliaid y Bartneriaeth.

# Credoau

Mae Credoau'r Bartneriaeth yn adlewyrchu natur gydweithredol a gwerthoedd cyffredin yr Awdurdodau Cyfansoddol, maent fel a ganlyn:

- Rôl y Bartneriaeth yw hwyluso a darparu llwyfan cyd-fuddsoddi fel cyfrwng i weithredu ddiddordebau'r Awdurdodau Cyfansoddol.
- Dylai llywodraethu da arwain at ddeilliannau uwch i ran-ddeiliaid y Bartneriaeth
- Mae cydweithredu mewnol rhwng yr Awdurdod Lletya a'r Awdurdodau Cyfansoddol yn hanfodol i gyflawni amcanion y Bartneriaeth. Gall cydweithio allanol hefyd fod yn fanteisiol wrth ddarparu arbedion costau a gwell deilliannau i ran-ddeiliaid.
- Dylai Buddsoddi Cyfrifol a strategaethau effeithiol i leddfu Risg Hinsawdd, ar y cyd ag ystyried a rheoli materion Amgylcheddol, Cymdeithasol a Llywodraethu, arwain at well deilliannau i ran-ddeiliaid y Bartneriaeth.
- Mae cyfathrebu mewnol ac allanol yn hanfodol i gyflawni amcanion y Bartneriaeth.
- Gall cyflenwyr allanol fod yn fodd cost-effeithiol o wella adnoddau, gallu ac arbenigedd y Bartneriaeth.
- Bydd tryloywder ffioedd a chostau yn cynorthwyo wrth wneud penderfyniadau ac yn gwella deilliannau i'r rhan-ddeiliaid.
- Bydd dysgu, arloesedd a datblygiad parhaus yn gymorth i'r Bartneriaeth a'i Hawdurdodau Cyfansoddol esblygu
- Bydd agwedd hyblyg at strwythur cyfun a dulliau gweithredu'r Bartneriaeth yn galluogi i gronfa gyfun y Bartneriaeth addasu yn y dyfodol a pharhau i ddiwallu anghenion ei rhan-ddeiliaid.


Mae credoau'r Bartneriaeth yn sylfaen i'r fframwaith llywodraethu ac maent wedi cael eu defnyddio i lywio pob un o weithgareddau'r Bartneriaeth a'i phenderfyniadau, gan gynnwys ei hamcanion a'i pholisïau.

# Polisiâu

Cred y Bartneriaeth y dylai llywodraethu da arwain at well deilliannau i ran-ddeiliaid y Bartneriaeth. I gydnabod y gred hon, mae'r Bartneriaeth, mewn ymgynghoriad â'r Awdurdodau Cyfansoddol, wedi datblygu strwythur a fframwaith llywodraethu cadarn a chyfres o bolisiâu llywodraethu. Ym mhob achos, mae polisiâu a gweithdrefnau'r Bartneriaeth wedi cael eu datblygu i un ai gyfrannu neu ychwanegu at weithdrefnau a pholisiâu presennol yr Awdurdodau Cyfansoddol. Mae'r Bartneriaeth yn deall pwysigrwydd llunio a chyfundrefnu ei pholisiâu a'i gweithdrefnau. Mae'r broses hon yn caniatáu i'r Bartneriaeth a'r Awdurdodau Cyfansoddol:



Isod, ceir rhestr o bolisiâu allweddol, cofrestrï a chynlluniau'r Bartneriaeth, a gellir gweld y rhain i gyd ar wefan y Bartneriaeth:



Adolygir dogfennau'r Bartneriaeth hon yn rheolaidd, a bydd y Bartneriaeth yn cynnal asesiadau parhaus i bennu a oes gofyn am bolisiâu, cofrestrï neu gynlluniau ychwanegol. Mae cynllun gwaith y Bartneriaeth yn cynnwys nifer o ddogfennau llywodraethu ychwanegol fydd yn cael eu datblygu yn ystod y tair blynedd nesaf, a bydd y rhain ar gael ar wefan y Bartneriaeth. Mae'r polisiâu'n chwarae rôl hanfodol yn nhrefniadau llywodraethu'r Bartneriaeth ac maent wedi'u llunio gyda'r unig fwriad o ddarparu fframwaith sydd wedi'i gyfundrefnu fydd yn sicrhau bod y Bartneriaeth yn cyflawni ei hamcanion mewn modd effeithiol a thryloyw.

# Cynllun Gwaith

Mae'r tablau isod yn dangos blaenoriaethau ac amcanion allweddol y mae'r PPC yn anelu at eu cwblhau dros y tair blynedd nesaf. Mae'r cynllun gwaith wedi'i rannu'n nifer o adrannau allweddol sydd oll yn hanfodol i lwyddiant parhaus PPC

- **Llywodraethu** - Mae'r Cynllun yn credu bod llywodraethu da yn arwain at ganlyniadau gwell i'w randdeiliaid, felly bydd yn datblygu ei fframwaith llywodraethu ymhellach drwy ddatblygu polisïau, cofrestrau, cynlluniau a chynnal adolygiadau parhaus o'i ddogfennau a'i strwythur llywodraethu presennol.
- **Datblygu Is-Gronfa barhaus** – Hyd yma mae'r Cynllun wedi cyfuno 73% o'i asedau ac mae nifer o is-gronfeydd eraill wrthi'n cael eu datblygu. Bydd y Cynllun yn parhau i ymgynghori â'r Awdurdodau Cyfansoddol i sicrhau bod yr holl asedau addas yn cael eu cyfuno.
- **Gwasanaethau Gweithredwyr** - Mae'r Gweithredwr, ynghyd â'r trydydd partïon y mae'n eu cyflogi ar ran y PPC, yn hanfodol i weithgareddau parhaus y PPC, felly mae darparu gwasanaethau'r Gweithredwr a chyflenwyr trydydd parti yn hanfodol. Daw'r contract gweithredwr presennol i ben ym mis Rhagfyr 2024.
- **Buddsoddiadau ac Adrodd** - Mae'r Cynllun yn cydnabod pwysigrwydd sicrhau bod yr atebion buddsoddi presennol yn parhau i fod yn optimaidd ac yn cyd-fynd â gofynion yr Awdurdod Cyfansoddol, tra hefyd yn cyflawni disgwyliadau enillion buddsoddi'r Awdurdodau Cyfansoddol. Bydd y PPC yn parhau i gyflawni ei ofynion adrodd a bydd yn datblygu adroddiadau pellach, yn ôl yr angen.
- **Cyfathrebu a Hyfforddiant** - Mae'r PPC am sicrhau bod rhanddeiliaid mewnol a phartïon allanol yn ymwybodol o gynnydd y Cynllun ac yn cyhoeddi nifer o adroddiadau a diweddariadau i sicrhau ei fod yn mynd ati'n rhagweithiol i gyfleu ei gynnydd i randdeiliaid. Mae'r rhain i gyd i'w gweld ar wefan PPC.
- **Adnoddau, Cyllideb a Ffioedd** - Mae'r PPC yn cydnabod nad oes digon o adnoddau'n peri risg sylweddol i'w allu i ddarparu fframwaith buddsoddi sy'n cyflawni'r canlyniadau gorau i'w randdeiliaid allweddol, mae'r PPC yn cynnal nifer o adolygiadau i warantu bod ganddo adnoddau addas i gyflawni'r ymrwymiad hwn.

Gwaith i'w gwblhau	2022 - 2023	2023 - 2024	2024 - 2025
<b>Llywodraethu</b>			
Datblygu Polisi Chwythu'r Chwiban PPC	✓		
Datblygu Cynllun Parhad Busnes PPC (gan gynnwys Seiber)	✓		
Datblygu Polisi Cwynion PPC	✓	✓	
Datblygu Polisi Torri Rheolau a Gwallau PPC	✓	✓	
Adolygiad parhaus o'r Cytundeb Rhwng Awdurdodau	✓	✓	✓
Adolygiad blynyddol/bob dwy flynedd o bolisiau a chynlluniau WPP	✓	✓	✓
Adolygiadau chwarterol o'r Gofrestr Risg	✓	✓	✓
<b>Datblygu Is-Gronfa barhaus</b>			
Penodi Dyranwyr Marchnad Breifat	✓	✓	

Lansio Is-gronfeydd Dyledion Preifat a Seilwaith	✓		
Lansio'r Is-Gronfa Ecwiti Preifat	✓		
Lansio Is-Gronfa Ecwitiau Cynaliadwy	✓		
Llunio gofynion Eiddo'r WPP a'r ffordd orau o weithredu cyn lansio'r is-Gronfa	✓	✓	
Adolygu a datblygu mecanwaith i gyfuno unrhyw asedau addas nad ydynt yn cael eu cyfuno		✓	✓
Lansio is-gronfeydd eraill y Farchnad Breifat (i'w gadarnhau)		✓	✓
Ymgynghori â'r Awdurdodau Cyfansoddol ar yr angen am is-gronfeydd pellach	✓	✓	✓
Ystyried cyfleoedd Buddsoddi Lleol	✓	✓	✓
<b>Gwasanaethau Gweithredwyr</b>			
Contract gweithredwr / proses gaffael	✓	✓	✓
Contract Gweithredwr Newydd			✓
Goruchwyllo Gweithredwyr	✓	✓	✓
<b>Buddsoddiadau ac Adrodd</b>			
Cwblhau'r Gofynion o ran Pleidleisio ac Adrodd Ar Ymgysylltu	✓		
Llunio Blaenoriaethau Ymgysylltu a Fframwaith Gweithredu PPC	✓	✓	
Adolygu mandadau'r Is-Gronfa i sicrhau cydnawsedd â Chredoau Buddsoddi Cyfrifol a Risg Hinsawdd PPC	✓	✓	✓
Tasglu ar Adroddiadau Datgeliadau Ariannol sy'n gysylltiedig â'r Hinsawdd (TCFD)	✓	✓	✓
Adroddiadau cod stiwardiaeth	✓	✓	✓
Ystyried adroddiadau ychwanegol sy'n dangos ymrwymiad PPC i Fuddsoddi Cyfrifol	✓	✓	✓
Adrodd perfformiad, craffu a herio parhaus gan y Rheolwr Buddsoddi	✓	✓	✓
Adolygiad blynyddol o Ofynion Tryloywder Costau'r Cynllun	✓	✓	✓
Adolygiad perfformiad blynyddol o Is-gronfeydd PPC (Ecwiti ac Incwm Sefydlog)	✓	✓	✓
Ymgysylltu parhaus ag Awdurdodau Cyfansoddol ynghylch safonau ESG / RI gofynnol a'u huchelgeisiau yn yr hinsawdd	✓	✓	✓
<b>Cyfathrebu a Hyfforddiant</b>			
Llunio Adroddiad Cynnydd Buddsoddi Cyfrifol Blynyddol PPC	✓	✓	✓
Llunio Cynllun Hyfforddi Blynyddol y PPC	✓	✓	✓
Llunio Diweddariad Blynyddol y PPC	✓	✓	✓
Llunio Adroddiad Blynyddol y PPC	✓	✓	✓
<b>Adnoddau, Cyllideb a Ffioedd</b>			
Adolygiad blynyddol o adnoddau a chapasiti	✓	✓	✓
Llunio Cyllideb Flynyddol PPC	✓	✓	✓
Adolygu a Monitro Ffioedd (gan gynnwys Link & Russell)	✓	✓	✓

# Cynllun Hyfforddi

Yr arfer orau yw i staff y Bartneriaeth gael gwybodaeth a dealltwriaeth briodol ynghylch:

- y rheoliadau a'r marchnadoedd sy'n gysylltiedig â phensiynau;
- cyd-fuddsoddi Cronfeydd Pensiwn Llywodraeth Leol; a
- chyfleoedd buddsoddi perthnasol.

Lluniwyd cynllun hyfforddiant y Bartneriaeth i ategu cynlluniau hyfforddiant cyfredol yr Awdurdodau Cyfansoddol. Bydd anghenion hyfforddiant ar y lefel leol yn dal i gael sylw gan Awdurdodau Cyfansoddol, tra bydd cynllun hyfforddi'r Bartneriaeth yn cynnig hyfforddiant sy'n berthnasol i weithgareddau'r Bartneriaeth o ran cyfuno cronfeydd.

Dylai staff y Bartneriaeth feithrin gwybodaeth a dealltwriaeth ddigonol i sicrhau y medrant gyflawni y dyletswyddau sy'n gysylltiedig â'r Bartneriaeth. Dylai'r staff hefyd fod yn ymwybodol o fframwaith y Bartneriaeth, ei chredoau, ei pholisïau a'i matrices llywodraethu, ynghyd â'r broses benderfynu a'r drefn o gofnodi penderfyniadau.

I gynorthwyo staff y Bartneriaeth, bydd yr Awdurdod Lletya yn trefnu sesiynau hyfforddiant chwarterol i ymdrin â'r prif feysydd megis buddsoddi, gweinyddu, anghenion rheoleiddio, canllawiau'r Llywodraeth a datblygiadau'r farchnad. Yn bennaf, bydd digwyddiadau hyfforddiant y Bartneriaeth yn canolbwyntio ar ddiwallu anghenion hyfforddiant aelodau'r Gweithgor Swyddogion a'r Cydbwyllgor Llywodraethu; fodd bynnag, anogir Awdurdodau Cyfansoddol i wahodd Cadeiryddion eu Pwyllgorau Pensiwn, yn ogystal â chynrychiolwyr y Byrddau Pensiwn, os ydynt yn credu y byddai'r hyfforddiant o fudd i'r unigolion hyn.

Rydym wedi nodi isod restr o bynciau hyfforddi y bydd yr Awdurdod Lletya yn trefnu hyfforddiant ar eu cyfer yn ystod blwyddyn ariannol 2022/2023. Mae pynciau hyfforddi PPC yn seiliedig ar flaenoriaethau amserol cyfredol PPC ac o ddadansoddiad o holiadur gofynion hyfforddi WPP/ymatebion asesu, a gwblhawyd gan aelodau'r Cyd-bwyllgor Llywodraethu ('CBLI') a Gweithgor Swyddogion ('GS'). Mae'n bosibl y gallai fod nifer o newidiadau i aelodau ar y Pwyllgorau Pensiwn unigol yn dilyn etholiadau'r cyngor ym mis Mai 2022 ac mae hyn hefyd wedi bod yn ffactor wrth bennu pynciau hyfforddi eleni.

## Gwybodaeth am Gynnyrch

- Dosbarthiadau Asedau'r Farchnad Breifat - rôl y Dyrannwr
- Ecwitiâu Cynaliadwy Gweithredol

## Gwybodaeth am y Pŵl

- Llywodraethu a Gweinyddu
- Rolau a Chyfrifoldebau

## Buddsoddiad Cyfrifol

- Beth mae RI yn ei olygu i'r PPC
- Cod Stiwardiaeth ac Adrodd TFCD

## Deall y Farchnad

- Cynnydd Cronfeydd Cynlluniau Pensiwn Llywodraeth Leol eraill a gyfunwyd
- Cyfleoedd i Gydweithio

# Cyllideb

Mae'r tabl isod yn nodi cyllideb y Bartneriaeth ar gyfer y tair blynedd nesaf.

	2022-23	2023-24	2024-25
	£'000	£'000	£'000
Awdurdod Lletya *	191	196	200
Ymgynghorwyr Allanol *	1,206	1,168	1,130
<b>CYFANSWM i'w ail-godi</b>	<b>1,397</b>	<b>1,364</b>	<b>1,330</b>
Gwasanaethau Gweithredwr / Dyranwr **	33,319	36,651	40,316
<b>CYFANSWM i'w ddidynnu o Werth Net yr Asedau</b>	<b>33,319</b>	<b>36,651</b>	<b>40,316</b>

*\*Ariennir costau'r Awdurdod Lletya a'r Ymgynghorydd Allanol gan bob un o wyth Awdurdod Cyfansoddol y Bartneriaeth yn gyfartal, ac fe ail-godir y costau hyn yn flynyddol.*

*\*\*Mae'r costau Gwasanaethau Gweithredwr / Dyranwr yn seiliedig ar gyfran pob Awdurdod Cyfansoddol fel canran o asedau'r Bartneriaeth (sydd ym meddiant y Gweithredwr) ac fe'u didynnir yn uniongyrchol o Werth Net Asedau'r Awdurdod Cyfansoddol (sydd ym meddiant y Gweithredwr).*




# Buddsoddiadau a Pherfformiad

Cyfanswm asedau Awdurdodau Cyfansoddol y Bartneriaeth yw tua £21.6 biliwn (fel yr oedd hi ar 31 Mawrth 2021). Mae buddsoddiadau goddefol yr Awdurdodau Cyfansoddol yn gorwedd yn y Gronfa Gyfun i bob pwrpas, ond maent yn aros ym meddiant yr awdurdodau perthnasol ar ffurf polisïau yswiriant.

Mae'r Gweithgor Swyddogion yn derbyn adroddiadau perfformiad pob chwarter, pob chwe mis a phob blwyddyn, ac mae'r Grŵp yn adolygu a herio perfformiad y Rheolwyr Buddsoddiadau ar ran y Bartneriaeth. Mae'r Bartneriaeth yn cynnal diwrnodau ymgysylltu â rheolwyr yn flynyddol, a defnyddir y rhain i herio rheolwyr a hwyluso ymgysylltu ag Aelodau Pwyllgorau a Byrddau Pensiwn yr Awdurdodau Cyfansoddol, a Rheolwyr Buddsoddiadau'r Bartneriaeth. Bydd yr Awdurdodau Cyfansoddol hefyd yn gwneud eu dadansoddiadau lleol eu hunain o berfformiad buddsoddiadau'r Bartneriaeth, a bydd hynny'n golygu y bydd rheolwyr yn bresennol mewn cyfarfodydd Pwyllgorau Pensiynau. Mae'r isod yn amlinellu Is-gronfeydd y Bartneriaeth ar hyn o bryd.


## Is-gronfeydd Ecwiti



\* Gwerth y portffolios ar y dyddiad lansio

Is-gronfa	Meincnod perfformiad	Cronfeydd Cyfranogol	Rheolwyr Buddsoddi Sylfaenol	Dyddiad Lansio
Twf Byd-eang	MSCI ACWI ND	Rhondda Cynon Taf, Gwynedd, Caerdydd a Phowys	Baillie Gifford, Veritas a Pzena	Chwefror 19
Cyfleoedd Byd-eang	MSCI ACWI ND	Abertawe, Torfaen, Gwynedd, Rhondda Cynon Taf, Caerdydd a Chlwyd	Morgan Stanley, Numeric, Sanders, Jacobs Levy, SW Mitchell, NWQ, Nissay ac Oaktree	Chwefror 19
Cyfleoedd y DU	FTSE All Share	Caerdydd a Thorfaen	Majedie, Lazard, Baillie Gifford, Ninety-One, J O Hambro a Liontrust	Medi 19
Marchnadoedd Datblygol	MSCI Marchnadoedd Datblygol	Caerdydd, Clwyd, Gwynedd a Torfaen	Artisan, Bin Yuan, Barrow Hanley, Axiom, Numeric ac Oaktree	Hydref 21

## Is-gronfeydd Incwm Sefydlog



\* Gwerth y portffolios ar y dyddiad lansio

Is-gronfa	Meincnod perfformiad	Cronfeydd Cyfranogol	Rheolwyr Buddsoddi Sylfaenol	Dyddiad Lansio
Credyd Byd-eang	Bloomberg Barclays Global Aggregate Credit Index (GBP Hedged)	Caerdydd, Dyfed, Powys a Thorfaen	Western, Metlife, Fidelity a T Rowe Price	Gorffennaf 20
Llywodraeth Byd-eang	FTSE World Government Bond Index (GBP Hedged)	Caerdydd a Thorfaen	Bluebay a Colchester	Gorffennaf 20
Credyd aml-ased	ICE BofA SONIA + 4% y flwyddyn	Caerdydd, Clwyd, Gwynedd, Powys ac Abertawe	ICG, Man GLG, BlueBay, Barings a Voya	Gorffennaf 20
Cronfa Bondiau Adenillion Absoliwt	ICE BofA SONIA + 2% y flwyddyn	Caerdydd, Powys ac Abertawe	Wellington, Putnam, Aegon and Insight	Medi 20
Cronfa Credyd y Deyrnas Gyfunol	ICE BofA ML Eur-Stg plws 0.65%	Rhondda Cynon Taf	Fidelity	Gorffennaf 20

# Manylion Cyswllt

Os oes arnoch angen mwy o wybodaeth am rywbeth yn y cynllun busnes hwn neu rywbeth sy'n gysylltiedig ag ef, mae croeso ichi gysylltu â Phartneriaeth Pensiwn Cymru:

Drwy'r Post – Partneriaeth Pensiwn Cymru

Cyngor Sir Gâr

Adain y Trysorlys a Buddsoddiadau Pensiwn

Neuadd y Sir

Caerfyrddin

SA31 1JP

E-bost – [Partneriaethpensiwncymru@sirgar.gov.uk](mailto:Partneriaethpensiwncymru@sirgar.gov.uk)

Rhif ffôn - (01267) 224136

Gallwch weld rhagor o wybodaeth am y Bartneriaeth a'r newyddion diweddaraf ynglŷn â chynnydd drwy fynd i'r wefan a'r dudalen LinkedIn.

Dyma gyfeiriad y wefan:

<https://www.partneriaethpensiwncymru.org/>



# Eitem 10

CYFARFOD:	<b>PWYLLGOR PENSIYNAU</b>
DYDDIAD:	<b>27 MEHEFIN 2022</b>
TEITL:	<b>RHEOLAETH TRYSORLYS 2021/22</b>
PWRPAS:	<b>Mae'n ofynnol dan God Ymarfer CIPFA i adrodd ar ganlyniadau gwir weithgaredd Rheolaeth Trysorlys y Cyngor</b>
ARGYMHELLIAD:	<b>DERBYN YR ADRODDIAD ER GWYBODAETH</b>
AWDUR:	<b>DELYTH JONES-THOMAS, RHEOLWR BUDDSODDI</b>

---

## **Crynodeb Gweithredol**

Yn ystod y flwyddyn ariannol 2021/22 arhosodd gweithgaredd benthycu'r Cyngor o fewn y cyfyngiadau a osodwyd yn wreiddiol a derbyniwyd £556,000 o log ar fuddsoddiadau sydd yn uwch na'r £433,000 a oedd yn y gyllideb. Ni wnaeth unrhyw fanc yr oedd y Cyngor wedi buddsoddi arian gyda methu â thalu.

### **1. Cyflwyniad**

Cymeradwywyd y Strategaeth Rheolaeth Trysorlys ar gyfer 2021/22 gan y Cyngor llawn ar y 4ydd o Fawrth 2021.

Penderfynwyd yn y Pwyllgor Pensiynau, 25 Mawrth 2021 i ganiatáu i gronfeydd dros ben y Gronfa Bensiwn gael eu cyfuno a'u cyd-fuddsoddi â llif arian cyffredinol y Cyngor ar gyfer blwyddyn ariannol 2021/22.

Mae'r Cyngor wedi benthycu a buddsoddi symiau sylweddol o arian ac felly yn agored i risgiau ariannol gan gynnwys colli symiau sydd wedi cael eu buddsoddi a'r effaith refeniw o newidiadau mewn cyfraddau llog. Felly, mae adnabod, monitro a rheoli risg yn ganolog i Strategaeth Rheolaeth Trysorlys y Cyngor.

Mae'r adroddiad yma yn cymharu gwir berfformiad yn erbyn y strategaeth ar gyfer y flwyddyn ariannol 2021/22 ac yn cyflawni dyletswydd gyfreithiol y Cyngor o dan Ddeddf Llywodraeth Leol 2003 i gymryd ystyriaeth o God CIPFA ag Arweiniad Buddsoddi Llywodraeth Cymru.

## 2. Gweithgaredd Buddsoddi Trysorlys

Cyhoeddodd CIPFA Cod Ymarfer Rheoli'r Trysorlys yn y Gwasanaethau Cyhoeddus a Nodiadau Cyfarwyddyd Traws-Sectoraidd diwygiedig ar 20 Rhagfyr 2021. Mae'r rhain yn diffinio buddsoddiadau rheoli'r trysorlys sy'n deillio o lif arian y sefydliad neu weithgaredd rheoli risg trysorlys sydd yn y pen draw yn cynrychioli balansau y mae angen eu buddsoddi hyd nes y bydd angen yr arian parod i'w ddefnyddio yng nghwrs busnes.

Mae'r Cyngor wedi dal cronfeydd buddsoddi sylweddol, sy'n cynrychioli incwm a dderbyniwyd cyn gwario ynghyd â'r balansau a'r cronfeydd wrth gefn a ddelir. Yn ystod 2021/22, amrywiodd balansau buddsoddi'r Cyngor rhwng £62.9 miliwn a £147.9 miliwn.

### Sefyllfa Buddsoddi Trysorlys

	<b>31.3.21 Balans £m</b>	<b>2021/22 Symudiad £m</b>	<b>31.3.22 Balans £m</b>	<b>31.3.22 Cyfradd %</b>	<b>31.3.22 WAM* (diwrnodau)</b>
Banciau & Cymdeithasau Adeiladu (heb ei ddiogelu)	8.6	14.5	23.1	0.64	24.2
Awdurdodau Lleol	20.0	10.0	30.0	0.52	69.2
Cronfeydd Marchnad Arian (CMA)	26.0	(9.0)	17.0	0.54	1.0
Swyddfa Rheoli Dyledion (DMO)	0.0	18.0	18.0	0.55	16.8
Cronfeydd wedi'i pwlio	8.9	0.9	9.8	4.44	365+
<b>Cyfanswm buddsoddiadau</b>	<b>63.5</b>	<b>34.4</b>	<b>97.9</b>		

\* Cyfartaledd Aeddfedu wedi'i bwysu

Mae Cod Ymarfer CIPFA ac arweiniad y llywodraeth yn gofyn i'r Cyngor fuddsoddi ei arian yn ddarbodus ac i roi sylw i ddiogelwch a hylifedd buddsoddiadau cyn chwilio am y gyfradd uchaf o ddychweliadau neu gynnyrch. Amcan y Cyngor wrth fuddsoddi arian yw ceisio taro cydbwysedd priodol rhwng risg a dychweliadau, lleihau'r risg o achosi colledion o ddiffygion a'r risg o dderbyn incwm buddsoddi isel anaddas.

Mae cyfraddau arian tymor byr hynod o isel wedi bodoli am lawer o'r cyfnod adrodd o 12 mis, sydd wedi bod yn nodweddiadol ers mis Mawrth 2020 pan dorwyd cyfradd y Banc i 0.1%. Mae hyn wedi arwain at incwm gan y Cronfeydd Marchnad yn agos at sero hyd yn oed ar ôl i rai rheolwyr ildio neu ostwng eu ffioedd dros dro. Fodd bynnag, roedd enillion uwch yn dilyn y cynnydd yn y Gyfradd Banc ym mis Rhagfyr, Chwefror a Mawrth. Ar 31 Mawrth 2022, roedd yr incwm ar CMA y Cyngor yn amrywio rhwng 0.51%-0.58%.

Yn yr un modd, arhosodd cyfraddau'r Swyddfa Rheoli Dyledion yn isel iawn i ddechrau gyda chyfraddau'n amrywio o 0% i 0.1%, ond yn dilyn y cynnydd i'r gyfradd

sylfaenol, cynyddodd cyfraddau i rhwng 0.55% a 0.85% yn dibynnu ar aeddfedrwydd y blaendal. Y gyfradd gyfartalog ar adneuon DMO y Cyngor oedd 0.55%.

Mae £9.8m o fuddsoddiadau'r Cyngor yn cael eu dal mewn cronfeydd ecwiti cyfun strategol a chronfeydd eiddo a reolir yn allanol lle mae hylifedd byrdymor yn ystyriaethau llai, a'r amcanion yn eu lle yw incwm refeniw rheolaidd a sefydlogrwydd prisiau hirdymor. Cynhyrchodd y cronfeydd hyn enillion incwm o 4.4%, a chynnydd cyfalaf heb ei wireddu o £0.9m yn y flwyddyn ariannol yma.

Yn y naw mis hyd at fis Rhagfyr adlewyrchwyd gwell teimlad o'r farchnad ym mhriadau ecwiti, eiddo, aml-asedau ac, yn eu tro, yng ngwerth cyfalaf cronfeydd ym mhortffolio'r Cyngor. Fodd bynnag, arweiniodd y rhagolygon o chwyddiant uwch a chynnydd mewn elw bondiau at berfformiad cronfa bondiau tawel. Yn y chwarter Ionawr-Mawrth, y ddwy thema amlycaf oedd polisi ariannol llymach y DU a'r Unol Daleithiau a chyfraddau llog uwch, a goresgyniad milwrol yr Wcrain gan Rwsia ym mis Chwefror, gyda'r olaf yn sbarduno ansefydlogrwydd ac ansicrwydd sylweddol yn y marchnadoedd ariannol.

Yng ngoleuni goresgyniad Rwsia, cysylltodd Arlingclose â rheolwyr cronfeydd CMA a chronfeydd strategol a chadarnhaodd nad oes unrhyw amlygiad uniongyrchol i asedau Rwsiaidd na Belarwseg wedi'i nodi. Roedd datguddiadau anuniongyrchol yn amherthnasol. Dylid nodi na ellir adnabod unrhyw asedau a ddelir gan fanciau a sefydliadau ariannol (e.e. o fenthyciadau i gwmnïau sydd â chysylltiadau â'r gwledydd hynny) o fewn CMA a chronfeydd cyfun eraill yn hawdd nac ag unrhyw sicrwydd gan nad yw'r lefel honno o fanylion gronynnog yn debygol o fod ar gael i reolwyr y gronfa neu Arlingclose yn y tymor byr, os o gwbl.

Oherwydd nad oes gan y cronfeydd hyn dyddiad aeddfedrwydd diffiniedig, ond maent ar gael i'w tynnu'n ôl ar ôl cyfnod rhybudd, adolygir eu perfformiad a'u sefydlogrwydd parhaus wrth gyflawni amcanion buddsoddi tymor canolig i hir y Cyngor yn rheolaidd. Gwneid buddsoddiadau cronfa strategol gan wybod y bydd gwerthoedd cyfalaf yn symud i fyny ac i lawr ar fisoedd, chwarteri a hyd yn oed blwyddyn ond gyda'r hyder y bydd cyfanswm yr enillion dros gyfnod o dair i bum mlynedd yn fwy na llog arian parod.

### Meincnodi Buddsoddiadau

	<b>Sgôr Credyd</b>	<b>Graddfa Credyd</b>	<b>Amlygiad 'Bail-in'</b>	<b>WAM* (diwrnodau)</b>	<b>Cyfradd Dychwelyd</b>
31.03.2021	4.73	A+	63%	25	0.77%
<b>31.03.2022</b>	<b>4.82</b>	<b>A+</b>	<b>54%</b>	<b>31</b>	<b>0.62%</b>
<b>A.LI Tebyg</b>	<b>4.59</b>	<b>A+</b>	<b>46%</b>	<b>52</b>	<b>0.19%</b>
<b>Pob A.LI</b>	<b>4.64</b>	<b>A+</b>	<b>66%</b>	<b>16</b>	<b>0.66%</b>

\* Cyfartaledd Aeddfedu wedi'i bwysu

### 3. Adroddiad Cydymffurfiad

Mae'r swyddog adran 151 yn adrodd bod yr holl weithgareddau rheoli'r trysorlys a gyflawnwyd yn ystod y flwyddyn yn cydymffurfio'n llawn â Chod Ymarfer CIPFA a Strategaeth Rheoli Trysorlys y Cyngor. Mae'r cydymffurfiad gyda chyfyngiadau buddsoddi penodol yn cael ei ddangos yn y tabl isod:

#### Cyfyngiadau Buddsoddi

	2021/22 Uchafswm	31.3.22 Gwir	2021/22 Terfyn	Cydymffurfiwyd
Llywodraeth y DU	£59.8m	£18m	Diderfyn	✓
Awdurdodau lleol ac endidau llywodraeth eraill	£5m	£5m	£10m	✓
Buddsoddiadau a sicrwydd	£0m	£0m	£10m	✓
Banciau (ansicredig)	£5m	£5m	£5m	✓
Cymdeithasau adeiladau (ansicredig)	£0m	£0m	£5m	✓
Darparwyr cofrestredig (ansicredig)	£0m	£0m	£5m	✓
Cronfeydd marchnad arian	£7m	£7m	£10m	✓
Cronfeydd cyfun strategol	£5m	£5m	£10m	✓
Ymddiriedolaethau buddsoddi ystâd real	£0m	£0m	£10m	✓
Buddsoddiadau eraill	£0m	£0m	£5m	✓

### 4. Dangosyddion Rheolaeth Trysorlys

Mae'r Cyngor yn mesur a rheoli ei ddatguddiad i risgiau rheolaeth trysorlys drwy ddefnyddio'r mesuryddion canlynol:

**Diogelwch:** Mae'r Cyngor wedi mabwysiadu mesur gwirfoddol i ddangos ei sensitifrwydd i risg credyd trwy fonitro sgôr credyd cyfartal wedi'i bwysu ar gyfer y portffolio buddsoddi. Caiff hyn ei gyfrifo trwy roi sgôr i bob buddsoddiad a chymryd y cyfartaledd rhifyddol, wedi'i bwysu yn ôl hyd bob buddsoddiad. Mae buddsoddiadau heb ei graddio yn cael sgôr yn seiliedig ar y risg canfydded.

	31.3.22 Gwir	2021/22 Targed	Cydymffurfiwyd
Sgôr credyd cyfartal y portffolio	4.82	Sgôr o 6 neu is	✓

**Hylifedd:** Mae'r Cyngor wedi mabwysiadu mesur gwirfoddol er mwyn mesur ei amlygiad i risg hylifedd trwy fonitro faint o arian sydd ar gael er mwyn gallu cwrdd â thaliadau annisgwyl o fewn cyfnod tri mis dreigl, heb fenthyciadau ychwanegol.

	<b>31.3.22 Gwir</b>	<b>2021/22 Targed</b>	<b>Cydymffurfiwyd</b>
Cyfanswm arian ar gael o fewn 3 mis	£78m	£10m	✓

**Datguddiad Cyfraddau Llog:** Nod y dangosydd hwn yw rheoli pa mor agored yw'r Cyngor i risg cyfraddau llog. Roedd y terfynau uchaf ar risgiau cyfraddau llog a fyngir fel cyfran o'r prif swm net a fenthyciwyd, yn:

	<b>31.3.22 Gwir</b>	<b>2021/22 Terfyn</b>	<b>Cydymffurfiwyd</b>
Terfyn uchaf ar effaith refeniw un flwyddyn o gynnydd o 1% mewn cyfraddau llog	£389,866	£635,000	✓
Terfyn uchaf ar effaith refeniw un flwyddyn o gwmp o 1% mewn cyfraddau llog	£0	£24,000	✓

**Symiau a fuddsoddir am gyfnod hwy na 364 diwrnod:** Pwrpas y dangosydd hwn yw rheoli datguddiad i'r risg o golled allai godi os yw'r Cyngor yn gorfod ad-dalu'r symiau a fuddsoddiwyd yn gynnar. Y cyfyngiadau ar symiau y gellir buddsoddi gydag aeddfedrwydd heibio diwedd y cyfnod oedd:

	<b>2021/22</b>	<b>2022/23</b>	<b>2023/24</b>
Gwir brifswm a buddsoddiwyd heibio diwedd y flwyddyn	£10m	£0	£0
Terfyn ar gyfer prifswm a fuddsoddiwyd heibio diwedd y flwyddyn	£20m	£20m	£20m
<b>Cydymffurfiwyd</b>	✓	✓	✓





<b>Cyfarfod:</b>	Pwyllgor Pensiynau
<b>Dyddiad:</b>	27/06/2022
<b>Teitl:</b>	Polisi Cynrychiolaeth
<b>Pwrpas:</b>	Cymeradwyo y Polisi Cynrychiolaeth newydd
<b>Awdur:</b>	Meirion Jones, Rheolwr Pensiynau
<b>Argymhelliad:</b>	Cymeradwyo'r polisi newydd

## Cyflwyniad

1. Mewn ymateb i'r Adolygiad Llywodraethu Da mae'r gronfa wedi bod yn adolygu ei threfniadau llywodraethu, gan gyfeirio at yr argymhellion a nodir yn yr adolygiad.
2. O ran cynrychiolaeth, yr argymhelliad o'r adroddiad Llywodraethu Da oedd:

"Rhaid i bob cronfa gynhyrchu a chyhoeddi polisi ar gynrychiolaeth aelodau'r cynllun a chyflogwyr sydd ddim yn rhan o'r awdurdod gweinyddu ar ei Phwyllgorau, gan egluro ei hymagwedd at hawliau pleidleisio i bob parti."

## Cefndir

3. Mae Deddf Llywodraeth Leol 1972 yn caniatáu disgresiwn eang i awdurdodau lleol dros benodiadau a dirprwyaethau Pwyllgorau ac felly mae mater cynrychiolaeth ar y Pwyllgor Pensiynau yn parhau i fod yn fater i ddemocratiaeth leol.
4. Mae gan lawer o Bwyllgorau Pensiynau bellach gynrychiolwyr cyflogwyr ac aelodau'r cynllun. Fodd bynnag, mae arfer mewn perthynas ag hawliau bleidleisio yn amrywio.
5. Er y dylai awdurdodau gweinyddol gadw pleidlais fwyafrifol ar bwyllgorau gwneud penderfyniadau er mwyn adlewyrchu eu dyletswyddau statudol, mae arfer gorau yn awgrymu bod rhyw fath o gynrychiolaeth ehangach gan gyflogwyr ac aelodau cynllun ar y Pwyllgor Pensiynau yn ddymunol.

6. Mae'r polisi newydd hwn yn cadarnhau safbwynt y Gronfa mewn perthynas â phenodiadau a dirprwyo'r Pwyllgor yn ogystal â chyfansoddiad y Bwrdd Pensiwn.

### **Polisi Gwynedd**

7. Mae copi o Strategaeth Arfaethedig Cronfa Bensiwn Gwynedd i'w weld yn **atodiad A**.
8. Fe gyflwynwyd y polisi hwn i'r Bwrdd Pensiwn yn eu cyfarfod ar 4/4/2022 ac fe amlygwyd bod y polisi yn cadarnhau safbwynt y Gronfa mewn perthynas â phenodiadau a hawliau dirprwyaeth y Pwyllgor, yn ogystal â chyfansoddiad y Bwrdd Pensiwn. Fe awgrymwyd ychydig o newidiadau i'r polisi, ac mae'r newidiadau hyn wedi'u hadlewyrchu yn y polisi sydd i'w weld isod.
9. Byddem yn gwerthfawrogi cymeradwyaeth y Pwyllgor i fabwysiadu'r polisi yma.



# Polisi Cynrychiolaeth

## Cefndir

Yn unol ag arfer gorau, mae'r Gronfa wedi sefydlu polisi ar gynrychiolaeth aelodau'r cynllun a chyflogwyr nad ydynt yn awdurdodau gweinyddol ar ei Chyrff Llywodraethol (Pwyllgor Pensiynau a'r Bwrdd Pensiynau Lleol) gan fanylu ar ei hymagwedd at gynrychiolaeth a hawliau pleidleisio ar gyfer pob parti.

## Pwyllgor Pensiynau

### Rôl y Pwyllgor Pensiynau

Mae gan Bwyllgor Pensiynau Cyngor Gwynedd gyfrifoldeb dirprwyedig i ymgymryd â rôl y Rheolwr Cynllun yn unol ag Adran 4 o Ddeddf Pensiynau Gwasanaeth Cyhoeddus 2013.

Mae'r Pwyllgor yn gyfrifol am:

- Arfer yr holl swyddogaethau sy'n ofynnol fel Awdurdod Gweinyddu ar gyfer Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol o dan Ddeddf Pensiynau Gwasanaethau Cyhoeddus 2013.
- Cadw at yr egwyddorion sy'n ofynnol gan y Canllawiau Statudol.
- Cadw at God Ymarfer y Rheoleiddwyr Pensiynau (tPR).
- Cyflawni'r dyletswyddau a nodir yng Nghylch Gorchwyl y Pwyllgor Pensiynau fel y manylir arnynt yng Nghyfansoddiad yr Awdurdod Gweinyddol.

Mae aelodau'r Pwyllgor Pensiynau yn atebol am holl weithgareddau'r Gronfa ac yn gyfrifol am sicrhau bod y Gronfa'n cael ei rheoli er budd gorau ei holl gyflogwyr, aelodau a buddiolwyr.


### Aelodaeth y Pwyllgor

Mae aelodaeth y Pwyllgor Pensiynau yn cynnwys:

- Saith aelod etholedig Cyngor Gwynedd sydd wedi eu dyrannu ar sail cydbwysedd gwleidyddol rhwng y gwahanol grwpiau o aelodau etholedig ar y Cyngor Llawn;
- Un aelod etholedig o bob un o'r ddau awdurdod unedol arall o fewn y Gronfa (Cyngor Sir Ynys Môn a Chyngor Bwrdeistref Sirol Conwy).

## AELODAETH Y PWYLLGOR PENSIYNAU

■ Gwynedd ■ Conwy ■ Ynys Mon



Mae aelodau etholedig yn eistedd fel aelodau llawn o'r Pwllgor gyda hawliau dadlau a phleidleisio ar bob mater a gyflwynir.

Ar hyn o bryd nid oes cynrychiolaeth o blith y cyrff a dderbyniwyd nac aelodau'r cynllun er mwyn cadw pwyllgor cymharol fach ar gyfer adolygu perfformiad y gronfa mewn modd effeithiol. Gan fod yr addewid pensiwn wedi'i ddiffinio gan ddeddfwriaeth ar gyfer aelodau'r cynllun, nid yw gweithredoedd y Pwllgor wedi'u hystyried hyd yma i amharu ar eu buddiannau ac felly ni chafwyd unrhyw gynrychiolaeth. Rhoddir cyfle i bob cyflogwr ddylanwadu ar benderfyniadau trwy gyfres o gyfarfodydd anffurfiol â chyflogwyr.

Mae Cadeirydd y Pwllgor Pensiynau yn eistedd ar Gydbwyllgor Llywodraethu (CLI) Partneriaeth Pensiwn Cymru. Mae Cydbwyllgor Llywodraethu Partneriaeth Pensiwn Cymru yn goruchwyllo'r broses o gyfuno buddsoddiadau'r wyth cronfa Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol yng Nghymru. Mae'r CLI yn cyfarfod o leiaf 4 gwaith y flwyddyn ac mae'n cynnwys un aelod etholedig o bob Awdurdod Cyfansoddol.

### Cworwm

Mae'r cworwm ar gyfer y Pwllgor Pensiynau yn gofyn bod o leiaf traean o'r nifer o aelodau pleidleisio ar y pwyllgor yn bresennol. Mae hyn er mwyn sicrhau bod y pwyllgor yn parhau i fod yn wleidyddol gytbwys gan ymdrechu i'r eithaf i sicrhau bod nifer digonol yn bresennol ym mhob cyfarfod i sicrhau cynrychiolaeth briodol.

# Bwrdd Pensiwn

## Rôl y Bwrdd Pensiwn

Rôl y Bwrdd Pensiwn lleol fel y'i diffinnir gan adrannau 5(1) a (2) o Ddeddf Pensiynau'r Gwasanaeth Cyhoeddus 2013, yw:

- Cynorthwyo Awdurdod Gweinyddol Gwynedd fel Rheolwr Cynllun -
  - i sicrhau cydymffurfiaeth â rheoliadau Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol ("CPLIL") ac unrhyw ddeddfwriaeth arall sy'n ymwneud â llywodraethu a gweinyddu'r CPLIL.
  - i sicrhau cydymffurfiaeth â'r gofynion a osodwyd mewn perthynas â'r CPLIL gan y Rheoleiddiwr Pensiynau.
  - mewn materion eraill y gall y rheoliadau CPLIL eu pennu.
- Sicrhau llywodraethu a gweinyddiaeth effeithiol ac effeithlon o'r CPLIL ar gyfer Cronfa Bensiwn Gwynedd.

Bydd y Bwrdd Pensiwn yn sicrhau ei fod yn cydymffurfio'n effeithiol ac effeithlon â'r cod ymarfer ar lywodraethu a gweinyddu cynlluniau pensiwn gwasanaeth cyhoeddus a gyhoeddwyd gan y Rheoleiddiwr Pensiynau. Bydd y Bwrdd Pensiwn hefyd yn helpu i sicrhau bod Cronfa Bensiwn Gwynedd yn cael ei rheoli a'i weinyddu'n effeithiol ac effeithlon ac yn cydymffurfio â'r cod ymarfer ar lywodraethu a gweinyddu cynlluniau pensiwn gwasanaeth cyhoeddus a gyhoeddwyd gan y Rheoleiddiwr Pensiynau. Bydd Rheoliadau'r Cynllun a Rheolwr y Cynllun yn pennu cylch gorchwyl y Bwrdd.

Mae'r Bwrdd wedi'i gyfansoddi o dan Ddeddf Pensiwn y Gwasanaeth Cyhoeddus 2013 a Rheoliadau Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol ( Diwygio ) ( Llywodraethu ) 2014 ac felly nid yw'n ddarostyngedig i ofynion Adran 101 o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972. Nid oes gan y Bwrdd unrhyw gylch gwaith fel corff gwneud penderfyniadau, ond gall wneud argymhellion addas.


## Aelodaeth y Bwrdd

Mae angen cynrychiolaeth gyfartal rhwng cyflogwyr y cynllun ac aelodau'r cynllun. Yn ddarostyngedig i Reoliad 107(5) o Reoliadau Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol 2013 mae'r Bwrdd Pensiwn yn cynnwys 6 aelod ac mae wedi'i gyfansoddi fel a ganlyn:

- 3 chynrychiolydd cyflogwr (un ohonynt yn cynrychioli'r Awdurdod Gweinyddol);
- 3 chynrychiolydd o aelodau'r cynllun.

## AELODAETH Y BWRDD PENSIWN

■ Cyflogwyr ■ Aelodau



Cyn belled â'i bod yn ymarferol rhesymol, bydd ymgais i geisio sicrhau fod y Bwrdd yn cynrychioli ystod grwpiau'r cyflogwr a'r aelodau o fewn y gronfa.

Gofynnir i gyflogwyr a gweithwyr enwebu cynrychiolwyr i'r Bwrdd Pensiwn. Bydd yr Awdurdod Gweinyddu yn trefnu cyfarfod o'r panel i ddethol aelodau'r Bwrdd Pensiwn. Bydd y Panel Penodi yn cynnwys y Swyddog Adran 151, y Swyddog Monitro a'r Aelod Cabinet dros Gyllid. Detholir yr aelodau Bwrdd unigol ar gyfer pob categori ar sail cydbwysedd cyffredinol y profiad a'r sgiliau yn y grŵp.

Pedair blynedd yw cyfnod arferol penodiad i'r bwrdd ac ni fydd cyfyngiad ar y nifer o weithiau y gellir ailbenodi aelod o'r Bwrdd.

Lle penodir Aelod o'r Bwrdd yn rhinwedd ei swydd fel cynrychiolydd cyflogwr neu aelod yna yn syth ar ôl i'r Aelod Bwrdd roi'r gorau i gynrychioli cyflogwyr neu aelodau yn y swyddogaeth honno, caiff ei aelodaeth o'r Bwrdd ei therfynu ar unwaith.

Bydd yr Awdurdod Gweinyddu yn penodi Cadeirydd ac Is-gadeirydd y Bwrdd Pensiwn o blith aelodau'r Bwrdd. Caiff y swyddogaethau eu rhannu, gydag un ohonynt yn cynrychioli'r cyflogwr ac un yn cynrychioli'r aelodau, gan eu cyfnewid bob dwy flynedd.

Rôl y Cadeirydd fydd sicrhau bod holl aelodau'r Bwrdd yn dangos parch dyledus tuag at y broses, fod pob barn yn cael ei chlywed a'i hystyried yn llawn, ac i benderfynu pryd y bydd consensws wedi'i gyrraedd.

Dylai pob aelod o'r Bwrdd geisio mynychu pob cyfarfod o'r bwrdd yn ystod y flwyddyn. Ni chaniateir eilyddion.

Petai aelod o'r bwrdd yn absennol yn gyson o gyfarfodydd y Bwrdd neu hyfforddiant, bydd eu haelodaeth yn cael ei adolygu gan aelodau eraill y Bwrdd ar y cyd â Rheolwr y Cynllun, a gall Rheolwr y Cynllun benderfynu diddymu eu haelodaeth. Mae gan Rheolwr y Cynllun ddisgresiwn i ddiddymu aelodaeth unrhyw aelod o'r Bwrdd os yw'n credu ei bod yn angenrheidiol neu'n briodol i wneud hynny.

Gan nad yw'n gorff sy'n gwneud penderfyniadau, nid oes gan y Bwrdd yr hawl i sefydlu gweithgorau nac is-grwpiau.

## **Cworwm**

Bydd cworwm mewn cyfarfod o'r Bwrdd os yw 3 Aelod o'r Bwrdd yn bresennol, gan gynnwys y Cadeirydd neu'r Is-gadeirydd a rhaid i'r cworwm gynnwys o leiaf un cynrychiolydd cyflogwr ac un cynrychiolydd aelodau.

Bydd gan bob aelod un bleidlais, ond yn ôl yr angen bydd pleidlais fwrw gan y Cadeirydd.

# Eitem 12



<b>Cyfarfod:</b>	Pwyllgor Pensiynau
<b>Dyddiad:</b>	27/06/2022
<b>Teitl:</b>	Strategaeth Gweinyddu Pensiynau
<b>Pwrpas:</b>	Gofyn am gymeradwyaeth y Pwyllgor i fabwysiadu'r Strategaeth Gweinyddu Pensiynau newydd
<b>Awdur:</b>	Meirion Jones, Rheolwr Pensiynau
<b>Argymhelliad:</b>	Cymeradwyo y Strategaeth Gweinyddu Pensiynau

## Cyflwyniad

1. Mewn ymateb i'r Adolygiad Llywodraethu Da mae'r gronfa wedi bod yn adolygu ei threfniadau llywodraethu, gan gyfeirio at yr argymhellion a nodir yn yr adolygiad.
2. Ar hyn o bryd nid oes gan y cynllun Strategaeth Weinyddol. Yr argymhelliad o'r adroddiad Llywodraethu Da oedd:

"Rhaid i bob awdurdod gweinyddu gyhoeddi strategaeth weinyddol."

3. Hyd yn hyn bu'n fater o ddisgresiwn i'r gronfa a yw'n rhoi strategaeth ar waith. Er bod y Rheoliadau CPLIL eu hunain yn nodi'r hyn y mae'n rhaid ei gynnwys mewn unrhyw Strategaeth o'r fath, pe bai cronfa yn dewis cael un, gall dyfnder ac ansawdd y wybodaeth a gynhwysir yn y dogfennau amrywio'n sylweddol.
4. Yn ogystal â chynhyrchu Strategaeth Weinyddu, mae angen sicrhau ei bod yn cael ei chyhoeddi a'i bod yn hygyrch ac yn cyflawni gofynion y Rheoliadau.

## Beth yw amcanion allweddol y strategaeth weinyddol?

5. Prif amcanion y strategaeth hon yw sicrhau:
  - Mae'r Gronfa a Chyflogwyr yn ymwybodol ac yn deall eu rolau a'u cyfrifoldebau o dan y Rheoliadau CPLIL ac wrth gyflawni swyddogaethau gweinyddol
  - Mae'r Gronfa'n gweithredu'n unol â rheoliadau'r CPLIL ac yn cyd-fynd â'r Rheoleiddiwr Pensiynau o ran dangos cydymffurfiaeth a llywodraethu'r cynllun.
  - Mae prosesau cyfathrebu ar waith i alluogi'r Gronfa a Chyflogwyr i ymgysylltu'n rhagweithiol ac yn ymatebol â'i gilydd a phartneriaid eraill.



- Cedwir cofnodion cywir at ddiben cyfrifo hawliau pensiwn a rhwymedigaethau Cyflogwr, gan sicrhau bod yr holl wybodaeth a data yn cael eu cyfathrebu'n gywir, yn amserol ac mewn modd diogel sy'n cydymffurfio.
- Bod gan y Gronfa a chyflogwyr y cynllun sgiliau priodol a bod arweiniad/hyfforddiant yn ei le i ddarparu gwasanaeth o ansawdd uchel a chyfrannu'n effeithiol at yr agenda pensiynau sy'n newid.
- Safonau'n cael eu gosod a'u monitro ar gyfer cyflawni gweithgareddau penodol yn unol â'r Rheoliadau.

### **Beth sydd angen ei gynnwys yn y strategaeth weinyddol?**

6. Mae'r rheoliadau'n nodi y dylid cynnwys yr eitemau canlynol yn y strategaeth weinyddu:
  - gweithdrefnau ar gyfer cysylltu a chyfathrebu rhwng yr awdurdod gweinyddu a chyflogwyr yn y Cynllun
  - sefydlu lefelau perfformiad y disgwylir i'r awdurdod gweinyddol a chyflogwyr eu cyflawni wrth gyflawni eu swyddogaethau yn y Cynllun;
  - gosod targedau perfformiad;
  - Cytuno ar lefelau perfformiad a materion cysylltiedig, neu unrhyw ddulliau eraill sy'n briodol ym marn yr awdurdod gweinyddu;
  - gweithdrefnau sy'n anelu at sicrhau bod yr awdurdod gweinyddu a'r cyflogwyr yn y cynllun yn cydymffurfio â gofynion statudol mewn perthynas â'r swyddogaethau hynny ac ag unrhyw gytundeb ynghylch lefelau perfformiad;
  - gweithdrefnau ar gyfer gwella'r modd y mae'r awdurdod gweinyddu a chyflogwyr yn y cynllun yn cyfathrebu â'i gilydd;
  - unrhyw faterion eraill sy'n codi o'i strategaeth gweinyddu pensiynau y mae'n eu hystyried yn briodol; a
  - unrhyw faterion eraill y mae'n ymddangos i'r awdurdod gweinyddu ar ôl ymgynghori â chyflogwyr yn y cynllun ac unrhyw bersonau eraill y mae'n eu hystyried yn briodol, sy'n addas i'w cynnwys yn y strategaeth honno.

### **Strategaeth Weinyddol Cronfa Bensiwn Gwynedd**

7. Mae copi o Strategaeth arfaethedig Gwynedd i'w weld yn **atodiad A**.
8. Fel rhan o baratoi ar gyfer y prosiect llywodraethu da, rhannwyd copi drafft o'r strategaeth gyda Hymans Robertson er mwyn derbyn adborth.
9. Yn unol â'r argymhelliad Llywodraethu Da, cadarnhawyd bod y Strategaeth Weinyddu yn cyffwrdd â'r meysydd canlynol:
  - Safonau gwasanaeth/ cytundebau lefel gwasanaeth
  - Ymgysylltu a chyfathrebu
  - Bodlonrwydd cwsmeriaid (aelodau a chyflogwyr).
  - Perfformiad cyflogwr
10. Roeddent o'r farn bod y Strategaeth Weinyddol yn bodloni'r holl ofynion cyfredol a'r gofynion ychwanegol hynny sy'n deillio o'r adolygiad Llywodraethu Da:

## Administration Strategy – Full compliance



11. Fe gyflwynwyd y strategaeth hwn i'r Bwrdd Pensiwn yn eu cyfarfod ar 7/3/2022. Yn ystod y drafodaeth nodwyd y sylwadau canlynol gan aelodau:
  - Bod cynnwys y ddogfen yn daclus
  - Ffurf tablau swyddogaeth / tasg a targed perfformiad yn glir a manwl iawn
12. Fe awgrymwyd ychydig o newidiadau i'r polisi, ac mae'r newidiadau hyn wedi'u hadlewyrchu yn y polisi sydd i'w weld isod.
13. Yna, fe anfonwyd gopi o'r strategaeth i gyflogwyr y gronfa ac fe roddwyd 4 wythnos iddynt gyflwyno eu hadborth / sylwadau ar gynnwys y strategaeth. Oni bai am un cwestiwn gan gyflogwr bach, ni dderbyniwyd unrhyw sylwadau neu adborth gan y cyflogwyr, felly rydym yn tybio fod y cyflogwyr yn hapus gyda chynnwys y ddogfen.
14. Byddem felly yn gwerthfawrogi cymeradwyaeth y Pwyllgor i fabwysiadu'r polisi yma.

# Atodiad A

## Strategaeth Gweinyddu Pensiynau

### 1. Cyflwyniad

Dyma Strategaeth Gweinyddu Pensiynau (SGP) Cronfa Bensiwn Gwynedd (Y Gronfa) mewn perthynas â Chynllun Pensiwn Llywodraeth Leol (CPLIL), sy'n cael ei weinyddu gan Gyngor Gwynedd (yr Awdurdod Gweinyddu).

Mae'r CPLIL yn gynllun statudol ac mae wedi'i lywodraethu gan reoliadau. Y rheoliadau presennol sy'n ymwneud â gweinyddiaeth yw Rheoliadau Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol 2013 (fel y'i diwygiwyd).

Mae'r ddolen a ganlyn i wefan "LGPS Regulations and Guidance" y Local Government Association (LGA), yn darparu fersiwn gyfredol o Reoliadau CPLIL 2013, gan gynnwys newidiadau a wnaed ers hynny drwy ddiwygio offerynnau statudol:

[lgpsregs.org/schemeregs/lgpsregs2013.php](http://lgpsregs.org/schemeregs/lgpsregs2013.php)

Mae gofyn i'r Awdurdod Gweinyddu a chyflogwyr y Gronfa gydymffurfio ag unrhyw ddeddfwriaeth sy'n disodli a dilyn unrhyw ganllawiau rheoleiddio neu God Ymarfer a gyflwynwyd gan y Rheoleiddiwr Pensiynau wrth weithredu ei rôl a'i gyfrifoldebau dan y rheoliadau hyn gan ystyried ansawdd, cyfanrwydd a phrydlondeb y data.

## 2. Gofynion rheoleiddio

Y cyd-destun cyfreithiol ar gyfer y Strategaeth hon yw Rheoliad 59 Rheoliadau Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol 2013, sy'n rhoi cyfle i Awdurdodau Gweinyddu ddarparu Strategaeth Gweinyddu Pensiynau.

Gweler isod fanylion y gofynion rheoleiddio hyn:

**59.** - (1) Gall awdurdod gweinyddu baratoi datganiad ysgrifenedig o bolisiau'r awdurdod mewn perthynas â'r fath faterion â'r rhai a grybwyllir ym mharagraff (2), fel yr ystyria'n briodol ("ei strategaeth gweinyddu pensiynau"), a lle y mae'n gwneud hynny, mae paragraffau (3) i (7) yn gymwys.

(2) Y materion yw-

- (a) gweithdrefnau ar gyfer cysylltu a chyfathrebu â chyflogwyr y Cynllun mewn perthynas ag ef fel **awdurdod gweinyddu** ("cyflogwyr ei Gynllun");
- (b) sefydlu lefelau perfformiad y mae disgwyl i'r **awdurdod gweinyddu** a chyflogwyr y Cynllun eu cyflawni wrth weithredu swyddogaethau eu Cynllun drwy -
  - (i) osod targedau perfformiad,
  - (ii) llunio cytundebau ynghylch lefelau perfformiad a materion cysylltiedig, neu
  - (iii) ddulliau eraill fel ag y mae'r **awdurdod gweinyddu** yn ei ystyried yn briodol;
- (c) gweithdrefnau sy'n ceisio sicrhau bod yr **awdurdod gweinyddu** a chyflogwyr ei Gynllun yn cydymffurfio â gofynion statudol mewn perthynas â'r swyddogaethau hyn a chyda cytundeb ynghylch lefelau perfformiad;
- (d) gweithdrefnau ar gyfer gwella'r cyfathrebu gan yr **awdurdod gweinyddu** a chyflogwyr ei Gynllun i'r naill a'r llall am wybodaeth ynghylch y swyddogaethau hyn;
- (e) yr amgylchiadau lle y gall yr **awdurdod gweinyddu** ystyried rhoi rhybudd ysgrifenedig i unrhyw un o gyflogwyr ei Gynllun dan **reoliad 70 (costau ychwanegol sy'n codi o lefel perfformiad cyflogwyr y Cynllun)** gan bod perfformiad anfodddhaol y cyflogwr wrth gyflawni swyddogaethau ei Gynllun pan fo'n cael ei fesur yn erbyn y lefelau perfformiad a sefydlwyd dan yr is-baragraff (b);
- (f) adroddiadau blynyddol sy'n cael eu cyhoeddi gan yr awdurdod gweinyddu yn ymdrin ag -
  - (i) y graddau y mae'r awdurdod hwnnw a chyflogwyr ei Gynllun wedi cyflawni'r lefelau perfformiad a sefydlwyd dan yr is-baragraff (b), a
  - (ii) materion eraill o'r fath sy'n codi o'i strategaeth gweinyddu pensiynau fel yr ystyria'n briodol; ac
- (g) unrhyw faterion eraill sy'n ymddangos i'r **awdurdod gweinyddu** ar ôl ymgynghori â chyflogwyr ei Gynllun ac unrhyw bersonau eraill yr ystyria'n briodol, i fod yn addas i'w cynnwys yn y strategaeth honno.

(3) Rhaid i awdurdod gweinyddu -

- (a) gadw ei strategaeth gweinyddu pensiynau dan adolygiad; a
- (b) gwneud addasiadau fel sy'n briodol yn dilyn newid materol yn ei bolisiau mewn perthynas ag unrhyw rai o'r materion sydd wedi'u cynnwys yn y strategaeth.

(4) Wrth baratoi neu adolygu a diwygio ei strategaeth gweinyddu pensiynau, rhaid i **awdurdod gweinyddu** ymgynghori â chyflogwyr ei Gynllun a phersonau eraill o'r fath yr ystyria'n briodol.

(5) Rhaid i awdurdod gweinyddu gyhoeddi -

- (a) ei strategaeth gweinyddu pensiynau; a
- (b) lle gwneir diwygiadau iddi, y strategaeth fel y'i diwygiwyd.

(6) Lle mae **awdurdod gweinyddu** yn cyhoeddi ei strategaeth gweinyddu pensiynau, neu'r strategaeth honno fel y'i diwygiwyd, rhaid anfon copi ohono i bob un o gyflogwyr ei Gynllun ac i'r Ysgrifennydd Gwladol cyn gynted ag y bo'n ymarferol bosib.

(7) Rhaid i **awdurdod gweinyddu** a chyflogwyr ei Gynllun ystyried y strategaeth gweinyddu pensiynau wrth gyflawni ei swyddogaethau dan y Rheoliadau hyn.

(8) Yn y rheoliad hwn, mae cyfeiriadau at swyddogaethau **awdurdod gweinyddu** yn cynnwys, lle bo hynny'n berthnasol, ei swyddogaethau fel cyflogwr y Cynllun.

Mae'r strategaeth hon yn nodi'r safonau perfformiad a'r arfer gorau y dylai'r Awdurdod Gweinyddu a chyflogwyr y Cynllun anelu i'w cwrdd wrth gyflawni eu swyddogaethau o ran y cynllun. Mae'n cael ei adolygu'n flynyddol a bydd yn cael ei ddiwygio er mwyn adlewyrchu newidiadau i:

- Y Rheoliadau CPLIL
- Polisiâu y penderfynir arnynt gan yr Awdurdod Gweinyddu
- Arferion gweinyddol a weithredir gan y Cynllun a'i gyflogwyr wrth gyflawni ei swyddogaethau

Mae hefyd yn cynnwys atodlen o gostau gweinyddol ychwanegol yn unol â Rheoliad 70 Rheoliadau CPLIL 2013, sy'n darparu sgôp i gronfeydd pensiwn adennill costau lle mae costau ychwanegol yn cronni yn sgil lefel perfformiad cyflogwr. Adroddir am y lefelau perfformiad a gyflawnir gan y Gronfa a chyflogwyr y cynllun;

- fel rhan o'r Adroddiad Gweinyddu Pensiynau ym Mhwyllgor Pensiynau a Buddsoddiadau'r Awdurdod Gweinyddu
- yng nghyfarfodydd Bwrdd Pensiwn Gwynedd
- yn Adroddiad Blynyddol y Gronfa

**70.** - (1) Mae'r rheoliad hwn yn weithredol lle, ym marn awdurdod gweinyddol, ei fod wedi cronni costau ychwanegol y dylid eu hadennill gan **Gyflogwr y Cynllun** yn sgil lefel perfformiad y cyflogwr hwnnw wrth gyflawni ei swyddogaethau dan y Rheoliadau hyn.

(2) Gall yr **awdurdod gweinyddu** roi hysbysiad ysgrifenedig i **gyflogwr y Cynllun yn nodi-**

- (a) rhesymau'r awdurdod gweinyddu dros ffurfio'r farn a grybwyllir ym mharagraff (1);

- (b) y swm y mae'r awdurdod wedi ei bennu **y dylai cyflogwr y Cynllun ei dalu dan reoliad 69(1)(d) (taliadau gan gyflogwyr y Cynllun i awdurdodau gweinyddu)** o ran y costau hynny a'r sail a ddefnyddir i gyfrifo'r swm penodol hwnnw; a
- (c) lle mae'r **awdurdod gweinyddu** wedi paratoi strategaeth gweinyddu pensiynau dan **reoliad 59**, darpariaethau'r strategaeth sy'n berthnasol i'r penderfyniad i roi'r hysbysiad ac i'r materion yn is-baragraffau (a) neu (b).

Mae'r strategaeth yn cael ei chyhoeddi ar wefan y Gronfa ([www.cronfabensiwnngwynedd.cymru](http://www.cronfabensiwnngwynedd.cymru)). Gwneir hyn ar ôl iddi gael ei chymeradwyo'n ffurfiol gan y Pwyllgor Pensiynau a'r Bwrdd Pensiwn yn ei rôl fel Awdurdod Gweinyddu'r Gronfa. Hefyd, cyflwynir copi i'r Ysgrifennydd Gwladol fel sy'n ofynnol yn Rheoliad 59.

### 3. Nodau'r Strategaeth

Nodau'r Strategaeth Gweinyddu Pensiynau yma yw:

- Cefnogi'r ddarpariaeth o wasanaeth pensiwn o ansawdd uchel i aelodau'r Gronfa sy'n cael ei chyflwyno drwy arferion gwaith effeithlon
- Nodi'n glir rolau a chyfrifoldebau perthnasol yr Awdurdod Gweinyddu a chyflogwyr y cynllun
- Sicrhau bod y Gronfa'n gweithredu yn unol â rheoliadau CPLIL a'r Codau Ymarfer a gyflwynwyd gan y Rheoleiddiwr Pensiynau
- Nodi'r safonau ansawdd a pherfformiad sy'n ddisgwyliedig o'r Awdurdod Gweinyddu a chyflogwyr ei gynllun mewn perthynas â'r naill a'r llall
- Hyrwyddo perthnasau gwaith da a gwella effeithiolrwydd rhwng yr Awdurdod Gweinyddu a chyflogwyr ei gynllun er budd aelodau'r Gronfa
- Darparu fframwaith fel bod modd i gostau gweinyddol sy'n ymwneud â thanberfformiad sylweddol cyflogwyr i gael eu talu'n uniongyrchol gan y cyflogwr sy'n gyfrifol, yn hytrach na chael ei rannu ar draws yr holl gyflogwyr yn y Gronfa

Mae cyflwyniad effeithlon buddion y cynllun yn ddibynnol ar gael gweithdrefnau gweinyddol effeithiol yn eu lle rhwng yr Awdurdod Gweinyddu a chyflogwyr y cynllun, yn bennaf trosglwyddo gwybodaeth gywir mewn perthynas ag aelodau'r cynllun, ar yr adeg briodol.

Mae'r strategaeth hon yn nodi lefelau perfformiad disgwyliedig yr Awdurdod Gweinyddu a chyflogwyr y cynllun ac mae'n darparu manylion ynghylch monitro lefelau perfformiad.

Gweithredir y strategaeth o 1 Ionawr 2022 ar ôl ymgynghori â chyflogwyr y Gronfa ac fe barheir i'w hadolygu a'i diweddarau yn ôl yr angen i adlewyrchu newidiadau yn rheoliadau'r cynllun ac yn arferion gwaith y Gronfa.

Hefyd, bydd Cronfa Bensiwn Gwynedd, yn ei rôl o gynorthwyo'r awdurdod gweinyddu i sicrhau gweinyddiad effeithiol ac effeithlon y Cynllun, yn monitro gweithrediad y strategaeth hon.

#### **4. Cadw Cofnodion**

Mae cadw cofnodion yn rhan hanfodol o redeg cynllun megis y CPLL. Mae goblygiad cyfreithiol ar y gronfa a'i chyflogwyr i goladu a chynnal data penodol sy'n allweddol i reoli'r cynllun.

Rhaid i Gronfa Bensiwn Gwynedd gadw cofnodion cywir, cyfredol a hir-dymor, o fewn paramedrau deddfwriaeth diogelu data, i sicrhau y gall lywodraethu a gweinyddu'r Gronfa yn effeithlon i holl aelodau'r cynllun.

Mae cyflogwyr yn darparu'r data sydd ei angen ar y Gronfa a rhaid iddynt sicrhau eu bod yn cwrdd â'u goblygiadau cyfreithiol tuag at y cynllun.

Mae dyletswydd gyfreithiol ar y Gronfa i roi gwybodaeth gyfredol ac amserol i'w haelodau ynghylch eu buddion, ac ni ellir rhoi hwn iddynt heb gael data gan gyflogwyr.



## 5. Datblygu gweinyddiaeth y Gronfa

### i-Connect

Ers 2019, mae'r Gronfa wedi bod yn gweithio tuag at weithredu i-Connect yn llawn. Mae hwn yn fodiwl ychwanegol o lwyfan gweinyddu pensiynau Aquila Heywood. Mae'r modiwl i-Connect yn galluogi i gyflogwyr cynllun y Gronfa awtomeiddio trosglwyddiad data aelodau o'u systemau cyflogres i system gweinyddu pensiynau'r Gronfa (Altair) bob mis.

Drwy sefydlu cyflogwyr cynllun y Gronfa ar i-Connect, bydd y datrysiad effeithlon hwn yn:

- lleihau'r angen i fewnbynnu data sy'n ymwneud â phensiwn, â llaw
- galluogi i ddata gael ei ddilysu yn barhaus a datrys ymholiadau yn fwy amserol
- lleihau'r llwyth gwaith wrth gysoni ac adrodd ar ddiwedd blwyddyn
- sicrhau bod cronfa ddata aelodaeth sefydlog a chywir yn cael ei gynnal a'i gadw
- derbyn data yn unol â'r rheolau statudol gan osgoi'r risg o gamau gweithredu a chosbau ariannol gan y Rheoleiddiwr Pensiynau am dorri'r cyfyngiadau amser deddfwriaethol a gofynion eraill

Mae cynnal cofnodion cyfredol am aelodau yn sicrhau bod cyfraddau cyfraniadau pensiwn cyflogwyr yn cael eu cyfrifo yn gywir a bod gwell gwasanaeth yn cael ei ddarparu i aelodau'r cynllun.

Mae'r strategaeth hon yn gweithredu terfyn amser o 31 Rhagfyr 2021 er mwyn i holl gyflogwyr y cynllun gael cychwyn gweithredu i-Connect a throsglwyddo ei gyflwyniadau data yn fisol.

### Hunan-wasanaeth Aelodau: Fy Mhensiwn Ar-lein

Mae'r Gronfa wedi cyflwyno porthol diogel, ar-lein fel bod modd i aelodau gweithredol, gohiriedig a phensiynwyr weld eu gwybodaeth pensiwn, gwneud nifer o addasiadau i'w data a chwblhau tafluniadau buddion ar-lein.

"Fy Mhensiwn Ar-lein" yw enw'r gwasanaeth ar-lein hwn, ac mae disgwyl y daw'r porthol hwn yn ddull cyfathrebu diofyn y Gronfa gyda'i haelodau.

Bydd y Gronfa yn hyrwyddo'r gwasanaeth hwn i aelodau'r cynllun a chaiff hyn ei adlewyrchu yn Strategaeth Gyfathrebu'r Gronfa. Bydd disgwyl i gyflogwyr gynorthwyo i hyrwyddo'r gwasanaeth "Fy Mhensiwn Ar-lein" ac annog eu gweithwyr sy'n cyfrannu i'r CPLIL i gofrestru ar gyfer y gwasanaeth.

## **6. Rolau a chyfrifoldebau**

Bydd nodau'r strategaeth hon yn cael eu cyflawni drwy:

- roi diffiniad clir o rolau perthnasol cyflogwyr y cynllun a'r Awdurdod Gweinyddu
- gosod safonau gwasanaeth clir a chyflawnadwy ar gyfer y swyddogaethau a wneir gan gyflogwyr y cynllun a'r Awdurdod Gweinyddu
- gosod canllawiau gweithdrefnol clir ar gyfer cyfnewid gwybodaeth yn ddiogel ac yn effeithiol rhwng cyflogwyr y cynllun a'r Awdurdod Gweinyddu
- monitro cyflwyniad y gwasanaeth, adnabod perfformiad gwael a sefydlu llwyfan ar gyfer darparu cefnogaeth i wella perfformiad lle bo'r angen

## 7. Rolau a chyfrifoldebau'r cyflogwr

Y prif gyfrifoldebau ar gyfer y cyflogwr yw:

- **Cyfathrebu'r CPLIL i'r staff sy'n gymwys**
- **Cymhwyso'r cynllun drwy'r casgliad a thalu'r lefelau cywir o gyfraniadau pensiwn**
- **Adrodd am wybodaeth a data i'r Gronfa Bensiwn fel sydd wedi'i nodi yn y strategaeth hon**

Mae cyflawni gweinyddiaeth effeithlon a chost-effeithiol yn ddibynnol ar bartneriaeth cydweithio llwyddiannus rhwng y Gronfa Bensiwn ac unigolion allweddol o fewn neu drwy gynrychioli cyflogwr y cynllun.

Cefnogi a datblygu'r bartneriaeth gydweithio â'r Gronfa; gofynnir i bob cyflogwr ddynodi prif gyswllt i gysylltu â'r Gronfa ynghylch cyfrifoldebau'r cyflogwr yng ngweinyddiaeth y cynllun.

Cyfrifoldebau'r cyflogwr yw sicrhau bod safonau a lefelau'r gwasanaeth wedi'u nodi yn y Strategaeth Gweinyddu yn cael eu cyflawni ac y cydymffurfir â'r cyfrifoldeb rheoleiddio. Mae'r rhan hon yn rhoi amlinelliad cryno o gyfrifoldebau allweddol y cyflogwr, ynghyd â rhestr mwy manwl o gyfrifoldebau pob cyflogwr cynllun sy'n cymryd rhan yn y Gronfa, a'r safonau perfformiad y mae disgwyl i gyflogwyr eu cyflawni fel bod modd i'r Gronfa gyflawni gwasanaeth effeithlon.

### **Crynodeb o ofynion allweddol cyflogwyr**

- Sicrhau bod y safonau a'r lefelau gwasanaeth wedi'u nodi yn y Strategaeth Gweinyddu hon yn cael eu cyflwyno ac y cydymffurfir â'r cyfrifoldeb rheoleiddio. Yn gwyno, y prif elfennau yw:
  - Taliad misol ac adrodd am gyfraniadau pensiwn
  - Cyflwyno trosglwyddiadau data i-Connect yn fisol
  - Cyflwyno Dychweliadau Diwedd Blwyddyn cywir lle mae angen
  - Hysbysiad o wybodaeth dechreuwr / ymunwr newydd
  - Newidiadau i fanylion personol
  - Newidiadau i fanylion cyflogaeth
  - Manylion absenoldeb di-dâl
  - Hysbysiadau am ymadawyr
  - Darparu tystiolaeth yn cefnogi penderfyniadau cyflogwyr sy'n ymwneud â phensiwn (Er enghraifft, ymddeoliadau ar sail iechyd, ymddeoliad hyblyg, diswyddo ar sail gormodedd, rhyddhau buddion yn gynnar i aelodau gohiriedig ar sail dosturiol neu salwch)
- Cyfeirio'r cyfathrebiadau at staff priodol yn y cyflogwr (Er enghraifft, Adnoddau Dynol, timau Cyflogres, Cyfarwyddwr Cyllid)
- Trefnu bod cyfathrebiadau sy'n ymwneud â'r CPLIL yn cael eu dosbarthu i aelodau'r cynllun, pan a phryd bo'r angen.
- Cynorthwyo a chysylltu â'r Gronfa ar weithgareddau hyrwyddo, gan gynnwys annog aelodau i gofrestru ar gyfer y gwasanaeth "Fy Mhensiwn Ar-lein".

- Hysbysu'r Gronfa o unrhyw wasanaethau sy'n cael eu hallanoli sy'n ymwneud â throsglwyddo staff CPLIL cymwys drwy TUPE cyn gynted ag y bo modd, er mwyn sicrhau y gellir cynnwys gwybodaeth pensiwn priodol mewn dogfennau tendr, a chymhwysedd gweithwyr am aelodaeth CPLIL a bod eu haelodaeth yn cael ei warchod.
- Hysbysu'r Gronfa o newidiadau i drefniadau cyflawni gwasanaeth (e.e. newid darparwr cyflogres)
- Cysylltu â'r Awdurdod Gweinyddu a'i gynorthwyo i adnabod, egluro, adrodd a datrys tor- amodau statudol, fel sy'n ofynnol gan God Ymarfer y Rheoleiddiwr Pensiynau ar gyfer cynlluniau pensiwn gwasanaethau cyhoeddus (cod ymarfer 14)

## Cyfrifoldebau cyflogwyr - Rolau, Swyddogaethau a Thargedau Perfformiad

Mae'r tablau a ganlyn yn nodi mewn mwy o fanylder beth yw rolau pob cyflogwr mewn perthynas â gweinyddiaeth y cynllun.

Mae'r safonau perfformiad a ddisgwyllir yn cael eu mynegi fel targedau sy'n ddisgwylliedig mewn amgylchiadau arferol. Mewn eithriadau, derbynnir efallai na fydd yn bosib cyflawni'r targed a nodwyd ac fe fabwysiadir dull pragmatig. Mae hyn yn amodol ar gyflogwyr yn gwneud pob ymdrech i gwrdd â'r safonau disgwylliedig lle bynnag y bo hynny'n bosib.

### Rôl a Chyfrifoldeb y Cyflogwr

Swyddogaeth/Tasg	Targed Perfformiad
<b>Cysylltiadau Cyflogwr</b>	
Dynodi a chadarnhau'r cyfrifoldeb(au) enwebedig (Cyflogres, AD. Cyllid), i weithredu ar ran y cyflogwr mewn perthynas â gweinyddu'r CPLIL.	O fewn 1 mis o ddod yn gyflogwr y cynllun neu o fewn 1 mis o newid mewn cynrychiolwr/cynrychiolwyr enwebedig. Manylion i'w cyflwyno ar e-bost i <a href="mailto:pensiynau@gwynedd.llyw.cymru">pensiynau@gwynedd.llyw.cymru</a>
Penodi person (y dyfarnwr) i ystyried anghydfodau dan gam 1 y broses datrys anghydfod pensiynau mewnol (IDRP) a darparu manylion cyswllt llawn a chyfredol i'r Gronfa	Hysbysu'r Gronfa o fewn 30 diwrnod o ddod yn gyflogwr y cynllun neu ar ôl i'r dyfarnwr presennol ymddiswyddo
Penodi Ymarferydd/Ymarferwyr Meddygol Cofrestredig Annibynnol (IRMP) sydd wedi cymhwyso mewn meddygaeth iechyd galwedigaethol, neu drefnu gyda thrydydd parti, a cheisio cymeradwyaeth i'r penodiad gan y Gronfa, er mwyn ystyried yr holl geisiadau ymddeol ar sail salwch gan aelodau gweithredol a gohiriedig.	O fewn <b>1 mis</b> o ddod yn gyflogwr y cynllun neu o fewn 1 mis o newid mewn IRMP.
<b>Polisi Disgresiwn Cyflogwr</b>	
Llunio a chyhoeddi polisiâu mewn perthynas â'r holl feysydd lle y gall y cyflogwr weithredu ei ddisgresiwn o fewn y CPLIL (gan gynnwys darparu copi o'r ddogfen polisi i'r Gronfa).	Polisiâu i'w cadw dan adolygiad a datganiad diwygiedig i'w gyhoeddi o fewn 1 mis o unrhyw newidiadau a ddim hwyrach na 6 mis ar ôl cael gwybod gan y Gronfa am unrhyw newid perthnasol mewn rheoliadau
<b>Dechreuwyr Newydd</b>	
I sicrhau fod gwybodaeth pensiynau wedi'i chynnwys fel rhan o unrhyw broses anwytho cyflogaeth newydd, gan gynnwys contractau cyflogaeth a llythyrau penodi, gan gynnwys	Fel rhan o'r contract safonol/templodi penodi

